



Astudiaeth Adfywio'r Ucheldir

Pentir Pumlumon

Adroddiad Terfynol

Gorffennaf 2017



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council





Awduron:
Nick Miller
Susie Stevenson
Astrid Aupetit

Gorffennaf 2017

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	2
1 Cyflwyniad	7
1.1 Amcanion.....	7
1.2 Strwythur yr Adroddiad	7
1.3 Dull	8
2 Cefndir	9
2.1 Adolygiad o lenyddiaeth	9
2.2 Yr Ymwelwyr Presennol a'r Cynnig i Ymwelwyr	10
3 Ymgynghori â Chymunedau a Chasglu Tystiolaeth.....	21
3.1 Gweithdy 1.....	21
3.2 Gweithdy 2.....	26
3.3 Gweithdy 3.....	28
3.4 Crynodeb	32
4 Datblygu'r Ucheldir: Prosiectau a Blaenoriaethu	35
4.1 Cynllun Cyffredinol ar gyfer yr Ucheldir	35
5 Cynllun Gweithredu Ymwelwyr Diwylliannol / Treftadaeth	53
5.1 Cyflwyniad	54
5.2 Asedau diwylliannol a threftadaeth.....	54
5.3 Gweledigaeth ar gyfer diwylliant o threftadaeth yn ardal yr Ucheldir	54
5.4 Diwylliannol a threftadaeth: prosiectau â blaenoriaeth	56
6 Cynllun gweithredu gweithgareddau awyr agored / chwaraeon.....	59
6.1 Cyflwyniad	60
6.2 Asedau gweithgareddau awyr agored / chwaraeon.....	60
6.3 Gweledigaeth ar gyfer gweithgareddau awyr agored / chwaraeon yn ardal yr Ucheldir	60
6.4 Gweithgareddau awyr agored / chwaraeon: prosiectau blaenoriaeth	62
7 Cyfleoedd bywyd gwledig / yr amgylchedd naturiol i ymwelwyr	66
7.1 Cyflwyniad	67
7.2 Asedau bywyd gwledig / yr amgylchedd naturiol.....	67
7.3 Gweledigaeth ar gyfer bywyd gwledig / yr amgylchedd naturiol yn ardal yr Ucheldir	67
7.4 Bywyd gwledig / yr amgylchedd naturiol: prosiectau â blaenoriaeth	69
8 Cyllid.....	72
9 Monitro a Gwerthuso.....	77

Ffigurau

Ffigur 1 Map Gwres o Asedau Twristaidd yn Ucheldir Ceredigion	11
Ffigur 2 Graddfeydd deiliadaeth llety yn y Canolbarth, ac yng Nghymru gyfan, yn 2015-2016.....	17
Ffigur 3 Map Parc Pumlumon.....	31

Tablau

Tabl 1 Niferoedd Ymwelwyr ag Atyniadau yn ardal yr Ucheldir	14
Tabl 2 Dadansoddiad SWOT (Gweithdy 1)	24
Tabl 3 Dadansoddiad SWOT ar gyfer Gweithdy 2.....	27
Tabl 4 Dadansoddiad SWOT o Ardal yr Ucheldir	32
Tabl 5 Crynodeb o'r ffrydiau cyllid sydd ar gael.....	74
Tabl 6 Monitro a Gwerthuso Mesurau	77

Astudiaethau Achos

Astudiaeth Achos 1. Ymgrych marchnata lle ar gyfer North Yorks Moors.....	37
Astudiaeth Achos 2 Her Beicio'r Tymbl	38
Astudiaeth Achos 3 Gŵyl Ffilmiau Borderlines	40
Astudiaeth Achos 4 Pays Gourmand - Ffrainc.....	42
Astudiaeth Achos 5 The Wild Atlantic Way.....	44
Astudiaeth Achos 6 Trafnidiaeth Gymunedol yn Weardale	45
Astudiaeth Achos 7 Drive Less, See More: Ardal y Llynnoedd	45
Astudiaeth Achos 8 Humble by Nature.....	47
Astudiaeth Achos 9 Cosy Under Canvas – 'Glampio' yn Llannewydd	48

"Plunlummon is not a sociable country, sir; nothing to be found in it, but here and there a few sheep or a shepherd."

George Borrow: "Wild Wales: Its People, Language and Scenery". 1862

Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau astudiaeth a oedd yn canolbwyntio ar dwristiaeth i archwilio materion yn ymwneud ag adfywio ardal Ucheldir Ceredigion.

Cychwynnwyd yr astudiaeth hon gan Pentir Pumlumon gyda chyllid gan y Rhaglen Ewropeaidd Leader, cymeradwyaeth Grŵp Gweithredu Lleol Cynnal y Cardi, a'i chomisiynu gan Gyngor Sir Ceredigion. Y dasg oedd cynnal astudiaeth waelodlin o ardal yr Ucheldir, ac ymchwilio a datblygu tri chynllun gweithredu – un ar gyfer diwylliant a threftadaeth, un arall ar gyfer gweithgareddau awyr agored, a'r llall ar gyfer cefn gwlad a natur. Yn ogystal fe wnaeth yr astudiaeth ystyried y seilwaith sydd ar gael i ymwelwyr a phobl leol; yn enwedig o safbwynt cysylltiadau trafnidiaeth.

Roedd yr ymchwil yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- Cyfnod cwmpasu, gan gynnwys adolygiad desg o'r data a'r dogfennau sydd ar gael yn ymwneud â thwristiaeth yn yr ardal a chyfres o gyfweiliadau ffôn gyda rhanddeiliaid.
- Arolwg, a gylchredwyd gan randdeiliaid twristiaeth, i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r canfyddiadau o'r ardal ymysg ymwelwyr a thrigolion lleol.
- Tri gweithdy ymgynghori â chymunedau; y daeth cyfanswm o 75 o randdeiliaid lleol iddynt. Cynhaliwyd y sesiynau hyn mewn tri gwahanol leoliad i ddenu hynny ag oedd yn bosibl iddynt, a phob un yn canolbwyntio ar thema wahanol.

Asesiad Gwaelodlin

Mae diffyg data sy'n ymwneud yn benodol â'r Ucheldir, ond dengys data Croeso Cymru fod Ceredigion yn ei chyfanrwydd yn denu bron i 6m o ymwelwyr dydd y flwyddyn, gyda gwariant cyfartalog o ychydig llai na £25 y dydd (is na chyfartaledd Cymru o £33). Mae'r ardal yn fwyaf poblogaidd ymysg cyplau hŷn a theuluoedd ifanc, ond yn llai felly gyda theuluoedd â phlant yn eu harddegau neu ymwelwyr yn y grŵp oedran 20-35. Mae'r llenyddiaeth yn cydnabod bod y rheini sy'n ymweld â'r ardal yn deyrngar ac yn tueddu i ddychwelyd yn amlwg a bod y dreftadaeth a'r tirwedd cyfoethog yn cynrychioli asedau sydd â'r potensial i'w datblygu ymhellach o safbwynt twristiaeth.

Asedau

Mae'r atyniadau twristiaeth o fewn ardal o siâp T ar draws coridor yr A44/A4190 ac ar y ffordd o'r gogledd i'r de rhwng Pontarfynach a Thregaron; y dau brif anheddiad, gan gymryd i mewn Pontrhydfendigaid ac aneddiadau gwledig eraill.

Mae'r prif atyniadau'n cynnwys:

- Canolfan awyr agored Bwlch Nant yr Arian;
- Rheilffordd Cwm Rheidol;
- Pontarfynach a'r Rhaeadr;
- Ystad Hafod a'r Eglwys;
- Abaty Ystrad Fflur;
- Tref farchnad Tregaron.

Mae'r cynnig lletygarwch yn canolbwyntio ar y farchnad draddodiadol, gyda llawer o'r llety'n cael ei ddarparu trwy feysydd carafannau a thai gwely a brecwast a chyfyngedig yw'r bwyd

a'r diod lleol sydd ar gael. Er bod amrywiaeth dda o ddigwyddiadau amaethyddol yn cael eu cynnal yn yr ardal, mae llai o ddarpariaeth o safbwynt y celfyddydau, chwaraeon neu atyniadau diwylliannol. Yn gyffredinol, mae potensial i wella ac ehangu'r cynnig i apelio at farchnad ehangach.

Cynhaliwyd arolwg ymwelwyr o 206 o bobl fel rhan o'r ymchwil hwn. Dangosodd hwn fod ymwelwyr yn fwyaf tebygol o gael eu denu i'r Ucheldir os oes ganddynt gysylltiad eisoes, megis teulu neu gyfeillion yn yr ardal. Adroddwyd bod gwariant cyfartalog ymwelwyr gan gynnwys llety yn £46.50 y diwrnod ac mai gwyliau byr rheolaidd oedd y math o ymweliad a grybwyllwyd fwyaf. Yr atyniadau yr ymwelwyd â hwy fwyaf oedd y rheini a restrir uchod. Cadarnhaol yw nodi i fwy na naw deg y cant o'r rheini a ymatebodd i'r arolwg ddweud y byddent yn argymhell yr ardal i bobl eraill. Awgrymodd ymatebwyr i'r arolwg amrywiaeth o feysydd lle gellid gwella profiad ymwelwyr yn yr Ucheldir, gan gynnwys:

- Gwell cyfleusterau ar gyfer chwaraeon adrenalin awyr agored;
- Gwell safon o lety a gwasanaeth i gwsmeriaid;
- Mynediad i gefn gwlad ac arwyddion/llwybrau;
- Cysylltiadau trafnidiaeth i gysylltu'r ardal â'i gilydd yn well;
- Gwell gwybodaeth/dehongli i ymwelwyr;
- Amlygu asedau naturiol a diwylliannol i roi stori mwy ystyrlon i'r Ucheldir.

Gweithdy 1

Roedd y gweithdy cyntaf yn cynnwys taith ar Reilffordd Cwm Rheidol a thrafodaeth yng ngwesty'r Hafod ym Mhontarfynach ynghylch asedau, ymwelwyr presennol a materion cyffredinol ynglŷn â'r ardal. Fe wnaeth y rhai a gymerodd ran ddefnyddio'r daith i brofi Pontarfynach fel y byddai ymwelwyr am y tro cyntaf, ac fe wnaethant amryw o sylwadau, gan gynnwys:

- Mae'r trên yn ased pwysig, ond mae diffyg gwybodaeth am y daith heb fawr o ddehongli'r tirwedd na threftadaeth ddiwylliannol/diwydiannol yr ardal.
- Mae'r arwyddion yn wael ym Mhontarfynach, fel nad yw ymwelwyr yn cael eu hannog i grwydro a darganfod y tu hwnt i ardal yr orsaf;
- Mae cyfleusterau da o safbwynt y caffi, toiledau a siop siocled i ymwelwyr i'w mwynhau, ond nid yw'n eglur lle mae'r cynnig ehangach o fwyd a diod ar gael;
- Mae'r daith gerdded i'r Gwesty / Rhaeadr / ardal y Coetir yn beryglus iawn, heb unrhyw balmant a thraffig trwm yn mynd heibio'n aml;
- Nid oes gan ymwelwyr drafnidiaeth i Stad yr Hafod neu'r tu hwnt;
- Mae gwesty'r Hafod yn allweddol i'r cynnig a chroesewir yr adnewyddu presennol.

Gweithdy 2

Roedd yr ail weithdy yng ngwesty'r Talbot yn Nhregaron yn canolbwyntio ar dwristiaeth ddiwylliannol, treftadaeth ac ysbrydol, gan gynnwys cyfleoedd yn sgil buddsoddiadau yn Abaty Ystrad Fflur. Fe wnaeth y rhai a gymerodd ran fyrddau syniadau i ddisgrifio sut y gellid datblygu'r Ucheldir, gan gynnwys gweledigaeth ar gyfer yr ardal:

"Gweledigaeth y gymuned ar gyfer ardal yr Ucheldir yw canolbwyntio ar y tirwedd naturiol dihalog i ddenu ymwelwyr i'r ardal, gan ddefnyddio'r gweithgareddau awyr agored a'r safleoedd treftadaeth."

Gweithdy 3

Roedd y trydydd gweithdy, a gynhaliwyd yng nghanolfan ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian yn canolbwyntio ar dwristiaeth gweithgareddau awyr agored a natur. Fe wnaeth y digwyddiad nodi'r amrywiaeth dda o gyfleusterau ar gyfer twristiaeth awyr agored, ond hefyd y potensial i adeiladu ar hyn gyda llwybrau hirach i feiciau mynydd, mwy o gyfleusterau i gerddwyr a mwy o amrywiaeth o gysylltiadau i gynnig profiadau o'r tirwedd a'r asesau naturiol. Fe wnaeth y cyfarfod drafod rhagolygon ar gyfer datblygu chwaraeon dŵr a gweithgareddau awyr agored cymysg o gwmpas cronfa ddŵr Nant y Moch a hen ganolfan gweithgareddau awyr agored Maesnant.

Cynllun Gweithredu ar gyfer yr Ucheldir

Mae cynllun gweithredu ar gyfer yr Ucheldir wedi cael ei baratoi, sy'n adeiladu ar yr ymchwil gwaelodlin a'r gweithgaredd ymgynghori. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar ddwy brif elfen:

1. Cynyddu'r galw: tyfu nifer yr ymwelwyr ymysg carfannau targed, newydd a chynyddu gwariant, amllder a hyd ymweliadau gan ymwelwyr presennol.
2. Adeiladu cynhwysedd – er mwyn ymateb i'r galw a diwallu anghenion ymwelwyr newydd.

Ymhelaethir ar y ddau gam gweithredu hyn isod, ynghyd â rhai o'r prif weithredoedd o dan agweddau thematig yr ymchwil;

Cynyddu'r Galw

- Codi ymwybyddiaeth o'r asedau twristiaeth yn yr Uchelldiroedd trwy, er enghraifft:
 - Dyfeisio hunaniaeth ac ymgyrch farchnata i'r Ucheldir heb achosi dryswch brandiau o fewn Mynyddoedd Cambria / Ceredigion / Canolbarth Cymru;
 - Defnyddio teyrngarwch presennol ymwelwyr a busnesau trwy gynllun llysgenhadon;
 - Dyfeisio rhaglen ddigwyddiadau i ddenu cynulleidfaoedd newydd;
 - Defnyddio brand y Gwyll/Hinterland i ddenu ymwelwyr.

Adeiladu Cynhwysedd

- Codi ymwybyddiaeth o'r potensial i ddatblygu twristiaeth trwy:
 - Sefydlu gweithgor o fusnesau, gyda nod o sefydlu Grŵp Twristiaeth cydweithredol yr Ucheldir;
 - Camau i wella amrywiaeth a safonau lletygarwch, trwy ddefnydd mwy gweladwy o fwyd, diod a nwyddau lleol a gwasanaeth o ansawdd uchel i gwsmeriaid sy'n seiliedig ar ddweud stori'r Ucheldir a'i dreftadaeth;
- Gwellu seilwaith, trwy ddatblygu arwyddion thematig, llwybrau treftadaeth a natur, dehongli tirwedd a threftadaeth a gwell mynediad i'r tirwedd;
- Gwellu cysylltiadau a thrafnidiaeth, trwy ddarparu beiciau trydan, cynllun prydlesu Twizy a rhaglen beilot o fysiau wennol o Bontarfynach.
- Adeiladu mentergarwch a helpu busnesau twristiaeth newydd i gynyddu diddordeb yn stori gefndir yr Ucheldir; yn gysylltiedig, er enghraifft, â mentrau fferm.
- Ymchwilio i'r posibilrwydd o welliannau ffisegol i seilwaith Pontarfynach, megis creu palmant diogel trwy'r pentref, gwellu arwyddion ac agor y golygfeydd.

- Chwilio am gyllid i gynnal swyddog prosiect twristiaeth rhan-amser i gyflawni'r camau gweithredu uchod.

Diwylliant a Threftadaeth

Cynyddu amlygrwydd a dealltwriaeth o'r diwylliant a'r dreftadaeth yn yr ardal trwy, er enghraifft:

- Rhaglen o ddigwyddiadau celfyddydau / cerddorol mewn lleoliadau allweddol;
- Sefydlu llwybr twristiaeth crefyddol sy'n gysylltiedig â Ffordd y Sistersiaid a Llefydd Llonydd;
- Datblygu gŵyl 'film noir', sy'n gysylltiedig â chyfres y Gwyll;
- Creu taith George Borrow i ail-greu taith yr awdur eiconig.

Gweithgareddau Awyr Agored

Adeiladu ar y gweithgareddau awyr agored a gynigir ar hyn o bryd, er enghraifft:

- Chwilio am gefnogaeth i weithgaredd awyr agored a chwaraeon dŵr o gwmpas Nant y Moch;
- Datblygu ras feiciau eiconig; Taith o Fynyddoedd Cambria;
- Adfywio Her Pumlumon fel ras fynydd ym Mynyddoedd Cambria;
- Mae sefydlu cyfleusterau siopau cynnal / rhentu / ategolion beiciau / arwyddion / marchnata yn yr ardal yn gyfle i ddenu ymwelwyr newydd;
- Ystyried cysylltiadau â brandiau dillad / offer awyr agored i hyrwyddo'r ardal;
- Adeiladu'r farchnad ar gyfer twristiaeth marchogaeth trwy lwybrau marchogaeth pellter hir.

Bywyd Gwledig / Natur

Cynyddu niferoedd ymwelwyr a ddenir gan ansawdd y tirwedd a'r amrywiaeth o brofiadau naturiol yn yr Ucheldir;

- Creu a marchnata cyfres o ddigwyddiadau'n ymwneud â dehongli'r awyr dywyll yn yr Ucheldir;
- Cefnogi datblygu cyrsiau a phrofiadau sy'n gysylltiedig â stori gefndir amaethyddiaeth;
- Galluogi mwy o bobl i brofi ehangder y diffeithdir trwy ddatblygu teithiau cerdded yn helaeth yn yr ardal ee Ffordd Cambria a Dyffryn Aeron a chreu arwyddion digonol;
- Tynnu sylw at yr amrywiaeth ragorol o adar ysglyfaethus yn yr Ucheldir, trwy deithiau tywydd a saffaris tynnu lluniau.

Crynodeb

Mae'r ymchwil wedi dangos potensial mawr yr Ucheldir i ddenu amrywiaeth o ymwelwyr gyda gwahanol ddiddordebau, i fwynhau'r hyn sydd ganddo i'w gynnig. Fodd bynnag, mae angen gwella'r atyniadau a'r lletygarwch i adlewyrchu anghenion ymwelwyr heddiw a sicrhau cynaliadwyedd niferoedd ymwelwyr yn y dyfodol.

Bydd hyn yn gofyn am barhau i ymwneud â busnesau, annog buddsoddi a chydweithio; o fewn y sector preifat a gyda Chyngor Sir Ceredigion a chyrff sector cyhoeddus eraill.

Mae nifer o gyfleoedd allweddol, megis y diddordeb presennol yn y Gwyll a'r ffenest sydd ar ôl ar gyfer mynediad at gyllid yr UE, sy'n awgrymu ei bod yn amser allweddol i ddatblygu'r Ucheldir. Felly, mae'n hanfodol gweithredu'n awr i hybu economi twristiaeth ac adeiladu ffyniant economaidd cynaliadwy yn yr ardal.

1 Cyflwyniad

Fe wnaeth Pentir Pumlumon gomisiynu Miller Research i gynnal astudiaeth i ymchwilio i faterion yn ymwneud ag adfywio'r Ucheldir. Cychwynnwyd yr astudiaeth gan Pentir Pumlumon gyda chyllid o'r Rhaglen Ewropeaidd Leader, cymeradwyaeth Grŵp Gweithredu Lleol Cynnal y Cardi ac fe'i comisiynwyd gan Gyngor Sir Ceredigion. Mae'r adroddiad hwn yn dogfennu canfyddiadau'r astudiaeth.

1.1 Amcanion

Amcanion yr astudiaeth oedd:

- Cynnal astudiaeth waelodlin o'r ardal i gynnwys niferoedd a math o ymwelwyr, llety, atyniadau, gweithgareddau, cyfleusterau a gwasanaethau
- Archwilio a datblygu cynllun gweithredu ymwelwyr diwylliannol / treftadaeth
- Archwilio a datblygu cynllun gweithredu ymwelwyr gweithgareddau / chwaraeon
- Archwilio a datblygu cyfleoedd bywyd cefn gwlad / natur i ymwelwyr
- Archwilio materion yn ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus i'r gymuned ac ymwelwyr
- Cynnal digwyddiadau ymgynghori â'r gymuned i gasglu tystiolaeth a chefnogaeth i'r uchod.

1.2 Strwythur yr Adroddiad

Mae'r adroddiad wedi ei drefnu fel a ganlyn:

- Mae gweddill Adran 1 yn disgrifio'r dull a gymerwyd i gyflawni'r astudiaeth;
- Mae Adran 2 yn rhoi rhywfaint o gefndir a chyd-destun i'r gwaith;
- Mae Adran 3 yn nodi'r broses o gynnwys y gymuned a chasglu tystiolaeth;
- Mae Adran 4 yn rhoi argymhellion cyffredinol ar gyfer gweithredu;
- Mae Adran 5 yn cynnig cynllun gweithredu diwylliannol / treftadaeth;
- Mae Adran 6 yn cynnig cynllun gweithredu gweithgareddau awyr agored / chwaraeon
- Mae Adran 7 yn cynnig cynllun gweithredu ar gyfer bywyd cefn gwlad a'r amgylchedd naturiol;
- Mae Adran 8 yn adolygu'r ffrydiau ariannu sydd ar gael i gefnogi adfywiad ucheldir;
- Mae Adran 9 yn tynnu sylw at rai materion yn ymwneud â monitro a gwerthuso.

Yn ogystal â'r prif adroddiad:

- Mae Atodiadau 1 a 2 yn ehangu ar ganlyniadau'r gweithdai;
- Mae Atodiad 3 yn cyflwyno'r arolwg ar-lein a wnaed;
- Mae Atodiad 4 yn rhestru'r rhanddeiliaid a gyfwelwyd yn uniongyrchol ar gyfer y prosiect.

1.3 Dull

Un o amcanion allweddol y prosiect oedd cynnwys digwyddiadau ymgynghori cymunedol yn y gwaith o gasglu tystiolaeth a chefnogi datblygiad cynlluniau gweithredu. Mae rhanddeiliaid cymunedol o ardal yr Ucheldir wedi bod yn allweddol i'r dull a fabwysiadwyd; gan gymryd rhan yn y tri gweithdy ymgynghori cymunedol, cyfweiliadau â rhanddeiliaid ac arolwg ar-lein. Mae'r dull hwn yn galluogi i gynlluniau gweithredu gael eu creu ar y cyd ar gyfer adfywio cyffredinol yr ardal, ynghyd â'r themâu arbenigol a amlinellir uchod. Amlinellir y dull a fabwysiadwyd ar gyfer yr astudiaeth mewn mwy o fanylder isod.

Ymchwil cefndir, mapio asedau ac adolygu data

Cynhaliwyd adolygiad desg a oedd yn archwilio'r cyd-destun strategol, polisi a chefnidir ar gyfer twristiaeth yn yr ardal. Rhoddir crynodeb o hyn yn Adran 2. Mae'r atyniadau, gweithgareddau a'r darparwyr llety a lletygarwch alweddol yn ardal yr Ucheldir¹ wedi cael eu mapio'n gynhwysfawr gan ddefnyddio mapiau Google. Cynhaliwyd dadansoddiad pellach ar sail data sydd ar gael; gan edrych yn benodol ar gyfraddau meddiant a niferoedd ymwelwyr i atyniadau allweddol yn ardal yr Ucheldir.

Cyfweiliadau â Rhanddeiliaid

Cynhaliwyd deuddeg o gyfweiliadau ffôn lled-strwythuredig gydag aelodau o'r gymuned sydd â rhan mewn twristiaeth. Cynhaliwyd y rhai i ennill dealltwriaeth o'r hyn y mae'r ardal yn ei gynnig a'r heriau a wynebwr wrth rwydweithio'r sector twristiaeth yn yr ardal er mwyn denu niferoedd uwch o ymwelwyr a chynyddu amserau aros a gwariant ymwelwyr. Roedd y cyfweiliadau'n galluogi trafodaethau manwl hefyd mewn meysydd penodol o ddiddordeb ar gyfer y cynlluniau gweithredu (sef treftadaeth, diwylliant, natur etc.) ac mae'r canfyddiadau o'r rhain yn ffurfio rhan annatod o ganlyniadau'r adroddiad hwn a'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig.

Gweithdai cymunedol

Cynhaliwyd tri gweithdy cymunedol fel rhan o'r prosiect, i gynnwys syniadau gan y boblogaeth leol a sicrhau perchnogaeth o'r cynlluniau gweithredu. Cynhaliwyd y gweithdai hyn mewn gwahanol rannau o ardal yr Ucheldir, i ymwneud ag amrywiaeth o fuddiannau cymunedol a dangos yr asedau sydd ar gael. Daeth cyfanswm o fwy na 75 o bobl i'r tri gweithdy, y manylir arnynt yn Adran 3 o'r adroddiad hwn.

Arolwg ar-lein

Datblygwyd arolwg ar-lein ac fe'i cylchredwyd i'r holl randdeiliaid ar ein rhestr gysylltiadau, y gofynnwyd iddynt rannu dolen gyda'u hymwelwyr trwy gyfryngau cymdeithasol, cylchlythyrau newyddion ac unrhyw sianelau eraill. Bu'r arolwg yn rhedeg o fis Hydref 2016 tan fis Chwefror 2017 a denodd 206 o ymatebion.

Adolygu cyllid

Yn olaf, cynhaliwyd adolygiad o'r ffrydiau ariannu sydd ar gael sy'n berthnasol i'r cynnig twristiaeth yn ardal yr Ucheldir. Amlinellir cipolwg o'r dewisiadau yn Adran 5.

¹ I fapio'r asedau, cafodd ardal yr Ucheldir ei diffinio gan SY23 a SY25.

2 Cefndir

2.1 Adolygiad o lenyddiaeth

Mae cytundeb barn o fewn y llenyddiaeth sydd ar gael fod diffyg adnabyddiaeth ymhlith ymwelwyr posibl o'r Ucheldir ac ardal ehangach Mynyddoedd Cambria, a bod angen i'r ardal ddatblygu ymwybyddiaeth ehangach o'r hyn sydd ganddi i'w gynnig i ddenu twristiaid, ynghyd â'r seilwaith i ddiwallu anghenion gwesteion a thrigolion lleol. Gallai datblygu cyfleusterau fel rhwydwaith hyfyw a hyblyg o drafnidiaeth gyhoeddus, amrywiaeth dda a safon dda o lety, bwyd a gwasanaethau atodol eraill greu swyddi, datblygu'r economi, gwella hyfywedd busnesau presennol (gan gynnwys ffermydd) ac annog pobl ifanc i aros yn yr ardal.

Mae rhai o'r materion allweddol a'r cynlluniau/strategaethau y tynnwyd sylw atynt mewn adroddiadau sy'n bod eisoes yn cynnwys:

- Galluogi Ucheldir bywiog² trwy hyrwyddo'r ardal a'r cynhyrchion a ddaw ohoni fel rhan o Fynyddoedd Cambria – gyda chefnogaeth gan yr RDP fel rhan o is-raglen thematig Ardaloedd Mynyddig³.
- Gwella ymwybyddiaeth i ymateb i'r her a'r cyfle mwyaf sydd gan yr ardal; trwy farchnata wedi'i dargedu a chynyddu cynnig y mewndir yng Ngheredigion⁴.
- Lleihau arwahanrwydd a chryfhau cysylltiadau rhwng cymunedau a'i gilydd.⁵
- Hyrwyddo cefn gwlad (cefnwlad gwledig, natur a gweithgareddau awyr agored) a'r dreftadaeth ddiwylliannol a ffisegol (twristiaeth grefyddol, treftadaeth mwyngloddio).⁶

Mae asedau Ceredigion wedi eu lleoli ar yr arfordir yn bennaf, er bod atyniadau allweddol yn y mewndir megis Canolfan Ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian (a llwybrau beic mynydd cysylltiedig), Rheilffordd Cwm Rheidol, Rhaeadr Pontarfynach a Stad yr Hafod. Mae'r mwyafrif o'r atyniadau awyr agored sydd yn yr ardal mewn perchnogaeth breifat⁷ a chymharol ychydig o ddarpariaeth sydd ar gyfer gweithgareddau tywydd gwlyb.

Safleoedd carafannau a gwersylla yn bennaf yw'r cynnig o ran llety yng Ngheredigion (78%), er bod y cynnig hunan-arlwygo wedi cynyddu mewn blynyddoedd mwy diweddar i gyfrif am 13% o arosiadau dros nos yn 2014.⁸

Mae angen rhoi sylw i'r prinder cymharol o seilwaith, o safbwynt anghenion cyfleusterau a llety os yw'r ardal i gystadlu'n ddigonol yn erbyn ardaloedd fel Ardaloedd y Llynnoedd, Cernyw neu Sir Benfro. Mae'r llenyddiaeth yn awgrymu hefyd fod angen i asiantaethau ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol weithio gyda'i gilydd yn well i hyrwyddo twristiaeth yn yr ardal.⁹

² Rhyddhau Potensial yr Ucheldir

³ Strategaeth Economi Twristiaeth ac Ymwelwyr Ceredigion 2011-2020

⁴ *ibid*

⁵ Rhyddhau Potensial yr Ucheldir

⁶ Strategaeth Economi Twristiaeth ac Ymwelwyr Ceredigion 2011-2020

⁷ *ibid*

⁸ Adroddiad Ceredigion gan Croeso Cymru

⁹ Strategaeth Economi Twristiaeth ac Ymwelwyr Ceredigion 2011-2020

2.2 Yr Ymwelwyr Presennol a'r Cynnig i Ymwelwyr

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn nodi beth sydd ar gael ar hyn o bryd i ymwelwyr ag ardal yr Ucheldir.

Ceredigion

Yn ôl ystadegau swyddogol, mae ymwelwyr â Cheredigion yn fodlon iawn yn gyffredinol â'u profiad a dywed canran uchel y byddant yn dychwelyd i'r ardal yn y dyfodol. Caiff yr ymwelwyr eu denu'n bennaf gan draethau a gweithgareddau awyr agored sydd gan yr ardal i'w gynnig. Fodd bynnag, nodweddir y twristiaid presennol â gwariant isel a phroffil oedran uwch, er bod yr ardal yn apelio hefyd at gyplau neu'r rheini â phlant iau.

- Cafodd Ceredigion 5.89 miliwn o ymwelwyr dydd, gydag amcangyfrif gwariant o £145.02 miliwn.¹⁰ Roedd gwariant cyfartalog ymwelwyr yn £24.62 y diwrnod, bron £10 y diwrnod yn llai na chyfartaledd Cymru (£33.28).¹²
- Mae Ceredigion yn mwynhau cyfraddau bodlonrwydd uchel iawn ymysg ymwelwyr (9.5 allan o 10).¹³ Roedd y ffactorau sy'n effeithio ar fodlonrwydd yn cynnwys 'ansawdd yr amgylchedd naturiol' a 'chyfeillgarwch pobl'.
- Dywed 91 y cant o ymwelwyr o'r DU sy'n aros y 'byddant yn sicr' o ddychwelyd, fel y gwnaeth 88 y cant o ymwelwyr dydd.¹⁴
- Dywed traean (33%) o ymwelwyr iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored yn ystod eu ymweliad dydd â Cheredigion.¹⁵ Fe wnaeth bron hanner (49%) yr ymwelwyr nodi mynd i'r traeth fel gweithgaredd a wnaed yn ystod eu trip.
- Mae mwy na dau o bob pump (43%) o ymwelwyr â Cheredigion yn gyplau. Mae bron i chwarter (24%) yr ymwelwyr yn cynnwys teuluoedd â phlant ifanc a dangosodd ymchwil twristiaeth fod yr ardal yn llai apelgar ar hyn o bryd i ymwelwyr â phlant hŷn (11%) neu bobl o dan 35 oed (9%).¹⁶

Awgryma hyn fod Ceredigion fel cyfanrwydd yn mwynhau niferoedd da o ymwelwyr gyda lefelau uchel o ddal gafael ar ymwelwyr, er bod prinder data sy'n ymwneud yn benodol ag ardal yr Ucheldir. Gall fod, fodd bynnag, angen datblygu'r cynnig i ymwelwyr er mwyn sicrhau ei fod yn apelio at ymwelwyr iau a'r rheini â phroffil gwariant uwch i fanteisio i'r eithaf ar gyfderau'r ardal.

Ardal yr Ucheldir

Mae Ucheldir Ceredigion yn ffurfio'r ardal ddiffaith fwyaf yn neheudir Prydain. Gyda llawer o gysylltiadau hanesyddol (fel gweithiau George Borrow, adfeilion enwog Ystrad Fflur a threftadaeth mwyngloddio'r 19^{eg} ganrif) a thirwedd naturiol o ansawdd uchel iawn, mae'r ardal yn cynnig lleoliad deniadol iawn ar gyfer toriadau byr neu wyliau hirach. Fodd bynnag, mae heriau i'r diwydiant twristiaeth, sy'n codi'n rhannol o natur y tirwedd, yn yr ystyr nad oes lawer o ganolbwyntiau pendant (o gymharu ag Eryri, er enghraifft, sydd â mynyddoedd

¹⁰ Arolwg Ymwelwyr Dydd Prydain 2015, https://www.visitbritain.org/sites/default/files/vb-corporate/Documents-Library/documents/England-documents/gbdvs_annual_report_2015_13.06.16.pdf

¹¹ Mae hyn yn seiliedig ar gyfartaledd tair blynedd 2013-2015.

¹² Mae hyn yn seiliedig ar gyfartaledd tair blynedd 2013-2015.

¹³ Arolwg Ymwelwyr Cymru 2013, Hybu Ceredigion.

<http://www.discoverceredigion.co.uk/SiteCollectionDocuments/Visitor%20Satisfaction%20Surveys/REPORT%20Ceredigion%20Visitor%20Survey%202013.pdf>

¹⁴ *ibid*

¹⁵ *ibid*

¹⁶ *ibid*

Mae asedau twristiaeth (llety, atyniadau a lleoliadau bwyd a diod wedi eu mapio yn fFfigur 1 i ddarlunio dosbarthiad y cynnig i dwristiaeth yn yr Ucheldir. Gellir gweld bod dwy echel i'w hystyried; sef coridor yr A44/A4190 yn y gogledd (gan gynnwys Pontarfynach) a'r echel gogledd-de o Dregaron trwy Bontrhydfendigaid i Bontarfynach.

[illegible]

Ardaloedd Cymunedol

Tregaron a blaenau dyffryn Teifi

Mae Tregaron yn dref farchnad hanesyddol ar ymyl Mynyddoedd Cambria; sy'n cynnig porth i un ardaloedd diffaith y Deyrnas Unedig. Mae gan y dref hanes o fasnach gyda themâu hanesyddol pwysig yn ffurfio cysylltiadau o fewn yr ardal – gweithiau George Borrow, canrifoedd lawer o dreftadaeth mwyngloddio ac abat y Ystrad Fflur; tîrfeiddiannwr anferth a chylch dylanwad yn ystod y canol oesoedd. Mae cysylltiad hanesyddol â

phorthmyn gwartheg, sy'n parhau, gyda sector amaethyddol gref yn cefnogi marchnad da byw fywiog yn y dref.¹⁷ Mae gan yr ardal hefyd amryw o fridwyr merlod a chobiau Cymraeg a gŵyl rasio harnais ym mis Awst.

Mae Tregaron yn nodedig am ei chysylltiadau â Twm Sion Cati; lleidr chwedlonol fel Robin Hood yn Lloegr, adroddwr straeon a meistr ar guddwisgoedd a ddaeth yn faer Aberhonddu yn y diwedd.¹⁸

Mae'r atyniadau allweddol yn Nhregaron neu ar y cyrion yn cynnwys:

- Gwarchodfa Natur Cors Caron; cors ucheldirol arwyddocaol iawn sydd ag amrywiaeth helaeth o fywyd gwyllt, gan gynnwys mwy na 170 o rywogaethau o adar.¹⁹
- Ystrad Fflur; safle diwylliannol a chrefyddol pwysig iawn ger Pontrhydfendigaid, sy'n safle hen abaty Sistersaidd a lle mae cynlluniau ar y gweill ar hyn o bryd am waith helaeth i sefydlu'r safle fel cyrchfan ymwelwyr.
- Canolfan y Barcud Coch ac amgueddfa hanes lleol ar gyrion y dref, sy'n rhoi gwybodaeth am farcutiaid coch a bywyd gwyllt lleol arall.
- Gwesty'r Talbot yng nghanol Tregaron, sydd wedi cael ei adnewyddu'n ddiweddar gyda chynnig lletygarwch cyflawn i ymwelwyr, gan gynnwys llety, bariau, bwyty ac ystafelloedd digwyddiadau i fusnesau.
- Canolfan Aur Cymru, sy'n cynnig gemwaith wedi'i ddylunio a gemwaith yn ôl gofynion penodol mewn arian ac aur Cymreig.
- Taith Ystwyth; llwybr beicio a cherdded 20 milltir sy'n cysylltu Tregaron ag Aberystwyth.

Mae'r dref yn cynnig amryw o ddigwyddiadau cymunedol sy'n denu cynulleidfaoedd helaeth, gan gynnwys Rasys blynyddol Tregaron (rasys harnais) a Tregaroc – gŵyl gerddorol gyfoes Gymraeg ddylanwadol.

Drwy'r holl ardal mae angen i'r gymuned ddeall a gweld y manteision mewn buddsoddi ar gyfer twristiaeth yn yr ardal. Mae angen parhau i ddatblygu'r gwasanaethau i ymwelwyr (sef llety, cynnig o fwyd a diod, parcio etc) ochr yn ochr â datblygu atyniadau. Mae angen cefnogaeth y gymuned er mwyn sicrhau y gall Tregaron gystadlu gyda'r cynnig o ansawdd uchel i ymwelwyr sy'n denu ymwelwyr i rannau eraill o Gymru.

Pumlumon a'r dyffrynnoedd gogleddol

Mae rhan ogleddol ardal yr Ucheldir yn cynnwys amrywiaeth o gymunedau bach a phentrefi gwledig iawn. I'r gogledd o'r A44, poblogaeth denau iawn sydd i ardal Nant y Moch ac mae'n cynnig ehangderau helaeth o rostir agored ynghyd â chop a Pumlumon, y pwynt uchaf yng nghanolbarth Cymru (752m) a tharddiad afonydd Hafren, Gwy a Rheidol. Mae canolfan ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian yn cynnig amrywiaeth o ffyrdd o gael at y tirwedd a'r bywyd gwyllt i'r gorllewin o'r ardal – gan gynnwys llwybrau helaeth i feiciau mynydd, gorsaf fwydo barcutiaid, teithiau cerdded coetir a llynnoedd pysgota. Mae'n fan cychwyn i amrywiaeth o lwybrau i gerddwyr, beicwyr mynydd, rhedwyr a marchogion ceffylau, yn ogystal ag yn lle bwydo dyddiol i farcutiaid coch. Mae'r ganolfan yn cynnig caffi a man chwarae Dizzy Heights

¹⁷ <http://www.darganfodceredigion.co.uk/Cymraeg/where/towns/Pages/Tregaron.aspx>

¹⁸ <http://www.visitmidwales.co.uk/Tregaron-Tregaron/details/?dms=3&venue=1020525>

¹⁹ <http://www.visitmidwales.co.uk/Tregaron-Tregaron/details/?dms=3&venue=1020525>

i blant a lle golchi beiciau, ond dim cyfleusterau llogi nac atgyweirio beiciau fel y rhai sydd yng Nghoed y Brenin (er bod lleoedd atgyweirio ar gael yn Aberystwyth²⁰ ac mae bellach rywfaint o gyfleusterau llogi a thywys yng Nghapel Bangor²¹).

Gerllaw, mae Profiad Mynydd Arian Llywernog yn cynnig dewis o deithiau dehongli i ymwelwyr a digwyddiadau thematig arbennig ar safle mwynglawdd arian a phlwm hanesyddol.

I'r de o Bumlumon, mae cymunedau bach Capel Bangor a Phonterwyd yn cynnig gwasanaethau lleol, gan gynnwys golff yng Nghapel Bangor. Mae Cwm Rheidol yn cynnig Tŷ Glöyn Byw Hudoliaeth Bywyd – atyniad ymwelwyr bob-tywydd sy'n dangos gloynnod byw trofannol yn eu cynefin naturiol, Canolfan Marchogaeth Rheidol a chanolfan ymwelwyr pwerdy hydro Cwm Rheidol. Mae prif ganolbwynt twristiaeth yn yr ardal, fodd bynnag ym Mhontarfynach, sydd ar ben Cwm Rheidol yn edrych tuag at Bumlumon. Mae wedi bod yn gyrchfan ymwelwyr ers amser maith yn sgil ei raeadr a'i bontydd eiconig a phoblogrwydd ei reilffordd gul trenau stêm.²²

- Mae'r rhaeadr yn atyniad allweddol yn yr ardal. Mae afonydd Mynach a Rheidol yn uno ac yn disgyn yn ddramatig i geunant islaw'r pentref gan greu un o'r rhaeadrau mwyaf a harddaf yng Nghymru. Mae tair pont wedi cael eu hadeiladu ar draws y ceunant dros y blynyddoedd, un uwchben y llall.
- Mae Rheilffordd Cwm Rheidol yn rheilffordd gul hanesyddol a agorodd rhwng Aberystwyth a Phontarfynach yn 1902. Mae'r atyniad hwn i ymwelwyr yn allweddol i'r ardal ac mae wedi cynyddu nifer ei ymwelwyr yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf.
- Mae Gwesty'r Hafod yn adeilad trawiadol sy'n allweddol i letygarwch yr ardal. Daeth i fri ac enwogrwydd ar ôl dod yn lleoliad canolog yn y gyfres Y Gwyll/Hinterland ar S4C/BBC. Wedi cyfnod o ddirywiad, mae perchnogaeth y lle wedi newid ac mae buddsoddi sylweddol yn digwydd ar hyn o bryd mewn uwchraddio a gwella'r gwesty.
- Mae Caffi Two Hoots gerllaw'r orsaf reilffordd ac mae'n darparu diodydd a byrbrydau i ymwelwyr wrth gyrraedd neu cyn gael tuag at Aberystwyth. Mae mewn safle delfrydol os nad yw ymwelwyr yn gallu cerdded i Bontarfynach a/neu'r rhaeadr, er nad yw'r caffi ond yn agor pan fo trenau'r Rheidol yn rhedeg. Mae hefyd siop gysylltiedig sy'n gwerthu cynnyrch lleol.
- Mae Sarah Bunton Chocolates hefyd gerllaw'r orsaf reilffordd. Cynigir siocled o bob math a wnaed â llaw yn y siop a gall ymwelwyr wyllo gwneuthurwyr siocled yn creu siocled a chyffug trwy'r ffenest bwrpasol yn y gweithdy.
- Mae Ystafell De Woodlands yn cynnig amrywiaeth helaeth o ddiodydd a bwyd poeth ar ben dwyreiniol y pentref, gerllaw Maes Carafannau Woodlands.
- Mae Hafod Uchtryd, sydd efallai'n fwy adnabyddus fel Stad yr Hafod, gerllaw Pontarfynach a chaiff ei hadnabod fel enghraifft nodedig o dirwedd hardd²³ a gall ymwelwyr gerdded mewn 200 hectar o gwm Ystwyth. Mae llawer o'r tir yn eiddo i

²⁰ <http://www.summitcycles.co.uk/>

²¹ <http://www.colossalactivities.co.uk/Mountain-Bike-and-Kayak-Hire.html>

²² <http://www.visitmidwales.co.uk/Devil's-Bridge-Devil's-Bridge-Pontarfynach/details/?dms=3&venue=1030425>

²³ 'Picturesque' yw'r gair Saesneg, gair a fathwyd gan y clerigwr, artist ac awdur o Sais, William Gilpin (1724 - 1804) yn ei ysgrif *Essay on Prints* (1768), lle'r oedd yn diffinio 'picturesque' fel "that kind of beauty which is agreeable in a picture."

Gyfoeth Naturiol Cymru, tra bod Ymddiriedolaeth yr Hafod yn parhau i adfer y tirwedd a'i reoli o ddydd i ddydd. Prif nodau'r Ymddiriedolaeth yw gwarchod ac adfer y stad, a luniwyd gan Thomas Johnes (Aelod Seneddol a addysgwyd yn Eton, pensaer tirwedd, awdur a chymwynaswr cymdeithasol) rhwng 1783 a 1814. Yn niwedd y 18fed ganrif, roedd y stad yn cael ei chyfrif fel cyrchfan hanfodol ar unrhyw daith o Gymru ac mae ei 12 km o deithiau cerdded am ddim a adferwyd ar lwybrau hanesyddol yn ei wneud yn gyrchfan boblogaidd i gerddwyr heddiw, yn ogystal â denu'r rheini â diddordebau mewn bywyd gwyllt a dylunio tirwedd.

- Mae Eglwys yr Hafod gerllaw'r Stad, ac yn rhannu maes parcio â hi. Mae'r eglwys yn cynnwys arddangosiad o ddeunydd hanesyddol, a chyfleuster sgrin gyffwrdd i helpu ymchwilwyr hanes teuluol. Mae gan gymunedau fel Pontrhydygroes, Frongoch, Cwmystwyth a Llywernog hanes a threftadaeth mwynloddio cryf y gellir ei weld yn y golygfeydd o gwmpas yr hen fwyngloddiau a'r archaeoleg diwydiannol ledled y rhanbarth. Mae llawer o deithiau cerdded yn mynd trwy'r ardal ac amryw yn hyrwyddo'i threftadaeth fwyngloddio; ee mae'r prif lwybr o Borth i Bontarfynach yn daith gerdded ddeunaw milltir trwy'r olygfeydd a threftadaeth fwyngloddio'r Ucheldir. Mae'r llwybr yn mynd trwy aneddiadau Talybont a Chwm Leri, Cwmsymlog, Nant yr Arian, Goginan a Chwm Rheidol ac mae bellach wedi ei ehangu y tu hwnt i Bontarfynach i Bontrhydfendigaid. Mae Pontarfynach a Thregaron yn gyrchfannau cofrestredig "Croeso i Gerddwyr" a rhestrir teithiau cerdded ar wefannau Clwb Cerdded Tregaron²⁴ a Pentir Pumlumon²⁵.

Yn gyffredinol, mae cymysgedd resymol o brofiadau pob-tywydd, er y gall yr amrywiaeth cyfyngedig o weithgareddau dan do fod yn rhwystr i rai ymwelwyr. Yn ogystal ag atyniadau sefydlog, mae Cambrian Safaris yn cynnig amrywiaeth o dripiâu i grwpiau bach o amgylch yr ardal, gan alluogi ymwelwyr i brofi ardaloedd llai hygyrch a deall hanes a diwylliant y rhanbarth.

Niferoedd Ymwelwyr

Mae Arolwg Atyniadau Twristiaeth Cymru 2015 yn dangos niferoedd ymwelwyr â thri atyniad o fewn yr ardal.²⁶

Tabl 1 Niferoedd Ymwelwyr ag Atyniadau yn ardal yr Ucheldir

Atyniad	Ymweliadau 2014	Ymweliadau 2015	% Newid
Bwlch Nant Yr Arian	94,898	106,426	12%
Stad yr Hafod	20,932	21,457	3%
Abaty Ystrad Fflur	6,391	5,280	-17%

Ffynhonnell: Arolwg Atyniadau Twristiaeth Cymru (2015) (Hynny o ddata ag sydd ar gael)

Bwlch Nant yr Arian a ddenodd y nifer mwyaf o ymwelwyr a gofnodwyd mewn unrhyw atyniad yn yr ardal yn 2015 a chynyddodd niferoedd ymwelwyr yn sylweddol rhwng 2014 a 2015, gan adeiladu ar dwf cyson a oedd yn bod eisoes.

²⁴ <http://www.clwbcerddedtrearon.site/>

²⁵ <http://www.pumlumon.org.uk/walking/>

²⁶ Arolwg Atyniadau Twristiaeth Cymru (2015) <http://gov.wales/statistics-and-research/visits-tourist-attractions/?lang=cy>

Awgryma ffigurau'r diwydiant ar gyfer Rheilffordd Cwm Rheidol fod tua 50,000 o ymwelwyr y flwyddyn wedi defnyddio'r gwasanaeth yn 2015 ac mae'r niferoedd yn dal i godi'n flynyddol o ganlyniad i fuddsoddi parhaus a datblygu'r amrywiaeth o ddigwyddiadau ac atyniadau. Nid oes unrhyw ffigurau diweddar ar gael ar gyfer rhaeadr Pontarfynach²⁷, ond caiff ei gydnabod fel atyniad sylweddol yn yr ardal. Dengys Tabl 1 gynnydd bach mewn niferoedd ymwelwyr â Stad yr Hafod i gyrraedd 21,457 o ymwelwyr, tra bod Abaty Ystrad Fflur wedi profi gostyngiad mewn ymwelwyr i 5,280 yn 2015.

Un o'r heriau i'r ardal yw manteisio ar yr ymwelwyr sy'n mynd i Fwlch Nant yr Arian, Rheilffordd Cwm Rheidol ac o bosibl Rhaeadr Pontarfynach, trwy ymestyn hyd eu harosiadau ac adeiladu ar eu gwariant trwy well cynnig.

2.2.1 Llety yn yr Ucheldir

Mae llety ymwelwyr wedi ei ddosbarthu'n weddol gyson ledled yr ardal, a'r llety'n bennaf seiliedig ar dai gwely a brecwast, bythynnod hunan-arlwygo a meysydd carafannau. Mae pedwar prif westy: Y Talbot, Tregaron; Yr Hafod, Ponarfynach; Plas Nanteos rhwng Pontarfynach ac Aberystwyth a'r George Borrow Hotel, Ponterwyd. Yn ogystal, mae llety tafarn traddodiadol yng ngwestyau'r Llew Du a'r Llew Coch ym Mhontrhydfendigaid.

Mae'r safleoedd carafannau a gwersylla'n cynnwys Maes Carafannau Woodland ym Mhontarfynach, (sy'n cynnig lleoedd gwersylla, cwt sipsiwn a dewis hunan-arlwygo, gyda siop hwylus ac ystafell da fawr sy'n hygyrch i unrhyw ymwelwyr); Maes Carafannau Fferm Erwbarfe gerllaw (sy'n cynnwys lleoedd i garafannau sefydlog a theithiol, lleoedd gwersylla a chytiau eco ar leoliad fferm y tu allan i'r pentref), safle bach yng Nghlwb Golff Capel Bangor, a Pharc Carafannau Maes Bangor a Pharc Gwyliau Bryn Gors, i'r de o'r ardal, sydd â nifer bach o garafannau i'w llogi. Mae hefyd safle gwledig yn Nhyllwyd, Cwmystwyth gyda chyfleusterau sylfaenol i wersyllwyr annibynnol.

I grwpiau mwy, mae Tynrhyd Retreat yn cynnig llety hunan-arlwygo moethus mewn ysgubor wedi'i haddasu gerllaw pentref Pontarfynach. Mae pedair uned llety ar y safle (ar gyfer hyd at 38 o bobl) y gellir ei ddefnyddio hefyd ar gyfer cynadleddau.

Mae'r cynnig cyffredinol yn canolbwyntio ar ymwelwyr traddodiadol ac nid oes fawr o lety glampio na llety unigol/bwtic ar hyn o bryd. Mae chwiliadau ar rai o'r prif wefannau brocer yn y maes hwn yn cadarnhau hyn:

- Y Talbot, Tregaron yw'r unig un o'r ardal a enwir yn [Welsh Rarebits](#);
- Nid oes dim byd o ardal yr Ucheldir yn [Great Little Places](#);
- Mae [Sawdays](#) yn cynnwys y Talbot a Phlas Nanteos;
- Mae [Under the Thatch](#) yn cynnwys Pwll Pendre ar Stad yr Hafod;
- Mae [Canopy and Stars](#) yn cynnwys The Yurt Farm, i'r gorllewin o Dregaron fel ei unig safle glampio yn yr ardal. Dyma hefyd yr unig lety sy'n ymddangos wrth chwilio Google am "glamping Ceredigion".

Yn gyffredinol, mae diffyg apêl i ymwelwyr iau, uchel eu gwariant, yn llawer o'r llety a gynigir. Bydd yr adnewyddu presennol yng ngwesty'r Hafod yn allweddol er mwyn cynnig canolbwynt lletygarwch yng ngogledd yr ardal, gan ategu'r Talbot yn y de.

²⁷ Roedd niferoedd ymwelwyr â Rhaeadr Pontarfynach yn 37,773 (2010) ffynhonnell: *Ymweliadau ag Atyniadau Twristiaeth Cymru 2010 Llywodraeth Cymru*

Er bod rhywfaint o fuddsoddi wedi digwydd mewn llety "amgen", fel y cwt sipsiwn yn Woodlands a chytiau eco ar Fferm Erwbarfe, mae prinder darpariaeth yn y sector hwn. Mae'r llety yn y Talbot yn atyniad canolog, ond cyfyng iawn yw'r cynnig arall o lety neu o wasanaethau i ddenu ymwelwyr. Er enghraifft, nid oes unrhyw lety gwely a brecwast arall na maes gwersylla yn Nhregaron. Mae'r dewis cyfyng sydd ar gael o lety ac o wasanaethau i ymwelwyr yn rhywbeth sydd angen mynd i'r afael ag ef i ddenu mwy o ymwelwyr.

2.2.2 Bwyd a Diod

Yn aml, caiff bwyd a diod lleol ei weld fel cyfrannwr allweddol wrth ddenu ymwelwyr annibynnol i ardal wledig – gan gynnig elfen unigryw o'r cymysgedd twristiaeth a gynigir i dwristiaid. Mae Mynyddoedd Cambria yn enwog am gynhyrchu cig oen ac eidion o ansawdd dda, er bod yr ardal hefyd yn cynnig helgig, ffrwythau, perlysiau a bwydydd wedi eu cywain. Mae gwneud caws yn weithgaredd pwysig yn ne Ceredigion ar hyd dyffryn Teifi, ond nid yn yr Ucheldir.

Mae amryw o'r tafarndai a'r bwytai yn yr ardal yn cynnig cynnyrch lleol, gan gynnwys tafarn y Druid Inn yn Goginan, y Ffarmers yn Llanfihangel y Creuddyn, gwesty'r Hafod, Gwesty Plas Nanteos, Rhydyfelin, a'r Talbot yn Nhregaron.

Er bod marchnadoedd ffermwyr a siopau ffermydd yn ardal ehangach Ceredigion, gall fod yn anodd prynu bwyd lleol yn ardal yr Ucheldir ac, er enghraifft, yn cynhyrchwr yn unig o ardal yr Ucheldir (Sarah Bunton Chocolates) sydd ar Daith Blas Ceredigion. Mae Fferm Gellimast y tu allan i Bontarfynach yn cynnig cigoedd a gynhyrchir yn lleol o'r fferm. Mae Caffi a Siop Fferm Glanyrafon yn Nhregaron a agorodd yn ddiweddar wedi cychwyn mynd i'r afael â'r bwlch hwn yn y farchnad. Mae'r caffi yn cynnig brecwast, cinio a the prynhawn o fwyd lleol a chartref, ac mae hefyd yn gwerthu cynnyrch lleol.

2.2.3 Digwyddiadau

Gall digwyddiadau fod yn gyfleoedd gwych i ddenu pobl i ardal am y tro cyntaf. Mae gwybodaeth gynhwysfawr am y digwyddiadau sydd ar gael yng Ngheredigion ar gael o wefan Darganfod Ceredigion.²⁸ Mae hon yn rhestru digwyddiadau yn ôl diddordeb ymwelydd ee digwyddiadau celf a chrefft, neu chwaraeon. Mae rhai digwyddiadau allweddol yn yr Ucheldir yn cynnwys:

- Gŵyl Rasio Harnais Tregaron (Pontrhydfendigaid)
- Sioe Capel Bangor a'r Cylch
- Cneifio Bont (Pontrhydfendigaid)
- Sioe Pontrhydfendigaid
- Sioe Tregaron
- Sioe Talybont
- Digwyddiadau Rheilffordd Cwm Rheidol (fel Lliwiau'r Hydref a Chinawau Dydd Sul / Cerddoriaeth ar y trêen etc)
- Digwyddiadau cerddorol a chymunedol yn Ysgoldy Goch

²⁸ <http://www.darganfodceredigion.co.uk/Cymraeg/what/events/Pages/events.aspx>


- Abercyclefest: Gŵyl Feicio Aberystwyth (yn Aberystwyth ond yn defnyddio ffyrdd yn yr Ucheldir)
- Teithiau Cambrian Safaris

Yn ogystal â'r rhain mae gŵyl gerddorol Gymraeg Tregaroc ac mae'r Pafiliwn ym Mhontrhydfendigaid yn cynnal digwyddiadau o bryd i'w gilydd, er nad oes unrhyw ddigwyddiadau yn cael eu hysbysebu ar hyn o bryd heblaw'r Eisteddfod. Mae amrywiaeth o ddigwyddiadau'n cael eu cynnig yn yr ardal ehangach ond dewis cyfyngedig sydd ar gael yn ardal yr Ucheldir ar hyn o bryd heblaw sioeau amaethyddol. Mae hyn yn cynnig cyfle i ddatblygu atyniadau newydd – yn ymwneud yn enwedig efallai â bwyd a diod, celf a diwylliant a gweithgareddau awyr agored.

Graddfeydd Deiliadaeth

Mae Arolwg Deiliadaeth Llety Cymru (2016) yn edrych yn rhanbarthol am wybodaeth ynghylch tueddiadau yn y galw am lety twrisitaeth yng Nghymru.²⁹ Mae gan y Canolbarth raddfeydd deiliadaeth is na Chymru fel cyfanrwydd, sy'n darlunio'r heriau o redeg busnes twristiaeth llwyddiannus yn yr ardal. Mae graddfa deiliadaeth gwestyau yn sylweddol is yn y Canolbarth (53 y cant yn 2015-2016) na chyfartaledd Cymru o 66 y cant ac mae'r un peth yn wir am westyau bach / tai gwely a brecwast gyda graddfa is o ddeiliadaeth yn y Canolbarth (29 y cant yn 2015-2016) na chyfartaledd Cymru o 40 y cant.

Figur 2 Graddfeydd deiliadaeth llety yn y Canolbarth, ac yng Nghymru gyfan, yn 2015-2016.



Ffynhonnell: Arolwg Deiliadaeth Llety Cymru (Ionawr 2016 i Rhagfyr 2016).


Nid yw'n syndod clywed bod carafannau sefydlog a theithiol a gwersylla yn perfformio'n well mewn rhanbarthu arfordir nag mewn lleoliadau mewndirol, gyda graddfa ddeiliadaeth lleoliad arfordirol o 75 y cant yn 2015 i 2016 o gymharu â 35 y cant i mewn yn y tir. Mae ystadegau'n dangos rhaniad cynyddol, gyda gostyngiad mewn graddfeydd deiliadaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf ar gyfer carafannau sefydlog / gwyliau yn y mewndir (8%), o gymharu â chynnydd o 15 y cant mewn lleoliadau arfordirol, er y rhoddwyd darlun mwy cymhleth gan weithredwyr yn yr Ucheldir.

²⁹ <http://gov.wales/statistics-and-research/wales-tourism-accommodation-occupancy-surveys/?lang=cy>

Yn anecdotaidd, mae rhai perchnogion meysydd carafannau yn yr ardal yn cytuno â'r ystadegau uchod, gydag un perchennog parc yn mynegi pryder bod cynnydd mewn costau busnes yn golygu bod cyllid yn cael ei ailgyfeirio oddi wrth hysbysebu a marchnata, a bod hyn yn cael effaith ar raddfeydd deiliadaeth o ganlyniad. Fodd bynnag, mae parciau eraill wedi gweld cynnydd mewn deiliadaeth dros y pum mlynedd ddiwethaf. Roedd un yn priodoli hyn i fuddsoddi swm mawr mewn hysbysebu a marchnata, gan gynnig bargeinion wedi eu targedu a hyrwyddo tramor trwy wefannau fel Asci³⁰.


Ymateb ymwelwyr

Cynhaliwyd arolwg ar-lein o agweddau twristiaid fel rhan o'r ymchwil hwn, gan ddenu 206 o ymatebion. Mae'r canlyniadau'n dangos pwysigrwydd cysylltiadau lleol wrth hyrwyddo twristiaeth, gan mai "ymweld â chyfeillion a'r teulu" a raddiwyd uchaf fel yr hyn oedd yn eu denu i'r ardal ymysg ymatebwyr, gydag amrywiaeth o atyniadau yn yr ardal yn dilyn hyn.



Ffynhonnell: Arolwg ar-lein, n=206.


Roedd ymwelwyr yn fwyaf tebygol hefyd o fod wedi aros gyda theulu neu ffrindiau, gyda gwersylla/carafanio, triapiau diwrnod, gwestyau a hunan-arlwyo yn dilyn.



Ffynhonnell: Arolwg Ar-lein, n=206.

³⁰ <http://www.acsi.eu/en/home/l2-n144/>

Cyfartaledd y gwariant a gofnodwyd gan ymatebwyr (gan gynnwys llety) oedd £46.50 y diwrnod, sy'n sylweddol uwch na'r hyn a gofnodwyd ar gyfer Canolbarth Cymru fel cyfanrwydd, er nad yw'r fethodoleg ar gyfer asesu hyn o angenrheidrwydd yn gyson ag arolygon cymharol.




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein, n=206.

Gofynnwyd i ymatebwyr pa atyniadau'r oeddent wedi ymweld â hwy yn ystod eu harhosiad a Bwlch Nant yr Arian a ymwelwyr fwyaf, a ddilynwyd gan Raeadr Pontarfynach, Stad yr Hafod a rheilffordd trenau stêm Cwm Rheidol.

Roedd ymatebwyr yn fwyaf tebygol o fod wedi ymweld â'r ardal am doriad byr o hyd at dair noson (40 y cant o ymatebwyr), a dilynwyd hyn gan arosiadau o hyd at wythnos (24 y cant) a theithiau diwrnod (21 y cant).

O ran amlder ymweliad, roedd dau begwn yn ymatebion yr arolwg; y rheini sy'n ymweld yn rheolaidd iawn (mwy na chwe gwaith y flwyddyn) a'r rheini a oedd yn ymweld unwaith neu ddwywaith y flwyddyn. Dim ond cyfran fach iawn o ymatebwyr a ddywedodd mai dyma'r tro cyntaf iddynt ymweld.

Dywedodd mwy na 90 y cant o'r rheini a ymatebodd y byddent yn argymhell yr ardal i gyfeillion a pherthnasau yn chwilio am rywle i ymweld yn y dyfodol.



Ffynhonnell: Arolwg Ar-lein, n=206.

Gofynnwyd i gyfranogwyr yr arolwg pa un peth y gellid ei wneud i wella'r profiad i ymwelwyr yn yr Ucheldir a derbyniwyd amrywiaeth helaeth o ymatebion. Roedd y themâu allweddol, fodd bynnag, yn cynnwys:


- Gwell cyfleusterau ar gyfer chwaraeon adrenalin awyr agored (gan gynnwys chwaraeon dŵr);
- Llety a gwasanaeth cwsmeriaid o well ansawdd;
- Mynediad i gefn gwlad ac arwyddion/llwybrau;
- Cysylltiadau trafniadaeth i wella cysylltiadau o fewn yr ardal;
- Gwell gwybodaeth/dehongli i ymwelwyr;
- Amlygu asedau naturiol a diwylliannol i roi stori mwy ystyrlon o'r Ucheldir.

Roedd, yn ogystal, amryw o ymatebion a oedd yn pwysleisio'r angen i osgoi gor-ddatblygu yn yr ardal; a diogelu ei gymeriad fel diffeithdir anghysbell.

I grynhoi, mae'r arolwg ymwelwyr yn awgrymu mai'r prif gymhelliad dros ymweld â'r ardal oedd i weld cyfeillion a'r teulu, yn hytrach nag oherwydd yr atyniadau a gynigir. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif o ymwelwyr yn gyffredinol fodlon gyda'u profiad a byddent yn argymhell yr ardal i bobl eraill. Mae cydnabyddiaeth, fodd bynnag, y gallai ansawdd cyffredinol y profiad elwa o gael ei ddiweddarau a'i uwchraddio mewn dull sensitif i fodloni'r esblygiad mewn disgwyliadau defnyddwyr. Byddai mwy o wybodaeth, dehongli a rhwydweithio atyniadau hefyd yn helpu creu cynnig cyffredinol i ddenu ymwelwyr newydd a chadw'r rhai presennol yn yr ardal am ymweliadau hirach neu amlach.

3 Ymgynghori â Chymunedau a Chasglu Tystiolaeth

Cynhaliwyd tri gweithdy cymunedol i ategu agweddau eraill o'r ymchwil, datblygu meddwl ar y cyd am yr ardal ac adeiladu'r gallu i gydweithio i gymryd camau i dyfu'r economi leol.



3.1 Gweithdy 1

Roedd y gweithdy cyntaf yn weithdy teithiol arloesol hanner-diwrnod ar Reilffordd Cwm Rheidol yn edrych ar yr hyn sydd gan yr ardal i'w gynnig i ymwelwyr a sut y gellir cynyddu arosiadau a gwariant ymwelwyr trwy gyrraedd eu disgwyliadau yn well. Roedd y digwyddiad yn cynnwys grŵp o randdeiliaid lleol yn chwarae rhan mathau gwahanol o ymwelwyr posibl wrth fynd ar drip o Aberystwyth i Bontarfynach. Gofynnwyd i randdeiliaid ddychmygu eu bod yn ymweld â'r ardal am y tro cyntaf, o safbwynt y cymeriad a ddynodwyd iddynt. Roedd y broses yn seiliedig yn fras ar fodel segmentau a ddatblygwyd ar gyfer Visit Britain sy'n categoreiddio ymwelwyr yn ôl eu safle ar ddwy echel: arweinwyr/dilynwyr vs annibynnol/marchnad grynsyth.³¹ Dewiswyd pedwar grŵp ar gyfer y broses hon:

- Ymwelwyr cosmopolitanaid – y grŵp sy'n gwario fwyaf, yr arloeswyr sy'n hoffi ceisio pethau newydd, yn ceisio antur ac yn disgwyl bwyd o ansawdd a llety bwtic neu anghyffredin i aros ynddo;
- Ymwelwyr ymarferol – maent yn hunan-gynhaliol ac yn rhoi gwerth uwch ar ymarferoldeb nag ar steil, gan osgoi gwario lle bo'n bosibl a dod â llawer o'r hyn mae arnynt ei angen gyda nhw;

³¹ <http://www.arkleisure.co.uk/explore/> . Rhestrir manylion y grwpiau penodol a ddefnyddiwyd yn Atodiad 1.

- Ymarferwyr traddodiadol – mae ganddynt werthoedd traddodiadol ac maent yn mwynau heriau deallusol, y celfyddydau a diwylliant. Maent yn fodlon talu am ansawdd a gwasanaeth da ac mae ganddynt farn bendant ynghylch eu disgwyliadau.
- Trigolion lleol – sy'n chwilio am rywle i gyfarfod ffrindiau a chael diwrnod allan gyda'u plant.

Ar y daith, gofynnwyd i'r grwpiau drafod eu disgwyliadau o'u diwrnod allan ym Mhontarfynach; gan ystyried beth allan gwahanol ymwelwyr ei ddisgwyl o'r ardal leol a beth y gallent ei ddisgwyl o safbwynt gwahanol wasanaethau a



Rhanddeiliaid yn mynd ar y trê'n yn Aberystwyth

gweithgareddau. Wrth gyrraedd, roedd pob grŵp yn cael eu hannog i grwydro a darganfod eu cyrchfan am 45 munud cyn ail-ymgynnull i gymharu eu profiadau yn erbyn disgwyliadau.

Roedd sesiwn prynhawn yng Ngwesty'r Hafod yn eu galluogi i feddwl ymhellach am eu profiad o deithio ar y trê'n, llunio dadansoddiad SWOT³² a chael trafodaeth thematig am yr hyn a gynigir ar hyn o bryd. Roedd 22 o randdeiliaid o drawstoriad o sefydliadau a grwpiau cymunedol yn y gweithdy rhanddeiliaid cyntaf hwn.

Fe wnaeth y gweithdy arwain at drafodaeth fywiog ynghylch manylion penodol y profiad o deithio ar y trê'n, argraffiadau o Bontarfynach a materion ehangach yn ymwneud â'r ardal leol. Roedd y materion penodol y tynnwyd sylw atynt yn y trafodaethau yn cynnwys:

- Roedd dod o hyd i orsaf Cwm Rheidol yn Aberystwyth yn anodd i rai pobl a byddai'r safle'n elwa o gael gwell arwyddion a chysylltiadau â'r brif orsaf;
- Y daith trê'n yn cynnig golygfeydd a phrofiad cyffredinol gwyh, er bod rhai grwpiau yn ei chael yn ddrud ac roedd cytundeb y byddai mwy o ddehongli ar y daith yn gwella dealltwriaeth ymwelwyr o'r tirwedd a'i hanes;
- Er bod rhai cyfleusterau a lleoedd i fwyta ac yfed o ansawdd dda ym Mhontarfynach, nid oes unrhyw wybodaeth ar beth sydd ar gael na lle i ddod i hyd iddo ac mae'r arwyddion yn gyffredinol wael.



Gwesty'r Hafod

³² Dull o archwilio cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau yw dadansoddiad SWOT (strengths, weaknesses, opportunities, threats).

- Mae'r diffyg palmant a phresenoldeb traffig trwm ym Mhontarfynach yn rhwystro sylweddol i fwynhad llawn o'r gyrchfan, yn enwedig i'r anabl neu i'r rheini â phlant ifanc.



Traffig ym Mhontarfynach

- Mae pensaernïaeth a thirwedd yr ardal yn atyniad gwirioneddol. Yr olygfa o Bontarfynach oedd y sail resymegol dros adeiladu Gwesty'r Hafod yn ei leoliad presennol. Mae llawer o hyn wedi cael ei golli yn sgil y ffensys cadwyn diolwg a ychwanegwyd a gor-dyfiant coed yn y ceunant. Er bod y rhain yn gwarchod buddiannau masnachol Rhaeadr Pontarfynach, maent yn niweidiol i ansawdd y profiad cyffredinol.

- Er bod siopau te/caffis croesawgar, cyfyngedig yw'r cynnig o ran bwyd ym Mhontarfynach a gellid gwella hyn i ddenu mwy o ymwelwyr, yn enwedig os yw'n gysylltiedig â mwy o fwyd o darddiad lleol. (Cydnabuwyd bod perchnogion newydd Gwesty'r Hafod yn gweithio ar hyn).

- Mae diffyg gwybodaeth ynghylch beth sydd i'w wneud yn yr ardal ac nid oes ffordd o grwydro'r tu hwnt i'r pentref, ac eithrio ar droed. Nid oes gan Stad yr Hafod gerllaw, er enghraifft, unrhyw gyswllt â Phontarfynach i ddenu ymwelwyr.

- Nid oes unrhyw gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus rheolaidd o Bontarfynach i'r de, a fyddai'n galluogi ymwelwyr i deithio trwy ardal yr Ucheldir i Dregaron.³³ Mae Trafnidiaeth Ystwyth, fodd bynnag, yn cynnig gwasanaeth ar gais a drefnir dros y ffôn.

Yn gyffredinol daeth y gweithdy i'r casgliad mai at y rheini â'r disgwyliadau isaf (a'r potensial isaf o wariant) yr oedd yr ardal yn apelio fwyaf a bod angen gwneud mwy i fodloni anghenion ymwelwyr iau, mwy annibynnol ac sy'n gwario mwy.

Dadansoddiad SWOT

Mae'r dadansoddiad SWOT a ddatblygwyd yn y sesiwn (Tabl 2) yn amlygu'n glir rai o gryfderau allweddol yr ardal; gan gynnwys y canlynol.

- Tirwedd heb ei ddifetha a heb ei ddarganfod gyda rhaeadrau, coedwigaeth a lleoliad sy'n heddychlon a naws gref o le;
- Amrywiaeth helaeth o weithgareddau awyr agored ar gael (ee beicio, beicio mynydd, cerdded, nofio yn y gwyllt, pysgota etc.);
- Cynnig o ran diwylliant a threftadaeth, gyda threftadaeth fwyngloddio helaeth, Rheilffordd Rheidol, Ystrad Fflur, Pontarfynach, Stad yr Hafod, eglwysi etc.

Roedd gwendidau'r ardal y tynnwyd sylw atynt gan y gymuned yn ymwneud yn bennaf â diffyg cysylltiadau, brand/hunaniaeth a seilwaith. Trafodwyd y themâu hyn yn ystod pob un o'r tri gweithdy cymunedol.

³³ Mae Google maps yn honni amser teithio o 13 awr 26m ar dtrafnidiaeth gyhoeddus o Bontarfynach i Dregaron trwy Aberystwyth. Fodd bynnag, mae Mid Wales Motorways yn gweithredu gwasanaeth cyhoeddus ar ei fws ysgol o Dregaron i Aberystwyth ac yn ôl bob dydd ar ddyddiau ysgol.

Nodwyd amrywiaeth helaeth o gyfleoedd yn y gweithdy cyntaf, gan gynnwys datblygu brand / hunaniaeth yr ardal a'r angen i gysylltu atyniadau allweddol at ei gilydd i sicrhau bod yr ardal yn dod yn gyrchfan gydysylltiedig o ddewis, gyda cynnig lletygarwch datblygedig ar gael i ymwelwyr (sef llety, bwyd, siopau, cyfleusterau cyhoeddus etc.) a rhaglen o ddigwyddiadau allweddol drwy gydol y flwyddyn.

Fe wnaeth y gymuned gydnabod hefyd nifer o fygythiadau allweddol i ardal yr Ucheldir a oedd yn cynnwys diffyg cyllid; yn rhannol oherwydd penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd a hefyd ganfyddiad nad yw'r Canolbarth yn ardal y mae Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio arni. Un bygythiad diddorol a nodwyd oedd un o fewn y gymuned ei hun, yn yr ystyr nad oes ganddi ddiwylliant sy'n ddigon cydweithredol nac uchelgeisiol i ddatblygu cynnig twristaeth cryf.

Tabl 2 Dadansoddiad SWOT (Gweithdy 1)

Cryfderau	Gwendidau
- Tirwedd dihalog - Golygfeydd / Rhaeadr/ Coedwigaeth - Harddwch heb ei ddifetha – tirwedd heb gael ei ddarganfod - Potensial nas gwiredwyd yn Hafod - Diffyg traffig/ ffyrdd mawr - Pumlumon – mynydd uchaf yr ardal - Tarddiad 3 afon - Awyr dywyll yn y nos - Amrywiaeth o weithgareddau awyr agored yn cael eu cynnig - Nofio yn y gwyllt, pysgota, beicio, beicio mynydd, cerdded, marchogaeth - Natur – bywyd gwyllt ee bela coed / barcutiaid coch, eogiaid - Diwylliant / treftadaeth - Treftadaeth mwyngloddio, Rheilffordd Rheidol, Ystrad Fflur, Pontarfynach, eglwysi, mwyngloddiau plwm, Hafod, Llyfrgell Genedlaethol etc - Siopa – siop siocled, crefftau lleol - Heddychlon / diogel - Cysylltiadau â'r Gwyll/Hinterland - Amaethyddiaeth – diddordeb cynyddol gan bobl mewn ymweld â ffermydd i weld o le daw bwyd, wyna a ffermio defaid. - Llety sydd ar gael – hunan-arlywo / gwersylloedd / etc. - Iaith – naws o le	- Dim digon mentrus - Ofni gwerthu'n hunain – mae gennym ddigonedd o ddoniau lleol - Diffyg brand clir - Brand Ceredigion – diffyg ymwybyddiaeth o beth yw a lle mae Ceredigion - Dim brand unedig i fusnesau lleol ei ddefnyddio - Diffyg marchnata - Diffyg cydweithredu o fewn yr ardal - Plwyfoldeb rhang gogledd a de yr ardal - Hygyrchedd - Diffyg trafnidiaeth gyhoeddus rhwng mannau o ddiddordeb (yn enwedig ym Mhontarfynach) - Diffyg gwybodaeth ac arwyddion - Dim cysylltiadau rhwng atyniadau - Ddim yn cael ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru fel ardal benodol - Mannau o annibendod - Diffyg ymwneud â thrigolion lleol: asesau sy'n cael eu tanbriso - Amrywiaeth yw'r ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus - Llety – prinder gwely a brecwast, glampio hostelau a gwestyau o safon - Mynediad at y tirwedd o ran llwybrau etc - Dim mynediad i ganŵs ar afonydd

Cyfleoedd	Bygythiadau
• Pobl yn dod gyda disgwyliadau isel • Mynyddoedd • "Coedwig glaw Geltaidd" • Parc Naturele • Brand y Gwyll/Hinterland • Hanes – George Borrow / Thomas Johnes / Twm Sion Cati / Owain Glyndwr, • Manteisio i'r eithaf ar y golygfeydd panoramig • Cynyddu arosiadau yn yr ardal o fannau o fewn y Deyrnas Unedig • Cysylltu canolbwyntiau allweddol yn yr ardal â llwybr • Dod yn fwy creadigol mewn cynigion • Creu balchder mewn pentrefi • Darparu raciau i feiciau ar drenau • Awyr dywyll – Cwm Elan • Datblygu bwyd a diod wedi eu brandio • Cynnig y lleoedd gorau am fwyta allan yng Nghymru – awyr agored/ golygfeydd gwych • Stondinau marchnad gyda chrefftau lleol • Datblygu mwy o drafnidiaeth gyhoeddus / teithiau bws • Llety – hostel ieuenctid i bacpacwyr/beicwyr • Mwy o doiledau cyhoeddus • Palmant ym Mhontarfynach • Marchnata • Trefnu digwyddiadau	• "Ni ein hunain" • Y diffiyyg seilwaith yn gwaethygu, ymdrin â thraffig • Y boblogaeth yn heneiddio a phobl ifanc yn symud o'r ardal yn lle cychwyn busnesau • Ardaloedd eraill wedi symud ymlaen, ond rydym ni wedi symud yn ôl • Cyllid Llywodraeth Cymru yn mynd at brosiectau twristiaeth ar raddfa fawr ee Cwpan Ryder • Pobl yn mynd i siopau pan fo'r tywydd yn ddrwg yn lle ymweld â lleoedd awyr agored • Brexit – colli cyllid Ewropeaidd • Eryri / Sir Benfro / Bannau Brycheiniog • Datblygu ffermydd gwynt mewn mannau anghywir

Fe wnaeth y rhai a oedd yn bresennol gymryd rhan hefyd mewn trafodaethau thematig ynghylch themâu allweddol twristiaeth awyr agored, diwylliant a threftadaeth, natur a thrafnidiaeth a seilwaith. Defnyddiwyd canfyddiadau o'r sesiynau hyn fel sail ar gyfer trafodaethau yng Ngweithdy 2.

3.2 Gweithdy 2

Cynhaliwyd yr ail weithdy yn y Talbot yn Nhregaron a rhoddodd hyn gyfle i atgoffa'n hunain o safbwyntiau'r gymuned o'r gweithdy cyntaf, trafod y weledigaeth gyffredinol ar gyfer ardal yr Ucheldir a ffurfio syniadau cychwynnol am ffyrdd o ddatblygu'r cynnig i ymwelwyr. Thema'r gweithdy hwn oedd diwylliant a threftadaeth ac roedd yn cynnwys cyflwyniad treiddgar gan yr Athro David Austin am y cyfleoedd datbygu o gwmas Ystrad Fflur. Roedd presenoldeb da o 28 o aelodau o'r gymuned yn y gweithdy.

Rhan allweddol o Weithdy 2 oedd ymarferiad i greu brîff dylunio ar gyfer yr Ucheldir, gyda'r syniad y dylai'r cyfranogwyr feddwl am y gwerthoedd a'r negeseuon sy'n ffurfio pwyntiau gwerthu unigryw (USPs) yr ardal. Gwnaed hyn mewn dull rhyngweithiol, gyda grwpiau ar wahân yn creu "bwrdd agweddau" o gasgliad o luniau a geiriau allweddol i ddisgrifio'r hyn sydd gan ardal yr Ucheldir i'w gynnig i ymwelwyr. Mae canlyniadau'r ymarferiad hwn i'w weld yn Atodiad 2, er y dangosir enghraifft isod:



Sgwâr Tregaron



Roedd y byrddau agweddau yn canolbwyntio'n gryf ar heddwch a thawelwch, natur a threftadaeth, gyda thirweddau gwyrdd a chysylltiadau ag amaethyddiaeth yn cael sylw amlwg.

O'r casgliadau hyn o luniau a negeseuon, gofynnwyd i gyfranogwyr y gweithdy gyfansoddi gweledigaeth ar gyfer yr ardal, ac roedd canlyniadau'n canoli ar y tirwedd a'r golygfeydd dihalog sy'n darparu noddfa i fywyd gwylt ac i bobl. Roedd diwylliant a threftadaeth yr ardal yn cael eu gweld fel rhywbeth allweddol i'r hyn a fydd yn denu ymwelwyr ac roedd hyn yn cynnwys y cynnig o ran bwyd a diod. Thema arall oedd y cynnig o gweithgareddau hamdden awyr agored (ee cerdded, marchogaeth, beicio a beicio mynydd).

Y weledigaeth gyffredinol y daethpwyd ati oedd:

"Gweledigaeth y gymuned ar gyfer ardal yr Ucheldir yw canolbwyntio ar y tirwedd naturiol dihalog i ddenu ymwelwyr i'r ardal, gan ddefnyddio'r gweithgareddau awyr agored a'r safleoedd treftadaeth."



Abaty Ystrad Fflur

Cadarnhawyd y weledigaeth hon gan amrywiaeth helaeth o syniadau am brosiectau posibl, gyda llawer ohonynt yn ymwneud â thynnu sylw manylach at yr asedau naturiol a'u cysylltu i ffurfio cynnig rhwydweithiol ar gyfer yr ardal.

Arweiniodd hyn at ddadansoddiad SWOT o'r ardal, gan ganolbwyntio ar themâu allweddol, fel a ganlyn:

Tabl 3 Dadansoddiad SWOT ar gyfer Gweithdy 2

Cryfderau	Gwendidau
• Diffeithdir • Hygyrchedd • Safleoedd diwylliant/treftadaeth – Rheilffordd Rheidol, Abaty Ystrad Fflur, Stad yr Hafod, treftadaeth mwyngloddio, olwyn y mwyngloddwyr ym Mhontrhydygroes. • Twristiaeth natur/amgylcheddol - Pumlumon, cerdded, gwarchodfeydd natur, gwylio adar • Gweithgareddau awyr agored – Nant yr Arian, ffyrdd da ar gyfer beicio, llwybrau agored, ralio.	• Diffyg seilwaith ee parcio, toiledau • Diffyg hyrwyddo • Cynnig cyfyngedig o ran bwyd a diod • Cyfyngedig yw'r llwybrau wedi'u harwyddo i gerddwyr • Diffyg cysylltiadau rhwng atyniadau • Cynnig cyfyngedig o ran llety neu letygarwch • Diffyg hunaniaeth / Dim USP • Diffyg canolbwynt a phwyntiau mynediad • Diffyg cydweithio yn yr ardal • Dim digon mentrus • Dim siopau atgyweirio neu rentu beiciau • Cyfleusterau cyfyngedig yn Nant yr Arian
Cyfleoedd	Bygythiadau
• Apelio at y teithiwr annibynnol • Datblygu'r cynnig bwyd a diod • Cysylltu'r safleoedd presennol i greu cynnig cyffredinol • Cysylltiadau â brand Mynyddoedd Cambria • Datblygu cynnig mwy creadigol • Marchnata a brandio • Y cynnig o ran llety	• Cyllid • Diwylliant lleol ac agwedd at dwristiaeth • Diffyg cydweithio • Difrod i ecosystemau gan ymwelwyr • Cyrchfannau wedi eu datblygu'n fwy ee Coed y Brenin, Antur Stiniog a Parc Beiciau Cymru • Diffyg seilwaith • Brexit

3.3 Gweithdy 3

Cynhaliwyd y trydydd gweithdy yng nghanolfan ymwelwyr Nant yr Arian, gyda chyfle i drafod blaenoriaethau a phrosiectau i'w cyflwyno o fewn strategaeth gyd-gysylltiedig ar gyfer yr



ardal. Thema'r gweithdy oedd gweithgareddau awyr agored gyda chyflwyniad ynghylch y cyfleoedd i ddatblygu'r cynnig gweithgaredd awyr agored yn ardal Nant y Moch, trwy ail-ddatblygu hen ganolfan gweithgareddau awyr agored Maesnant a'r seilwaith cysylltiedig. Roedd presenoldeb da yn y gweithdy hwn hefyd, gyda 25 wedi dod yno.

Cychwynnodd y sesiwn gyda myfyrdod ar yr hyn sydd gan yr ardal i'w gynnig a mireinio'r weledigaeth ar gyfer yr ardal. Rhannwyd

hyn yn bum thema a ddaeth o Weithdy 2;

- A. Gweithgareddau
- B. Tirwedd
- C. Diwylliannol
- D. Seilwaith
- E. Treftadaeth

Cyflwynwyd syniadau ar gyfer "prosiectau" gan ddefnyddio'r cynnig presennol, gyda rhai ohonynt wedi cael eu crybwyll ynghynt. Roedd y rhain yn cynnwys:

A. Gweithgareddau:

- Ymchwilio i'r posibilrwydd o greu canolfan antur ym Maesnant a datblygu cydweithrediad gyda Nant yr Arian;
- Datblygu cyfleoeddau ychwanegol i feicwyr mynydd i'w hannog i aros am fwy nag un diwrnod;
- Trefnu bod beiciau trydan ar gael i ymestyn yr ystod o ymwelwyr llai heini gyda chyn lleied â phosibl o effaith ar yr amgylchedd;
- Defnyddio mapiau Sustrans i gynyddu'r cyfle i feicio ar neu oddiar y ffordd;
- Datblygu grŵp o ffermwyr sy'n awyddus i arallgyfeirio: grŵp tebyg i Agrisgop;
- Cael mwy o leoedd gwely a brecwast a meysydd gwersylla ar y llwybrau beicio;
- Mwy o leoedd parcio, creu llwybrau cylchdaith o leoedd adnabyddus, hyrwyddo llwybrau, gwybodaeth ar llwybrau;
- Marchnata a cynnal llwybrau ceffylau (o dan arweiniad y Cyngor Sir); and,
- Defnyddio Blwyddyn y Chwedlau i greu rhai teithiau cerdded thematig.


B. Tirwedd / bywyd gwyllt:

- Byddai mwy o ddehongli ynghylch beth y gall ymwelwyr ddisgwyl ei weld yn fuddiol o safbwynt taflenni disgrifiadol, apps bywyd gwyllt, a theithiau tywys neu hunan-dywys a llwybrau;

- Datblygu taith adar ysglyfaethus i weld adar fel y barcod coch, hebog tramor, eryr aur, gwalch y pysgod a bwncathod.


C. Diwylliannol:

- Defnyddio cyffro'r Gwyl/Hinterland i drefnu teithiau;
- Trefnu digwyddiadau diwylliannol (gwyliau, cyngherddau).



D. Seilwaith:

- Gwella arwyddion;
- Sicrhau bod map o'r ardal a'r teithiau cerdded ar gael mewn siopau lleol;
- Creu gwell cysylltiadau rhwng y safleoedd presennol (diwylliannol, hanesyddol, diwydiannol, natur, tirwedd);
- Cynnig llety fforddiadwy;
- Creu digwyddiadau i hyrwyddo'r ardal a rhoi gwybodaeth i ymwelwyr: Cyfnewid gyda phobl sy'n rhedeg llety er mwyn iddyn nhw hyrwyddo'r atyniadau o'u cwrmpas;
- Gweithio'n well gyda phobl leol;
- Buddsoddi mewn trafndiaeth boed yn bws arferol, bws cymunedol a/neu rhannu ceir, ceir trydan,
- Gosod arwyddfwrdd gyda mapiau o'r hyn sydd ar gael yn y mewndir mewn pentrefi ar yr arfordir.



E. Treftadaeth:

- Defnyddio gwybodaeth a sgiliau pobl leol;
- Defnyddio treftadaeth Stad yr Hafod ac Ystrad Fflur fel bachyn i ddenu ymwelwyr;
- Cynyddu ymwybyddiaeth fel blaenoriaeth.

Rhoddwyd cyfle i bob grŵp roi eu barn ar y ffordd orau o hyrwyddo'r ardal. Y prif bwynt a nodwyd oedd yr angen i ddefnyddio pob sianel o ddosbarthu sydd ar gael yn ogystal â rhai newydd, gan gynnwys:

- Cyngor Sir Ceredigion
- Menter Mynyddoedd Cambria
- Darganfod Ceredigion
- Llysgenhadon fel yr Aelod Seneddol (Mark Williams ar y pryd, bellach Ben Lake)
- Gweithio gyda phobl leol a defnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau

Awgrymwyd y gellid sefydlu menter gymdeithasol fel cyfrwng i reoli'r agweddau marchnata, gan fod terfynau i faint y gall busnesau bach ei wario ar hyrwyddo'r Ucheldir.

Er enghraifft derbyniodd Cwm Elan gerllaw £1.7M o Gronfa Dreftadaeth y Loteri i “gynyddu twristiaeth a hybu swyddi trwy weithgaredd cadwraeth ac adnewyddu wedi’i gynllunio’n ofalus.”³⁴ Mae posibilrwydd y gallai cyllid tebyg fod ar gael i hyrwyddo ardal yr Ucheldir.

³⁴ <https://www.hlf.org.uk/about-us/media-centre/press-releases/%C2%A317million-national-lottery-win-elan-valley>

Cydnabuwyd fod ar yr Ucheldir angen mwy o bresenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol; i hyrwyddo digwyddiadau a gweithgareddau tymhorol. Byddai hyn yn gofyn am hyfforddi rhywun i allu cynnal presenoldeb cyson.


Cytunwyd mai brand Mynyddoedd Cambria fyddai fwyaf addas fel brand cyffredinol gan ei fod eisoes yn enw cydnabyddedig. Felly byddai'n dda cael arwyddion brown ar bwyntiau strategol i ddangos bod ymwelwyr yn cyrraedd Mynyddoedd Cambria.

Fe wnaeth John Wells gyflwyno ei weledigaeth ar gyfer datblygu Parc Pumlumon; canolfan amlweithgareddau ar dri safle yn cychwyn gyda'r hen ganolfan gweithgareddau awyr agored ym Maesnant (sy'n eiddo i Pentir Pumlumon). Awgrymwyd hyn fel modd o ategu'r hyn a gynigir yn Nant yr Arian, gyda gwahanol weithgareddau fel llwybrau lawr rhiw, canolfan chwaraeon dŵr, a gweithgareddau coetir.



Llwybr Beiciau Mynydd yn Nant yr Arian

Figur 3 Map Parc Pumlumon



Gellid defnyddio canolfan o'r fath gan ysgolion yn ystod amser tymor ac fel cyrchfan clwb gwyliau a byddai'n creu cyflogaeth a hyfforddiant ar faterion fel iechyd a diogelwch a chynnal a chadw. Yn ogystal, byddai rhedeg canolfan yn creu nifer o swyddi gwledig. Byddai'r datblygiad yn cael ei roi ar waith mewn camau a gellid ei adeiladu mewn dull cydnaws â'r amgylchedd.

Ymatebodd y grŵp yn gadarnhaol i'r syniad, er bod rhai pryderon ynghylch materion yn ymwneud â mynediad ac felly byddai cysylltiadau trafndiaeth yn hanfodol wrth ddenu pobl sy'n treulio gwyliau ar yr arfordir.

Anabuwyd yr angen am ddull mwy unedig o hyrwyddo'r ardal a'r gweithgareddau a ddarperir, a thynnwyd sylw at ogledd Cymru³⁵ a Merthyr Tudful³⁶ fel enghreifftiau da o'r hyn y gellid ei gyflawni (ar gyfer beicio lawr rhiw).

3.4 Crynodeb

Rhoddodd y tri gweithdy gyfle rhagorol i randdeiliaid lleol adolygu ffactorau sy'n effeithio ar dwristiaeth yn yr Ucheldir a datblygu syniadau ar gyfer ymdrin â hwy. Mae'r rhain wedi ffurfio'r sail ar gyfer y prosiectau a ddisgrifir yn Adran 4 o'r adroddiad hwn.

Tabl 4 Dadansoddiad SWOT o Ardal yr Ucheldir

Cryfderau	Gwendidau
- Tirwedd dihalog - Rhaeadrau - Harddwch dihalog – tirwedd heb ei ddarganfod a photensial heb ei wireddu yn Hafod - Golygfeydd - Coedwigaeth - Diffyg traffig / ffyrdd mawr - Pumlumon – y mynydd uchaf yn yr ardal - Tarddiad 3 afon - Awyr dywyll yn y nos - Llawer o weithgareddau awyr agored yn cael eu cynnig - Nofio yn y gwyllt, pysgota, beicio, beicio mynydd, cerdded, syrffio etc - Natur – bywyd gwyllt ee adar, bela coed / barcutiaid coch, eogiaid - Diwylliant / treftadaeth - Treftadaeth mwyngloddio, Rheilffordd Rheidol, Owain Glyndwr, Ystrad Fflur, Pontarfynach, eglwysi, mwyngloddiau plwm, Hafod, etc	- Dim digon mentrus - Ofni gwerthu'n hunain – mae gennym ddigonedd o ddoniau lleol - Diffyg brand clir - Brand Ceredigion – nid yw pobl yn gwybod beth yw na lle mae Ceredigion - Dim brand unedig i fusnesau lleol ei ddefnyddio - Diffyg marchnata unrhyw brand - Diffyg cydweithio o fewn yr ardal - Plwyfoldeb rhwng de a gogledd yr ardal - Y parth cysur 'yn rhy fach' - Hygyrchedd - Diffyg trafndiaeth gyhoeddus rhwng mannau o ddiddordeb (yn enwedig unwaith y cyrhaeddir Pontarfynach) - Diffyg gwybodaeth - Dim cysylltiadau rhwng atyniadau

³⁵ <http://www.anturstiniog.com/>

³⁶ <http://www.bikeparkwales.com/trails>

• Siopa – siop siocled, crefftau lleol • Heddychlon/diogel • Cartref ynni gwyrdd yn y Deyrnas Unedig • Y Gwyll/Hinterland • Amaethyddiaeth – diddordeb cynyddol pobl mewn ymweld â ffermydd i weld o le daw ein bwyd, wyna a ffermio defaid. • Y Llyfrgell Genedlaethol • Llety sydd ar gael – hunan-arlywo / meysydd gwersylla / etc. • Iaith – naws o le	• Tanbrisio gan bobl leol • Ddim yn cael cydnabyddiaeth gan Lywodraeth Cymru • Mannau o annibendod • Diffyg ymwneud gan drigolion lleol • Toiledau cyhoeddus • Llety – diffyg leoedd gwely a brecwast, hostelau a gwestyau o safon • Dim mynediad i ganŵs ar afonydd
Cyfleoedd	Bygythiadau
• Pobl yn dod yma gyda disgwyliadau isel • Mynyddoedd • Parc Naturele • Brand Y Gwyll/Hinterland • Hanes – George Borrow / Thomas Jones • Manteisio i'r eithaf ar y golygfeydd panoramig • Cynyddu arhosiad lleol pobl o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig • Cysylltu pwyntiau allweddol yn yr ardal â llwybr/taith • Dod yn fwy creadigol o ran cynigion • Creu balchder mewn pentrefi • Darparu raciau beiciau ar y trênn • Awyr dywyll – Cwm Elan • Datblygu bwyd a diod wedi'u brandio • Cynnig y lleoedd gorau i fwyta allan yng Nghymru – awyr agored a golygfeydd hardd • Stondinau marchnad gyda chrefftau lleol	• Ni ein hunain • Diffyg seilwaith a seilwaith sy'n gwaethygu - Os bydd twf, gormod o draffig • Poblogaeth sy'n heneiddio a phobl ifanc yn symud i ffwrdd o'r ardal yn lle cychwyn busnesau • Ardaloedd eraill wedi symud ymlaen, ond rydym ni wedi mynd yn ôl • Cyllid Llywodraeth Cymru'n mynd i brosiectau mawr twristiaeth ee Cwpan Ryder • Pobl yn mynd i siopau pan fo'r tywydd yn ddrwg yn hytrach nag ymweld â lleoedd awyr agored • Brexit – colli cyllid yr UE(?) • Eryri / Sir Benfro / Bannau Brycheiniog • Datblygu ffermydd gwynt mewn lleoedd anghywir

• Datblygu mwy o drafnidiaeth gyhoeddus / teithiau bws • Llety – hostel ieuencid i bacpacwyr/beicwyr • Mwy o doiledau cyhoeddus • Palmant ym Mhontarfynach • Marchnata • Trefnu digwyddiadau	
--	--

4 Datblygu'r Ucheldir: Prosiectau a Blaenoriaethu

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn rhoi cynllun gweithredu manwl ar gyfer datblygu twristiaeth yn ardal yr Ucheldir, sy'n deillio o'r digwyddiadau ymgynghori â chymunedau a thrafodaeth gyda rhanddeiliaid. Disgrifir hyn ar y cychwyn yn nhermau dull cyffredinol (gan gynnwys materion trawsbynciol) ac yna ar draws y tair thema wahanol a archwiliwyd fel rhan o'r prosiect; cyfleoedd diwylliannol/treftadaeth, gweithgareddau/chwaraeon a bywyd cefn gwlad/natur. Mae syniadau am brosiectau wedi cael eu nodi o dan bob thema ar gyfer eu datblygu ymhellach a'u cyflawni. Mae hyn yn arwain at y tri chynllun gweithredu ar gyfer yr ardal i gefnogi'r weledigaeth gyffredinol a ddatblygwyd yn y gweithdai.

4.1 Cynllun Cyffredinol ar gyfer yr Ucheldir

Prif nod y cynlluniau gweithredu yw cynyddu niferoedd, hyd arosiadau a gwariant ymwelwyr yn yr Ucheldir, trwy ddarparu gwelliannau i'r cynnig presennol i greu cyrchfan y gellir ei marchnata i ymwelwyr, cyrchfan sy'n amlygu'r asedau naturiol, diwylliannol a threftadaeth ac sy'n cynnig gwell mynediad i'r tirwedd ar gyfer crwydro a gweithgareddau.

Mae hyn i gefnogi'r weledigaeth:

"Gweledigaeth y gymuned ar gyfer ardal yr Ucheldir yw canolbwyntio ar y tirwedd naturiol dihalog i ddenu ymwelwyr i'r ardal, gan ddefnyddio'r gweithgareddau awyr agored a'r safleoedd treftadaeth."

Mae cyflawni hyn yn golygu cyfuno asedau allweddol yr amgylchedd naturiol, fel y diffeithdir, bywyd gwyllt, tirweddau naturiol, Pumlumon a Chors Caron â'r asedau diwylliannol, megis Pontarfynach, Stad yr Hafod, Ystrad Fflur a threftadaeth mwyngloddio'r ardal. Ategir y rhain wedyn ag asedau gweithgareddau awyr agored fel y llwybrau beic mynydd a'r llwybrau cerdded ym Mwlch Nant yr Arian a chyfleusterau eraill ar gyfer cerdded a marchogaeth. Mae angen datblygu'n helaeth y mynediad i lwybrau cerdded yn yr ardal trwy arwyddion a gwasanaethau (sef cyfleusterau gwersylla neu ddiodydd) a chreu llwybrau cerdded newydd. Mae cyfle i ddenu ymwelwyr o lwybr yr arfordir i ardaloedd mewndirol trwy lwybrau cerdded. Mae angen clir i integreiddio'r cynnig i ymwelwyr a gwella'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd i greu cyfanrwydd sy'n fwy na'r casgliad presennol o'r rhannau ohono.

Dangosodd y gweithdy ymwelwyr a'r ymchwil a oedd yn bod eisoes fod twristiaeth yn ardal yr Ucheldir yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar farchnad ac iddi wariant cymharol isel. Mae angen i'r cynnig presennol gael ei ddiweddarau i ddiwallu disgwyliadau presennol defnyddwyr o ran yr hyn a ddarperir. Nod y cynlluniau isod yw mynd i'r afael â hyn: dod ag ymwelwyr newydd i mewn ac annog mwy o wariant gan y rheini sy'n ymwelwyr rheolaidd ac yn llysgenhaddon teyrngar.

Yr agwedd olaf o ddatblygu'r farchnad, a godwyd yn y gweithdai, yw datblygu'r diwylliant menter lleol i annog buddsoddi mewn twristiaeth. Nid oes fawr o bwynt mewn datblygu galw gan ymwelwyr os oes cyflenwad annigonol o gyfleusterau i fodloni'r galw hwnnw. Bydd hyn yn gofyn am weithredu i adeiladu cynhwysedd, annog cydweithio, a dangos yr arferion gorau mewn datblygu twristiaeth o ardaloedd eraill. Gall hefyd ofyn am greu swydd refeniw i weithio gyda busnesau ac unigolion i gyflawni hyn.

Felly, awgrymwn y dylai datblygiad yn yr ardal gefnogi dau nod allweddol:

1. **Cynyddu galw:** tyfu niferoedd ymwelwyr i'r Ucheldir ymysg segmentau targed gan

adeiladu amllder ymweliadau, hyd arosiadau a gwariant cyfartalog ymysg grwpiau presennol o ymwelwyr;

2. **Adeiladu cynhwysedd** i ymateb i alw ac i ddiwallu anghenion segmentau newydd o ymwelwyr.

Archwilir y rhain ymhellach isod.

4.1.1 Cynyddu Galw

Amcanion:

- Codi ymwybyddiaeth o'r asedau twristiaeth yn yr Ucheldir;
 - o Dyfeisio hunaniaeth ac ymgyrch farchnata ar gyfer yr Ucheldir.
 - o Hyrwyddo agweddau llai adnabyddus o'r Ucheldir i grwpiau presennol o ddefnyddwyr er mwyn cynyddu amllder a gwariant.
- Adeiladu rhaglen o wyliau a digwyddiadau i'r ardal;
- Manteisio ar y cyfleoedd yn sgil brand Y Gwyll/Hinterland i ddenu ymwelwyr newydd i'r ardal.

4.1.2 Codi Ymwybyddiaeth o Asedau Twristiaeth yr Ucheldir

Datblygu ymgyrch farchnata

Roedd cytundeb helaeth yn y gweithdai fod ardal yr Ucheldir yn o gyfrinachau gorau Cymru, er y byddai ymdrin â hyn yn dipyn o her o safbwynt brandio. Mae brand presennol Mynyddoedd Cambria yn cynnwys yr ardal o fewn portffolio ehangach Darganfod Pumlumon ac mae risg mai'r cyfan y byddai datblygu brand ar wahân ar gyfer Pentir Pumlumon neu'r Ucheldir yn ei wneud fyddai arwain at ddryswch a dyblygu adnoddau. Er hynny, mae lle i godi ymwybyddiaeth o'r ucheldir a'i asedau llai adnabyddus trwy ymgyrch farchnata sy'n dynnu sylw at raddfa'r diffeithdir, gyda negeseuon fel "Ewch ar goll yng Ngheredigion" neu "Darganfod eich hun yn y diffeithdir". Gellid cefnogi hyn gydag ymgyrchoedd thematig fel:

- Ymgolli mewn adrenalín (beicio mynydd, chwaraeon dŵr etc.)
- Ymgolli mewn treftadaeth (mwyngloddio, Ystrad Fflur, Hafod, Rheilffordd Cwm Rheidol etc.)
- Ymgolli mewn natur (Cors Caron, Pumlumon, bywyd gwyllt etc.)

Gallai marchnata fod yn gymharol gost effeithlon; wedi ei dargedu ar gyfryngau cymdeithasol a thrwy ddetholiad o gylchgronau neu flogiau ar-lein.

Cam gweithredu: Ystyried datblygu ymgyrch farchnata lle ar gyfer yr Ucheldir i apelio at deithwyr annibynnol.

Llysgenhadon: Eiriolwyr enwog / brandiau

Gan fod yr ardal yn mwynhau rhai cefnogwyr teyrngar o ran ymwelwyr rheolaidd, un dewis o barhau i hyrwyddo a datblygu'r ardal fyddai trwy gynllun llysgenhadon. Gellid recriwtio llysgenhadon hefyd trwy eiriolaeth enwogion neu brandiau a allai hyrwyddo'r ardal trwy gysylltiad â diffeithdir.

Cam gweithredu: Dyfeisio cynllun llysgenhadon, gan ddenu busnesau, llysgenhadon, enwogion a brandiau sydd â chysylltiad posibl â'r ardal.

Astudiaeth Achos 1. Ymgyrch marchnata lle ar gyfer North Yorks Moors

Fe wnaeth tref Guisborough, rhwng Teesside a'r North Yorks Moors yng ngogledd Lloegr, gomisiynu ymgyrch farchnat lle i ddenu defnyddwyr newydd i'w dirwedd o ansawdd uchel. Er bod ganddi hanes hir fel cyrchfan i gerddwyr, roedd yr ardal yn dioddef o ddiffyg hunaniaeth ac ymwelwyr â phroffil oedran hŷn gyda dirywiad mewn incwm twristiaeth o ganlyniad i hynny. Heb ddatblygu brand ar wahân na mynd ar draws brandiau eraill, defnyddiodd yr ymgyrch thema'r rhostiroedd i ddenu mwy o dwristiaid adrenalin i'w gopaon a llwybrau. Ategwyd yr ymgyrch â chystadleuaeth fawr i feicwyr mynydd lawr rhiw, i ddod â phobl i'r ardal am y tro cyntaf.



Moor thrills and spills
For the moor adventurous
For those with moor get up and go
Because there's moor to life



Gwyliau a Digwyddiadau

Gall gwyliau a digwyddiadau roi'r "bachyn" i ddenu ymwelwyr i ardal am y tro cyntaf. Trefnir amrywiaeth o ddigwyddiadau yng Ngheredigion ar hyn o bryd, ond mae angen datblygu digwyddiadau mwy penodol i ddenu ymwelwyr â diddordebau arbenigol i'r Ucheldir. Gallai'r rhain gynnwys, er enghraifft:

- Taith o Fynyddoedd Cambria (beicio);
- Her Mynyddoedd Cambria (rhedeg mynydd);
- Digwyddiad bwyd i arddangos cynhyrchwyr lleol;
- Digwyddiadau dweud stori – cysylltiedig â George Borrow a Twm Sion Catï;
- Digwyddiadau cerddorol yn y safleoedd diwylliannol a threftadaeth, a
- Gŵyl film noir – cysylltiedig â'r Gwyl/Hinterland (gweler isod).

Cam gweithredu: Ystyried datblygu cyfres o ddigwyddiadau i ymestyn y tymor

twristiaeth, denu mwy o ymwelwyr a chynyddu gwariant ymwelwyr.**Astudiaeth Achos 2 Her Beicio'r Tymbl**

Daeth mynydd enwog y Tymbl rhwng Blaenafon a'r Fenni yn ne-ddwyrain Cymru i amlygrwydd wrth gael ei gynnwys yn nigwyddiadau Taith Beiciau Prydain a Velothon Cymru. Yn ogystal â denu torfeydd mawr o gyfranogwyr a gwylwyr i'r digwyddiadau hyn, mae'r her o ddringo'r mynydd eiconig yn denu llawer o feicwyr i'r ardal fel rhan o wyliau byr neu daith hirach. Mae'r safle Treftadaeth Byd gerllaw yn annog beicwyr i gyfuno taith heriol ag ymweliad at un o'r safleoedd archaeoleg diwydiannol yn yr ardal.

Y ffactor allweddol yma oedd brandio'r mynydd a datblygu her gystadleuol i feicwyr fynd i'r afael â hi drwy'r flwyddyn.



- Homepage ▶
- Visit Blaenavon ▶
- Places To Visit
- Get Active
- Food & Drink
- Events
- Places To Stay
- Explore Blaenavon Town
- Plan Your Visit
- Blaenavon Digital Passport
- Groups and Meetings
- Tackle the Tumble
- Keep in Touch
- Image Gallery

✉ Sign up to our eNewsletter

f

t

Search this site

Search



Tackle the Tumble

Could you be the next King or Queen of the Tumble?

TACKLE THE TUMBLE

The Tumble climb is one of the most notorious cycling climbs in the South Wales valleys. At 6km in length and with a 10% incline it's all about slow and steady to summit the Blorenge. The famous climb has featured in many an event over the years including the Tour of Britain and is a integral part of Velothon Wales each year.

Tackling the Tumble is a must on any cyclists list. Set off on a personal challenge and explore the area on two wheels and prepare yourself for a climb of a lifetime. And as it's the Year of Adventure here in Wales why not take part in the Tumble Challenge, record your attempts at the Tumble on [Strava](#) and you could be the new King or Queen of the mountain.

To help you get your trip planned we've put together the perfect cycling weekend away for you, so head out and take part in the Tumble Challenge.


- **Day 1** – Arrive in your cyclist friendly accommodation, with facilities for you and your bike. How about a carb loaded home cooked meal to prepare you for the next days cycling?
- **Day 2** – Start the day with a full welsh breakfast. Many accommodation providers also offer a packed lunch service, to take with you on the bike. Then head out to tackle the Tumble as part of your day out on the road, and why not try and get yourself on the Tumble leader board, and record your efforts on the Tumble official 100 climbs on Strava. We've pulled together just some ideas of routes of various lengths for you to explore, all of them incorporating the Tumble climb.
 - [Route 1 - Abergavenny Circular incorporating the Tumble](#) Distance – 30 miles
 - [Route 2 – Iron Mountain 70 Distance – 70 miles](#) (part of the [Abergavenny Festival of Cycling](#))
 - [Route 3 – Iron Mountain 100 Distance – 100 miles](#) (part of the [Abergavenny Festival of Cycling](#))

Y Gwyll

Mae'r gyfres deledu hon wedi hyrwyddo'r Ucheldir fel ardal o ddiffeithdir, tirwedd pryderth a chymunedau Cymraeg i gynulleidfaoedd ledled y Deyrnas Unedig, yr Undeb Ewropeaidd a Sgandinafia. Mae Cambrian Safaris yn cynnig teithiau arbennig ar gais o amgylch lleoliadau'r Gwyll i ymwelwyr, ond erys cyfle, er hynny, i yrru traffig ymwelwyr i'r ardal i gynnig profiad annibynnol o'r Gwyll, llwybr lleoliadau neu daith pecyn.

Mae llawer o enghreifftiau o leoedd eraill o gyfresi teledu yn denu ymwelwyr; dywedwyd bod y gyfres gyffrous "The Killing" yn Nenmarc wedi denu 50,000 o ymwelwyr ychwanegol o'r Deyrnas Unedig i Copenhagen yn ei blwyddyn gyntaf³⁷. Yn Lloegr, mae Broadchurch wedi cael ei defnyddio i hyrwyddo amrywiaeth o leoliadau o gwmas yr Arfordir Jwrasig trwy gysylltiadau â lleoliadau ffilmio. Mae'r deunyddiau'n cynnwys taflen taith³⁸, sy'n cynnwys dyfyniadau gan actorion blaenllaw am harddwch y lleoliadau a ddefnyddiwyd.

Gall fod potensial am ŵyl ffilmiau hefyd yn ardal yr Ucheldir, a honno'n seiliedig ar y gyfres a thema ehangach "film noir", a allai ddigwydd mewn amrywiol leoliadau eiconig yn yr ardal. Un enghraifft o weithredu fel hyn fydda'r gŵyl ffilmiau Borderlines³⁹ yn Swydd Henffordd. (Gweler yr astudiaeth achos isod).



Mae'r Gwyll/Hinterland wedi cael ei darlledu mewn nifer o wledydd Ewrop ac ar Netflix drwy'r byd.

³⁷ <https://www.theguardian.com/travel/2011/dec/16/the-killing-uk-travel-denmark>

³⁸ [https://www.visit-dorset.com/dbimsgs/Broadchurch%20Trail%202015%20version\(1\).pdf](https://www.visit-dorset.com/dbimsgs/Broadchurch%20Trail%202015%20version(1).pdf)

³⁹ <https://www.borderlinesfilmfestival.co.uk/>

Astudiaeth Achos 3 Gŵyl Ffilmiau Borderlines

Cynhelir y Borderlines Film Festival bob blwyddyn ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr, gan gyflwyno sinema arloesol a chynnwys cyn ei ryddhau mewn lleoliadau gwledig, gan gynnwys ysgolion, neuaddau pentref a theatrau bach. Mae'r digwyddiad wedi tyfu'n sylweddol dros gyfnod o 15 mlynedd, gan ddenu llawer o ymwelwyr a thrigolion i gymunedau na fyddent o bosibl yn gwybod amdanynt fel arall, gydag effaith economaidd sylweddol o ganlyniad.

BORDERLINES FILM FESTIVAL 2017

FRIDAY 24 FEBRUARY TO SUNDAY 12 MARCH

"easily rural UK's most impressive film festival" THE INDEPENDENT

Subscribe to our Newsletter | Download 2017 Festival brochure

About / Programme / Films / Events / Venues / News / Archived Festivals /

WELCOME TO THE 15TH BORDERLINES FILM FESTIVAL!

CENTRAL BOX OFFICE
01432 340555
OR BOOK ONLINE

FIND A FILM
Find films at the festival by [A-Z title](#) or by using our filters below

BY STRAND ▲
BY VENUE ▲
BY COUNTRY ▲
BY DATE ▲

4.1.3 Adeiladu Cynhwysedd: Gwella Ymwybyddiaeth o Gyfle a Photensial Twristiaeth

Roedd y dasg a nodwyd ar gyfer yr ymchwil yn pwysleisio angen i adeiladu cynhwysedd ymhlith busnesau presennol yn ardal yr Ucheldir (y rheini sy'n ymwneud â thwristiaeth ar hyn o bryd a'r rheini nad ydynt). Fe wnaeth y gweithdai hefyd dynnu sylw at ddiffyg mentergarwch ymhlith busnesau a thrigolion, gyda chanfyddiad o gyndynrwydd i werthu neges yr ardal. Yn yr adran hon rydym yn edrych ar ffyrdd o wella'r cynnig gan fusnesau perthnasol, creu rhwydwaith ar gyfer y sector, gwella seilwaith yr ardal a dod â busnesau newydd i dwristiaeth o sectorau eraill.

Amcanion:

- Rhwydweithio busnesau presennol i greu màs critigol ar gyfer y sector twristiaeth;
- Gwella dewis a safonau llety a lletygarwch i ddiwallus anghenion ymwelwyr â chwaeth;
- Datblygu seilwaith i alluogi teithio o gwmpas yr ardal yn haws;
- Datblygu buddsoddiad newydd mewn twristiaeth fel modd o arallgyfeirio ar ffermydd,

trwy adeiladu diwylliant o fentergarwch a dangos y manteision a allai ddeillio o hynny.

Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, credwn y dylai Pentir Pumlumon ystyried hefyd creu swydd refeniw ar gyfer swyddog prosiect am gyfnod o dair blynedd.

Rhwydweithio Busnesau

Mae'r gweithdai ymgynghori wedi dangos parodrwydd busnesau twristiaeth yn yr ardal i gydweithio ar ddatblygu'r ardal. Awgrymwn ffurfioli hyn trwy sefydlu gweithgor o fusnesau'r Ucheldir i gefnogi Pentir Pumlumon i gyflawni'r cynllun gweithedu hwn. Byddai'r grŵp hwn yn ffurfio'r cnewyllyn ar gyfer cyd-drafod ag entrepreneuriaid mewn sectorau eraill (yn enwedig amaethyddiaeth) i adeiladu seilwaith twristiaeth newydd.

Cam gweithredu: Cynnull grŵp o fusnesau â diddordeb i wireddu'r cynllun gweithredu hwn ac ennyn diddordeb aelodau newydd.

Gwella Dewis a Safonau Llety a Lletygarwch

Mae'r archwiliad o asedau twristiaeth yn ardal yr Ucheldir wedi dangos bod prinder llety a lletygarwch sy'n anelu at ymwelwyr iau a rhai annibynnol sy'n gwario mwy.

Gall fod lle i gyfres o weithdai hyfforddi i weithredwyr presennol, er mwyn helpu datblygu dealltwriaeth o anghenion cwsmeriaid, marchnata addas, defnydd o gyfryngau cymdeithasol, tarddu lleol a datblygu straeon cefndir diddorol i hyrwyddo'u busnes dros leoliadau eraill. Gallai'r rhain gynnwys digwyddiadau cyflwyno a chyfarfod i gynhyrchwyr bwyd lleol gyfarfod cwsmeriaid posibl.

Cam gweithredu: Ystyried cais am gymorth i ddatblygu cynnig lletygarwch mwy unigryw yn yr ardal.

Astudiaeth Achos 4 Pays Gourmand - Ffrainc

Amaethyddiaeth a thwristiaeth yw'r prif weithgareddau economaidd yn nhiriogaethau'r Pays A3V, Pays Sud a Pays Dignois yn ne Ffrainc. Mae gan bob un hunaniaeth gref o ran bwyd a choginio, ond o fewn Pays A3V, nid oedd y rhwydwaith o gynhyrchwyr bwyd yn cael ei defnyddio, na busnesau'n defnyddio cynnyrch a chyflenwyr lleol, er gwaethaf yr ansawdd a'r amrywiaeth oedd yn cael eu cynnig.

Fe wnaeth cymorth LEADER greu a marchnata'r brand 'Pays Gourmand' i gydnabod y rheini sy'n defnyddio cynnyrch lleol yn eu tai bwyta. Nod y brand oedd helpu tai bwyta lleol i wella ansawdd eu gwasanaethau, datblygu a hyrwyddo diwylliant bwyd lleol a chefnogi partneriaethau rhwng cynhyrchwyr a pherchnogion tai bwyta i ddatblygu cyfleoedd newydd mewn amaethyddiaeth a chrefftau.

Fe wnaeth y brandio wella delwedd y bwyd lleol trwy sicrhau cynhyrchion o ansawdd uchel a oedd yn diwallu disgwyliadau uwch gan gwsmeriaid.

"Nid oes ar bobl sy'n dod yma ar wyliau eisiau'r un peth ag y gallent ei fwyta yn unrhyw le arall. Felly rydym yn ceisio cynnig cynhyrchion lleol iddynt ... wedi eu haddasu yn ôl y tymor."

- Bruno Roussey tŷ bwyta 'Le Mot de la Faim', Pays Gourmand



Roedd y prosiect mor llwyddiannus fel bod prosiectau brandio cydweithredu wedi cael eu cyflwyno'n raddol i diriogaethau cyfagos Pays Sud (2013-14) a Pays Dignois (2014-15). Mae cydweithio ar draws tiriogaethau hefyd wedi datblygu, gan gryfhau a chyfoethogi'r brand ymhellach. Yn gynnar yn 2016, cydnabuwyd 59 o dai bwyta ar draws y tri thiriogaeth â'r label 'Pays Gourmand'. Mae'r brand yn dal i dyfu ac mae wedi ehangu i gynnwys ffreuturau ysgolion a sefydliadau eraill.

Ffynhonnell cyllid:

Echel 4, LEADER, EAFRD 69,754 Ewro Cyfanswm cyllideb 126,000 Ewro

https://enrd.ec.europa.eu/projects-practice/label-%E2%80%98pays-gourmand%E2%80%99-%E2%80%93-promoting-french-local-restaurants_en

Datblygu Seilwaith i allu teithio o gwmpas yn haws

Yn ardal yr Ucheldir, mae angen datblygu gwybodaeth, arwyddion a dehongli. Mae angen datblygu gwybodaeth yn unol â'r ymgyrch marchnata lle i dynnu sylw at yr hyn sydd ar gael yn yr ardal; cyn i bobl gyrraedd yn ogystal ag yn ystod eu harhosiad.

Mae'n hanfodol gwella arwyddion a dehongli fel bod ymwelwyr yn ymwybodol o'r cynnig presennol. Mae angen i atyniadau allweddol gael eu harwyddo'n glir o'r prif ffyrdd yn yr ardal (ee i fynd at Abaty Ystrad Fflur o Dregaron), ynghyd ag arwyddo o un atyniad i'r llall. Ar hyn o bryd, prif fod llwybrau i gopa Pumlumon wedi eu marcio o gwbl ac mae potensial sylweddol i agor llwybrau cerdded i'r copa o'r A44, er enghraifft. Mae

hefyd yr angen i fyrddau dehongli wneud atyniadau mor hygyrch a dealladwy ag sy'n bosibl i ymwelwyr. Mae hyn yn cynnwys gwell arwyddion a dehongli mewn atyniadau twristaidd penodol (ee Stad yr Hafod, rhaeadr Pontarfynach, cronfa ddŵr Nant y Moch, gweithiau mwyngloddio Frongoch) a gellid defnyddio hyn i draws-hyrrwyddo atyniadau allweddol.

Cam gweithredu: Cynnal archwiliad arwyddion a dehongli cyrchfannau allweddol er mwyn darganfod lle mae angen gwella.

Llwybrau thematig i gysylltu atyniadau

Un thema gref a amlinellwyd yn y gweithdai ymgynghori â rhanddeiliaid oedd yr angen i ddatblygu llwybrau thematig i gysylltu ac integreiddio'r atyniadau yn yr ardal. Byddai'r rhain yn gwella'r cynnig presennol i ymwelwyr a gallent gynnwys twristiaeth crefyddol, safleoedd diwylliannol, tirwedd naturiol, treftadaeth mwyngloddio, lleoliadau Y Gwyll a straeon lleol i greu cyfres o deithiau ar hyd a lled ardal yr Ucheldir. Gall creu llwybrau o'r fath annog teithiau ar draws ardal y diffeithdir a lleihau rhwystrau i grwydro a darganfod. Gellid dyfeisio llwybrau mewn partneriaeth â Croeso Cymru ac adeiladu ar ddatblygiad yr app Blwyddyn y Chwedlau sydd eisoes wrthi'n cael ei ddatblygu.

Cam gweithredu: Datblygu cynllun manwl sy'n ymdrin â'r cyfle i ddatblygu llwybrau thematig i gysylltu atyniadau allweddol yn ardal yr Ucheldir.

Astudiaeth Achos 5 The Wild Atlantic Way

Cyfres o ffyrdd yw'r Wild Atlantic Way sy'n mynd ar hyd holl arfordir gorllewinol Iwerddon. Ei nod yw cwmpasu amryw o ardaloedd anghysbell a dod â gwybodaeth ar olygfeydd, treftadaeth, llety a bwyd at ei gilydd mewn un brand unigol. Wrth wneud hyn, mae'n cynnig ffordd hawdd o gysylltu â'r tirwedd a threfnu taith drwy ardaloedd o ddiffeithdir.

WILD ATLANTIC WAY
THE COASTAL ROUTE
STAGES
TRAVEL
GET INSPIRED
THE BOOK

We have compiled some of the most relevant information for your travels in Ireland and your road trip along the Wild Atlantic Way:



Touring Ireland's Wild Atlantic Way

Here you can find all the information about the route, the sights and the activities you can engage in, as well as information about the several stages of the Wild Atlantic Way.

[Wild Atlantic Way travel information](#)

Accommodation



B&Bs along the Wild Atlantic Way

[The best B&Bs for the best prices](#)



Holiday homes Wild Atlantic Way

[Holiday Homes in beautiful landscapes](#)



Hotels along the Wild Atlantic Way

<http://www.thewildatlanticway.com/>

Cysylltiadau a thrafnidiaeth: Bysiau gwennol, beiciau trydan a cheir 'Twizzies'

Thema ganolog o'r gweithdai ymgynghori â rhanddeiliaid oedd yr angen am fwy o gysylltiadau yn ardal yr Ucheldir, yn rhai ffisegol a digidol. Cydnabwyd bod ar lawer o ymwelwyr eisiau gadael eu ceir ar ôl wrth grwydro'r ardal, ond mae graddfa'r tirwedd yn rhy fawr i alluogi cerdded. Dylid archwilio atebion trafndiaeth ynni adnewyddadwy i gynnig y rhyddid i ymwelwyr archwilio gwahanol leoliadau. Gellid lleoli canolfannau mewn cyrchfannau allweddol fel Tregaron a Phontarfynach i godi a gollwng beiciau/cerbydau llog neu i gysylltu â thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r posibilïadau o ran cefnogi teithio gwyrdd o amgylch yr ardal yn cynnwys beiciau trydan⁴⁰, ceir Twizy⁴¹ a bysiau gwennol; a defnyddir y

⁴⁰ Gweler er enghraifft: <http://www.ebikehirenorthwales.co.uk/>

⁴¹ Gweler er enghraifft: <http://www.ecotravelnetwork.co.uk/>

rhain i gyd mewn lleoliadau eraill i hyrwyddo crwydro a darganfod. Gellid contractio Trafnidiaeth Ystwyth i ymestyn eu cynnig i ddarparu gwasanaeth gwennol peilot rhwng atyniadau ar frig y tymor twristiaeth.⁴²

Cam gweithredu: Ystyried treialu cynllun ymwelwyr Trafnidiaeth Ystwyth a chynllunio ar gyfer cynllun rhentu beicau trydan/ceir Twizy yn yr ardal

Astudiaeth Achos 6 Trafnidiaeth Gymunedol yn Weardale

Yn 2011, fe wnaeth Cyngor Sir Durham, mewn partneriaeth â busnesau twristiaeth lleol, dreialu gwasanaeth bws i gysylltu gorsaf drenau stêm treftadaeth Stanhope ag atyniadau treftadaeth lleol yn yr ardal. Cynigiwyd y gwasanaeth yn ystod penwythnosau a gwyliau banc rhwng mis Awst a mis Hydref ac roedd y bws yn cysylltu Stanhope ag amgueddfa Weardale, amgueddfa fwyngloddio plwm Killhope, Rheilffordd Stêm Alston a mwyngloddiau Nenthead.

O ganlyniad i'r prosiect, cefnogwyd amryw o gweithgareddau twristiaidd newydd a llwyddwyd i gynyddu niferoedd yn y rhai a oedd yn bod eisoes. Ar ddiwedd y cyfnod, barnwyd bod y peilot yn llwyddiant ac mae'r gwasanaeth wedi bod yn rhedeg bob haf ers hynny, ar Suliau a gwyliau banc o 1^{af} Mai hyd



1^{af} Hydref. Caiff y gwasanaeth ei redeg gan wirfoddolwyr sydd wedi cael hyfforddiant addas ac mae'r bws yn eiddo i Weardale Community Transport, sydd hefyd yn darparu cludiant i'w aelodau ar gais dros y ffôn.

Astudiaeth Achos 7 Drive Less, See More: Ardal y Llynnoedd



gorsafoedd rheilffordd; mae raciau to ar y cerbydau ac nid yw aelodau ond y talu am yr hyn a ddefnyddiant ac am gyn lleied â 30 munud.

Mae ganddynt hefyd 10 Renault Twizy ar gael trwy ddarparwyr llety ac atyniadau o gwmpas Ardal y Llynnoedd, y gellir eu llogi pan fo ar ymwelwyr eu hangen.

<http://www.co-wheels.org.uk>

Slogan y fenter deithio Go Lakes yw "Drive Less, See More". Cafodd ei lansio yn 2012 yn Cumbria, mewn ymgais i leihau'r nifer o ymwelwyr sy'n defnyddio eu ceir yn ogystal â'u galluogi i fynd yn ddyfnach i Ardal y Llynnoedd os nad oedd ganddynt gerbyd. Mae'r prosiect yn cynnwys gwasanaeth bws estynedig sy'n cludo beiciau yn ogystal â'r cyfle i rentu beiciau trydan. Mae hefyd yn cydweithio gyda Co-wheels i gynnig ceir carbon isel ar log mewn

⁴² Datblygwyd cynllun trafndiaeth peilot yn 2014-15 gan y Cyngor rhwng Cors Caron a phentrefi yn ardal Tregaron.

Adeiladu Diwylliant o Fentro ac Ymwybyddiaeth o Gyfleoedd Twristiaeth

Er bod twristiaeth wedi cael ei weld fel llwybr at adeiladu hyfywedd ffermydd bychain ers llawer blwyddyn, gall fod cyfleoedd y tu hwn i'r rheini a ystyrir ar hyn o bryd gan drigolion a busnesau yn ardal yr Ucheldir. Er mwyn adeiladu ymwybyddiaeth o botensial economaidd twristiaeth yn yr ardal, all fod angen mwy o waith cyd-drafod i bwysleisio hyn. Mae angen cymryd camau i ddangos yr enillion posibl i fusnesau presennol wrth gofleidio dull mwy creadigol o gymhwyso eu hasedau ar gyfer yr economi dwristaidd. Gallai hyn fod yn ffurf gweithio gyda gwasanaethau cymorth ffermio presennol, megis Cyswllt Ffermio neu fforymau trafod fel y grwpiau Agrigop⁴³, i drafod dulliau o ddatblygu busnesau twristiaeth fferm.

Gallai dulliau gweithredu o'r fath gynnwys lluniau o enghreifftiau fel:

Pecynnau gwyliau fferm: I gynnwys llety, cyrsiau profiad ar ffermydd ac ymweliadau gweithgareddau ag atyniadau cyfagos:

- Datblygu safleoedd 'glampio';
- Creu seilwaith i gefnogi atyniadau pob-tywydd;
- Cysoni busnesau bwyd a diod ag anghenion ymwelwyr.

Un dull fyddai cynnal "diwrnod buddsoddi mewnol" yn yr ardal, gan roi cyfle i sefydliadau o'r tu allan ddeall potensial gweithio gyda busnesau lleol ac i fusnesau lleol brofi enghreifftiau o sut mae cyfleusterau wedi cael eu datblygu mewn ardaloedd eraill. Gallai'r siaradwyr gynnwys asiantaethau 'glampio', cynrychiolwyr cadwynau gwesty bwtîc a busnesau bwyd cain.

Cam gweithredu: Gweithio gyda Cyswllt Ffermio i adnabod ffyrdd o ddangos i ffermwyr a busnesau gwledig eraill y manteision o ymwneud â'r economi dwristiaeth.

⁴³ Gweler er enghraifft: <https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/new-tourism-venture-north-wales>

Astudiaeth Achos 8 Humble by Nature

Pan wnaeth Kate Humble a Ludo Graham brynu fferm fach yn Sir Fynwy, aethant ati i'w datblygu fel enghraifft i ddangos arferion ffermio cynaliadwy a chreu bwyd a diod lleol. Maent bellach yn rhedeg amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys sgiliau rhedeg tyddyn, cloddiau a waliau cerrig sych, 'aquaponics' a choginio, ac mae'r holl weithgareddau hyn yn cyd-fynd â gwaith dyddiol y fferm weithredol. Mae llety twristiaid wedi cael ei ddatblygu mewn bythynnog, cwt bugail ac ysgubor wedi ei throsi a gall gwesteion ddewis (am dâl) gweithio gyda rheolwr y fferm ar ei waith dyddiol o fwydo'r defaid a hwsmona cyffredinol anifeiliaid. Er bod amlygrwydd Kate ar y teledu yn amlwg yn fanteisiol wrth ddenu cleientiaid, mae'r cynnydd yn dangos awydd ymysg ymwelwyr am chwarae rhan weithredol yng nghefn gwlad.



The screenshot shows the website for 'LOVE HUMBLE BY NATURE LAND'. The header features a circular logo with the text 'LOVE HUMBLE BY NATURE LAND' and a banner for 'RURAL SKILLS AND SMALLHOLDING SCHOOL INSPIRATIONAL FOOD & COOKERY UNIQUE POP UP EVENTS'. The navigation bar includes links: HOME, ABOUT US, COURSES, CALENDAR, EAT ON THE FARM, STAY ON THE FARM, YOUR EVENTS, ONLINE SHOP, and CONTACT US.

The main content area is divided into several sections:

- SMALLHOLDING & ANIMAL HUSBANDRY COURSES**
 - Smallholding for Beginners
 - Lambing 24: Hands On in the Lambing Shed
 - A Day in the Lambing Shed
 - Sheep for Beginners
 - Learn How to Shear Sheep
 - Sustainable Bee-Keeping
 - Pigs for Beginners
 - Rearing Pigs for Meat
 - Caring for Ex-Batt Hens
 - Raising Chickens for Meat
- COURSES FOR CHILDREN**
 - Bush Craft: Fire Making
 - Bush Craft: Den Building
 - Bushcraft: Family Day
- FOOD & COOKERY COURSES**
 - Home Butchery Skills
 - Foraging: A Wild Taste of the Hedgerow
 - Pork Butchery, Curing & Sausage Making
 - Home Charcutier: Inspired by Southern Europe
 - Home Charcutier: Inspired by Britain
 - Bread Making with Hobbs House Bakery
 - Cooking on a Wood-Fired Oven
 - Curing for Christmas: Ham & Bacon
 - Christmas Chocolate Making
- AQUAPONICS**
 - Aquaponics: One-day Introduction
 - Aquaponics: Five-day Intensive
 - Practical Aquaponics: A Day in the Greenhouse
- CRAFTS & SKILLS COURSES**
 - Spinning & Plant Dying Yarn
 - Willow Garden Structures: Plant Supports & Frames
 - Photography: Capturing the Natural World
 - Summer Flowers: Hand-tied Bouquet & Vase Arrangement
- RURAL SKILLS COURSES**
 - Hedge-Laying
 - Learn to Design & Plant an Edible Garden
 - Build a Wood-Fired Clay Pizza Oven
 - Dry Stone Walling: 2 day Fundamentals
 - Dry Stone Walling: 1 day Introduction
 - Cider Making
 - Make a Green Wood Chair
 - Stock Fencing

On the right side, there is a featured section for the 'NEXT COURSE':

NEXT COURSE



BREAD MAKING WITH HOBBS HOUSE BAKERY

Thursday 11th May 2017

FIND OUT MORE

Astudiaeth Achos 9 Cosy Under Canvas – 'Glampio' yn Llannewydd

Yn 2008, fe wnaeth y teulu Price sefydlu busnes lletya ymwelwyr yn y coetir ger Llannewydd (Newchurch) ger y Gelli Gandryll, gan gychwyn gyda dwy tipi ar eu pedair erw o dir. Roedd y tipis mor boblogaidd fel iddynt allu ychwanegu tair arall gyda chymorth gan grant RDP, ynghyd â chyfleusterau gan gynnwys cawodydd wedi eu gwresogi â tân coed, tybiau twym a llwybr natur o amgylch y safle.

Fe wnaeth y buddsoddiad alluogi'r teulu i gynnal hyfywedd eu tyddyn: "heb y cyllid ni fyddem wedi gallu cynnig gwell profiad i'n gwsteion mor gyflym. Mae'r cyfleusterau cawodydd yn y coed yn gynnig eco hyfryd ac rydym wedi gallu gwneud gwahaniaeth anferthol i'n gwsteion."

Mae'r llwybr natur hefyd wedi gwneud gwahaniaeth i deuluoedd sy'n dod ar wyl yno ac mae mwy o westeion yn treulio amser hirach ar y safle wrth i'w plant gael eu diddanu a'u haddysgu trwy'r byrddau dehongli gan ddarparu gwybodaeth ar blanhigion ac anifeiliaid yn yr ardal.



<https://www.cosyundercanvas.co.uk/>

Gwelliannau i seilwaith Pontarfynach

Datblygu Pontarfynach i ymwelwyr a phobl leol. Byddai'r datblygiad yn canolbwyntio ar ddiogelwch ac apêl yr ardal; byddai hyn yn cynnwys:

- Cael gwared ar y ffens gadwyn;
- Sefydlu palmant trwy Bontarfynach i ganiatáu mynediad diogel i gerddwyr i'r holl bentref;
- Agor y pwyntiau golygfeydd o Westy'r Hafod i fanteisio i'r eithaf ar y tirlun naturiol;
- Ystyried datblygu canllawiau dylunio i wella apêl gweledol y gyrchfan a chynnal thema gyson drwy'r holl bentref;
- Gwellu arwyddion a dehongli i dynnu sylw at yr amrywiaeth o atyniadau, lletygarwch a gwasanaethau cyhoeddus sydd ar gael ym Mhontarfynach;
- Cynyddu'r cynnig i ymwelwyr o ran siopau/orielau sy'n gwerthu crefftau lleol.

Bydd datblygu'r seilwaith yn anelu at ddenu mwy o ymwelwyr i'r ardal, a nod pwysig arall fydd cynyddu gwariant yr ymwelwyr a'u bodlonrwydd wrth ymweld â'r ardal fel y byddant yn dychwelyd ac yn dweud wrth bobl am eu profiad. Mae hyn yn gofyn am gydweithredu rhwng y busnesau yn yr ardal i weithio ar y cyd i gyflawni'r newid sydd ei angen i wella gwariant i'r holl fusnesau yn yr ardal.

Cam gweithredu. Sefydlu gweithgor o fusnesau Pontarfynach a chynrychiolwyr sector cyhoeddus i ddatblygu cynllun gweithredu manwl i ddatblygu'r ardal ymhellach. Dylai hyn gynnwys cynllun gweithredu ar gyfer ariannu'r datblygiadau

angenrheidiol mewn seilwaith i wella diogelwch ac apêl yr ardal i ymwelwyr. Wedyn gweithredu'r newidiadau angenrheidiol i wneud yr ardal yn fwy deniadol i ymwelwyr.

Swyddog Prosiect Twristiaeth

Er mwyn cyflawni'r camau gweithredu uchod, rydym o'r farn y byddai'r tebygolrwydd o lwyddiant yn sylweddol uwch pe gellid ariannu swyddog prosiect am dair blynedd i helpu cyflawni'r gwaith.

Er ei bod yn bwysig y dylai busnesau lleol a rhanddeiliaid eraill gymryd perchnogaeth o ddatblygu'r ardal, nid yw'n bosibl bob amser i'r grŵp hwn ddarparu'r adnoddau angenrheidiol i symud pethau ymlaen mor gyflym ag yr hoffent.

Cam gweithredu. Archwilio'r posibilrwydd o sicrhau cyllid ar gyfer swyddog prosiect rhan-amser i adeiladu'r cynnig twristiaeth ac i helpu cyflawni'r cynllun gweithredu hwn.

Crynodebau Prosiectau – Cynllun ar gyfer yr Ucheldir

Cynyddu Galw					
ID	Nod	Cam gweithredu	Blaenoriaeth	Cost	Graddfa amser
Up1	Cynyddu ymwybyddiaeth o asedau twristiaeth yn yr Ucheldir				
Up1.1	Datblygu ymgyrch marchnata lle i hyrwyddo ardal yr Ucheldir i deithwyr annibynnol	Comisiynu ymgyrch thematig ynghylch y diffeithdir a'r hyn sydd gan yr ardal i'w gynnig. Datblygu slogan fel "Ymgollwch yn/mewn ..." y gellid ei defnyddio ar gyfer lleoliad, teimlad a gweithgareddau. Cynyddu'r defnydd o Gyfryngau Cymdeithasol a phresenoldeb arnynt. Byddai datblygu ymgyrch gyhoeddusrwydd/gysylltiadau cyhoeddus gyffredin yn rhoi'r enw Ucheldir ar y map ac yn denu mwy o ymwelwyr i mewn i'r tir. Byddai hefyd yn galluogi busnesau i gyflwyno cynnig unedig.	Uchel	£30K	Tymor byr i dymor canolig
Up1.2	Cynllun Llysghenhadon	Dyfeisio cynllun llysghenhadon, gan ddefnyddio busnesau, ymwelwyr, enwogion a brandiau â chysylltiad posibl â'r ardal. Adnabod hyrwyddwyr i'r ardal – fel aelodau cast y Gwyll a rhanddeiliaid lleol amlwg. Darparu deunyddiau syml: cardiau, taflenni etc i gefnogi swyddogaethau llysghenhadol.	Isel	£5K	Tymor canolig
Up1.3	Digwyddiadau a Gwyliau	Ystyried datblygu cyfres o ddigwyddiadau i ymestyn y tymor twristiaeth, denu mwy o ymwelwyr a chynyddu gwariant ymwelwyr. Rhoi cymorth i grwpiau sy'n dymuno datblygu gwyliau	Uchel	£25K	Tymor canolig

		newydd neu brandio gwyliau presennol â brand yr ucheldir.			
Up1.4	Cyfleoedd Y Gwyll/Hinterland	Manteisio ar gyfleoedd a ddaw yn sgil brand y Gwyll i ddenu ymwelwyr newydd i'r ardal: • Marchnata i ymwelwyr o Sgandinafia • Datblygu llwybr lleoliadau'r Gwyll • Creu gŵyl film noir yn rhai o leoliadau'r Gwyll	Canollig	£30K	Tymor canolig
Up2	Adeiladu cynhwysedd i ymateb i anghenion ymwelwyr				
Up2.1	Rhwydweithio busnesau twristiaeth	Rhwydweithio busnesau presennol i greu mäs critigol i'r sector twristiaeth, cyflawni'r cynllun gweithredu ac ennyn diddordeb aelodau newydd.	Uchel	£5K	Tymor byr
Up2.2	Gwella'r cynnig	Gwella dewis a safonau llety a lletygarwch i ddiwallu anghenion ymwelwyr â chwaeth, trwy: • Gweithdai hyfforddi i ddeall anghenion cwsmeriaid a dulliau i adeiladu cynnig sy'n sefyll allan • Diwrnod buddsoddi mewnol i fusnesau enghreifftiol	Canolig Isel	£10K £5K	Tymor canol
Up2.3	Datblygu seilwaith ar gyfer teithio'r ardal	Cynnal archwiliad o arwyddion a dehongli cyrchfannau allweddol er mwyn adnabod lle mae angen gwella. Datblygu strategaeth arwyddion a dehongli.	Canolig	£30K	Tymor canolig
Up2.4	Dyfeisio teithiau thematig i gysylltu atyniadau	Datblygu cynllun manwl sy'n ymdrin â'r cyfle o ddatblygu teithiau thematig i gysylltu atyniadau allweddol yn ardal yr Ucheldir. Gallai'r rhain gynnwys bwyd a diod, treftadaeth, asenau naturiol neu safleoedd ysbrydol / diwylliannol.	Uchel	£20K	Tymor canolig
Up2.5	Gwella cysylltiadau trafniadaeth gwyrdd	Comisiynu astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer rhentu cerbydau gwyrdd yn yr ardal – i gynnwys beiciau trydan, ceir Twizy a bysiau gwennol.	Uchel	£10K	Tymor byr

Up2.6	Adeiladu diwylliant o fentro	Gweithio gyda Cyswllt Ffermio i adnabod ffyrdd o ddangos i ffermwyr a busnesau gwledig eraill y manteision o ymwneud â'r economi dwristiaeth.	Canolig	£-	Tymor canolig
Up2.7	Gwelliannau i seilwaith Pontarfynach	Astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer datblygu Pontarfynach fel cyrchfan unigryw i ymwelwyr gyda gwell seilwaith at atyniadau i ymwelwyr.	Uchel	£20K	Tymor canolig
Up2.8	Rôl swyddog prosiect	Creu swydd referniw i swyddog prosiect rhan-amser am gyfnod o dair blynedd i symbylu datblygiad twristiaeth yn yr ardal a helpu cyflawni'r cynllun gweithredu.	Uchel	£60K	Tymor byr

5 Cynllun Gweithredu Ymwelwyr Diwylliannol / Treftadaeth



5.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn nodi cynllun gweithredu ar y thema diwylliant a threftadaeth ar gyfer denu ymwelwyr i'r Ucheldir. Mae'n crynhoi'r asedau sydd ar gael yn yr ardal ar hyn o bryd ac mae'n gosod cynllun i fynd i'r afael â rhai o'r heriau presennol wrth ddenu mwy o ymwelwyr a chynyddu gwariant ymwelwyr. Mae syniadau penodol am brosiectau hefyd wedi cael eu hamlinellu isod ar gyfer y thema hon, ac ar ddiwedd yr adran, mae rhestr o syniadau am brosiectau y rhoddwyd blaenoriaeth iddynt a'r dewisiadau cyllid sydd ar gael.

5.2 Asedau diwylliannol a threftadaeth

Mae amrywiaeth helaeth o brofiad diwylliannol a threftadael i ymwelwyr i'r Ucheldir. Mae hyn yn seiliedig ar atyniadau allweddol yn yr ardal fel Rheilffordd Cwm Rheidol, Abaty Ystrad Fflur, Stad yr Hafod, olwyn y mwynwyr ym Mhonrhydygroes a Phrofiad y Mynydd Arian. Atyniad ehangach yw'r diwylliant Cymraeg sy'n amlwg yn yr ardal, trwy ddefnydd helaeth o'r iaith Gymraeg a digwyddiadau fel yr Eisteddfod. Caiff 2017 ei hyrwyddo fel Blwyddyn y Chwedlau gan Croeso Cymru ac mae hyn yn cynnig cyfle i'r ardal hyrwyddo ei chwedlau fel Twm Sion Cati, a chysylltiadau enwog yr ardal â phobl fel George Burrow ac Owain Glyndwr.

Er bod atyniadau penodol yn yr ardal, mae'n fyr o hunaniaeth cysylltiedig fel cyfanrwydd ar hyn o bryd i gynnig pwynt gwerthu unigryw neu ei wneud iddi sefyll allan ymhlith lleoliadau sydd mewn cystadleuaeth â hi. Mae potensial i integreiddio'r atyniadau presennol i ddarparu rhwydwaith o gynigion, trwy ddatblygu teithiau rhwng safleoedd a rhannu gwybodaeth rhyngddynt. Gellir gweld hyn ym Mhontarfynach, lle mae diffyg arwyddion dehongli, golygfannau a rhesymau i ymwelwyr aros yn yr ardal.

5.3 Gweledigaeth ar gyfer diwylliant o threftadaeth yn ardal yr Ucheldir

Mae angen strategaeth i ddatbygu cynnig diwylliannol a threftadaeth cysylltiedig sy'n integreiddio'r atyniadau â chyfleusterau allweddol a seilwaith i ymwelwyr fel rhan o'r cynnig ehangach ar draws yr ardal.

Mae'r syniadau a amlinellir isod yn awgrymiadau o ffyrdd o wireddu'r weledigaeth gyffredin hon yn ardal yr Ucheldir trwy ddatblygu ac integreiddio asedau sefydledig yn yr ardal. Mae'r syniadau am brosiectau a amlinellir isod wedi cael eu creu ar y cyd ag aelodau o'r gymuned.

1. **Taith Sistersaidd.** Cefnogi datblygiad y Daith Sistersaidd yn yr ardal i sicrhau ei fod yn cwmpasu'r cynnig ehangach sydd ar gael yn ardal yr Ucheldir. Roedd y camau nesaf a amlinellwyd yn hydref 2016 yn canolbwyntio ar hyrwyddo'r llwybrau a ffyrdd i ymuno â'r Daith Sistersaidd a llwybr yr arfordir a gweithio gyda datblygiad Abaty Ystrad Fflur. Mae'r cynlluniau datblygu yn y dyfodol yn cynnwys cwblhau llwybr y daith, cyhoeddusrwydd, annog drysau agored i gerddwyr a darparu lluniaeth. Yn ogystal, y potensial am beicio a marchogaeth yn gyfochrog â'r llwybr cerdded. Mae posibilrwydd i gysylltu'r llwybr Sistersaidd â'r teithiau a ddatblygir fel rhan o gynllun y Llefydd Llonydd yn yr Ucheldir.
2. **Datblygiad Abaty Ystrad Fflur.** Cefnogi datblygiad Abaty Ystrad Fflur yn unol â'r cynlluniau presennol ar gyfer y safle. Yn ogystal, mae'r angen i integreiddio datblygiadau'r safle â chynnig ehangach ardal yr Ucheldir, i sicrhau budd posibl o'r buddsoddiad i'r amrediad ehangaf o fusnesau. Mae angen i Bontrhydfendigaid

baratoi ei hun ar gyfer bod yn borth i Ystrad Fflur a manteisio ar unrhyw gynnydd posibl o dwristiaeth yn yr ardal. Dylai ymwelwyr a ddenir i'r Abaty gael eu hannog i ymweld â safleoedd treftadaeth eraill sydd ar gael yn yr ardal cyn belled ag y bo'n bosibl, er enghraifft trwy'r prosiect Llefydd Llonydd.

3. **Digwyddiadau Eglwysig** ee cerddoriaeth. Mae cyfle, yn enwedig yn eglwys yr Hafod, i ennyn diddordeb y gymuned ehangach ac ymwelwyr i'r ardal trwy gynnal gwahanol ddigwyddiadau gan ddefnyddio'r eglwys. Er enghraifft, digwyddiadau cerddorol fel canu neu gerddoriaeth mewn partneriaeth â grwpiau corawl lleol a fyddai'n cael cyfle i berfformio i gynulleidfa ehangach a chyfarfod ymwelwyr i'r ardal.
4. **Straeon y bobl leol - George Borrow / Thomas Johnes / Twm Sion Cati.** Cynyddu'r cynnig i ymwelwyr trwy wreiddio straeon pobl leol fel rhan o brofiad yr ymwelwyr pan fyddont yn ardal yr Ucheldir. Gellid gwneud hyn trwy ddweud straeon, gwell gwybodaeth i ymwelwyr neu arwyddion/taflenni i rannu'r wybodaeth hon. Mae hyn yn gweddu'n dda â thema Blwyddyn y Chwedlau am 2017.
5. **Datblygu'r Hafod.** Y cyfle i ddatblygu'r cynnig i ymwelwyr yn Stad yr Hafod, yn ogystal â'r teithiau tywys o gwmas y safle, yr eglwys a'r gerddi muriog. Gallai hyn fod yn atyniad canolog gyda gwell profiad i ymwelwyr i barhau i ddenu mwy o ymwelwyr i'r stad.
6. **Canolfan y Barcud a datblygu amgueddfa.** Mae potensial i ddatblygu Canolfan y Barcud i ddenu mwy o ymwelwyr trwy drefnu mwy o ddigwyddiadau, atyniadau penodol, oriau agor cyson ac o bosibl gylch gorchwyl ehangach. Gallai'r ganolfan hyrwyddo treftadaeth yr ardal ymhellach, yn ogystal â'r amgylchedd naturiol.
7. **Celf a chrefftau lleol a werthir yn yr ardal.** Ar hyn o bryd, cyfyng iawn yw'r dewis o siopau y tu allan i Dregaron i ymwelwyr a allai fod yn awyddus i brynu celf a chrefftau a wnaed yn yr ardal leol. Mae'r Ganolfan Aur yn Nhregaron yn gwerthu Aur Cymreig a gwaith llaw celf a chrefft.⁴⁴
8. **Adeiladu cysylltiadau rhwng Rheilffordd Cwm Rheidol a busnesau lleol.** Mae potensial i ddatblygu ymhellach y berthynas rhwng busnesau lleol ym Mhontarfynach a Rheilffordd Cwm Rheidol, yn enwedig trwy farchnata ar y cyd neu draws-hyrwyddo. Byddai hyn yn galluogi i gynnig ehangach gwel ei ddatblygu i hyrwyddo ac annog ymwelwyr i aros yn hirach yn yr ardal, gan sicrhau bod gwariant ymwelwyr yn cynyddu i'r gymuned fel cyfanrwydd.
9. **Datblygiadau Rheilffordd Rheidol.** Mae cyfle gan y rheilffordd i gynnig gwell profiad i ymwelwyr trwy arwyddion, adroddwyr straeon yn ystod y daith neu ddatblygu app Bluetooth ar gyfer ffôn clyfar. Byddai hyn yn rhoi gwybodaeth ychwanegol am yr hyn y mae ymwelwyr yn ei brofi, yn clymu'r gwsteion i stori ehangach yr ardal ac yn hyrwyddo ymwelwyr at atyniadau lleol eraill.
10. **Treftadaeth mwynloddio.** Mae amrywiaeth cyfoethog o safleoedd hanesyddol i'w harchwilio sy'n ymwneud â hanes mwynloddio ardal yr Ucheldir. Er bod gwaith wedi cael ei wneud trwy gynlluniau cynharach i dynnu sylw at hyn, mae potensial yn dal i fod i ddyfeisio rhwydwaith o lwybrau gyda thywysyddion neu ddeunyddiau dehongli i ddatblygu dealltwriaeth o hanes diwylliannol yr Ucheldir. Roedd Cwm Ystwyth yn lle pwysig o ran mwynloddiau arian, plwm a sinc ac mae potensial am deithiau cerdded tywysedig hanesyddol ar hyd y cwm.

⁴⁴ <http://www.rhiannon.co.uk/>

5.4 Diwylliannol a threftadaeth: prosiectau â blaenoriaeth

Amlinellir isod amrywiaeth o syniadau prosiectau diwylliant a threftadaeth. Mae hyn yn cynnwys yr awgrymiadau am syniadau prosiectau a ddatblygwyd fel rhan o'r gweithdai ymgynghori â'r gymuned.

C&H1 Digwyddiadau Cerddorol mewn Safleoedd Diwylliannol a Threftadaeth

Argymhelliad	Datblygu cyfres o ddigwyddiadau cerddiaeth mewn safleoedd diwylliannol a threftadaeth ledled ardal yr Ucheldir.	Blaenoriaeth Isel	Cost Isel	Amserlen Tymor byr
Disgrifiad I wella'r cynnig diwylliannol i ymwelwyr, gellid sefydlu cyfres o ddigwyddiadau yn yr ardal i gynnig cerddoriaeth mewn safleoedd diwylliannol allweddol. Er enghraifft, gallai eglwys yr Hafod gynnal digwyddiadau cerddorol gan gorau lleol gyda cherddorion gwadd. Nod y digwyddiadau fyddai hyrwyddo'r ardal, denu ymwelwyr o wahanol rannau o'r Ucheldir a dod ag incwm i'r safleoedd treftadaeth.		Cyflawni • Pentir Pumlumon Sefydliadau ychwanegol • Stad yr Hafod • Gwestyau'r Talbot / Hafod • Abaty Ystrad Fflur • Profiad y Mynydd Arian		
Argymhellion Datblygu tîm bach i gynllunio, sefydlu a chynnal rhaglen o ddigwyddiadau ar raddfa fach yn yr ardal. Gallai'r grŵp hwn weithio gyda'i gilydd i wneud cais am gyllid (os yn angenrheidiol) a chyd-drafod â'r atyniadau allweddol i lwyfannu'r gwahanol ddigwyddiadau.		Ffynonellau ariannol posibl RDP neu fodel hunan-ariannu Beth fydd llwyddiant? Amrywiaeth o ddigwyddiadau cerddorol ar raddfa fach yn cael eu cynnal yn yr ardal leol.		

C&H2 Taith Twristiaeth Crefyddol

Argymhelliad	Datblygu integreiddiad y Ffordd Sistersaidd yn ardal yr Ucheldir.	Blaenoriaeth Isel	Cost Isel	Amserlen Tymor canolig
Disgrifiad Cefnogi datblygiad y Ffordd Sistersaidd yn ardal yr Ucheldir, mewn partneriaeth â Phrifysgol De Cymru a phrosiect Llefydd Llonydd. Bydd hyn yn integreiddio'r atyniadau allweddol yn yr ardal gyda llwybrau pellter hir i fynd i ddarganfod y safleoedd mewn ffordd gydgysylltiedig.		Cyflawni Llefydd Llonydd a Madeleine Gray, Prifysgol De Cymru, mewn partneriaeth â Pentir Pumlumon Beth fydd llwyddiant?		

Argymhellion Gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol De Cymru i ddatblygu'r Ffordd Sistersaidd yn ardal yr Ucheldir, gan ei integreiddio i'r prosiect Llefydd Llonydd a chlymu hyn â datblygiad Abaty Ystrad Fflur.	Cynnig cysylltiedig o atyniadau crefyddol yn ardal yr Ucheldir gyda llwybrau i'w crwydro a'u darganfod.
--	--

C&H3 Gŵyl Ffilmiau

Argymhelliad	Datblygu gŵyl ffilmiau mewn safleoedd diwylliannol a threftadaeth ledled ardal yr Ucheldir.	Blaenoriaeth Isel	Cost Isel	Amserlen Tymor byr
Disgrifiad		Cyflawni		
I wella'r cynnig diwylliannol i ymwelwyr, gellid sefydlu gŵyl ffilmiau yn yr ardal. Gellid defnyddio hyn i hyrwyddo film noir, yn unol â'r cysylltiadau â'r Gwyl/Hinterland a ffilmiau Cymraeg neu eraill sydd wedi eu saethu yn yr ardal. Nod yr ŵyl fyddai hyrwyddo'r ardal, denu ymwelwyr i'r ardal a hyrwyddo'r Gymraeg.		• Pentir Pumlumon		
		Ffynonellau cyllid posibl		
Argymhellion		RDP		
Datblygu tîm bach i gynllunio, sefydlu a chynnal yr ŵyl ffilmiau fach. Gallai'r grŵp hwn weithio gyda'i gilydd i geisio am gyllid (os bydd angen) a chyd-drafod â'r lleoliadau allweddol a allai gynnal gwahanol ddigwyddiadau fel rhan o'r ŵyl ffilmiau.		Beth fydd Llwyddiant? Gŵyl ffilmiau yn ardal yr Ucheldir.		

C&H4 Taith George Borrow

Argymhelliad	Datblygu taith wedi'i dehongli i ddilyn y daith a ddilynwyd gan George Borrow yn ei lyfr Wild Wales	Blaenoriaeth Isel	Cost Isel	Amserlen Tymor canol
Disgrifiad	Caiff ardal yr Ucheldir ei disgrifio'n helaeth yn llyfr George Borrow o'i deithiau trwy ganolbarth Cymru ar ddechrau'r 19eg ganrif⁴⁵. Mae'r llyfr yn cynnwys cyfoeth o staeon i'w hailadrodd neu eu dehongli yn y tirwedd ac fel bachyn ar gyfer ymweld â safleoedd o fewn yr ardal. Gellid ychwanegu gŵyl neu gonfensiwn George Borrow at y calendr digwyddiadau.	Cyflawni - Pentir Pumlumon - Cymdeithas George Borrow		
Argymhellion		Ffynonellau cyllid posibl RDP		

⁴⁵ <http://www.gutenberg.org/files/648/648-h/648-h.htm>

Gweithio gyda phartneriaid i ddehongli a gwreiddio gweithiau George Borrow yng nghynnig twristiaeth yr ardal.

Loteri

Beth fydd llwyddiant?

Cynnydd mewn ymwelwyr sydd â diddordeb yn George Borrow

6 Cynllun gweithredu gweithgareddau awyr agored / chwaraeon



6.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn nodi'r cynllun gweithredu twristiaeth ar gyfer y thema gweithgareddau awyr agored a chwaraeon yn ardal yr Ucheldir. Mae'n crynhoi'r asedau awyr agored / chwaraeon sydd ar gael yn yr ardal ar hyn o bryd i ymwelwyr ac aelodau'r gymuned. Yn ogystal, mae'n nodi gweledigaeth i'r ardal ar gyfer mynd i'r afael â rhai o'r heriau presennol wrth ddatblygu cyfleoedd, denu mwy o ymwelwyr a chynyddu gwariant ymwelwyr. Mae'r syniadau am brosiectau penodol hefyd wedi cael eu hamlinellu isod ar gyfer y thema hon. Ar ddiwedd yr adran mae rhestr o'r syniadau prosiect a argymhellwyd ar sail blaenoriaethau a adnabuwyd yn y gweithdai a dewisiadau cyllid sydd ar gael.

6.2 Asedau gweithgareddau awyr agored / chwaraeon

Mae'r asedau allweddol o ran gweithgareddau a chwaraeon yn yr ardal yn cynnwys canolfan ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian a llwybrau ar gyfer cerdded a beicio mynydd, copa eiconig Pumlumon, seilwaith da ar gyfer beicio ffordd, a chyfleoedd am weithgareddau sensitif oddi ar y ffordd a ralïo. Mae tirwedd dihalog ardal yr Ucheldir yn gryfder gwirioneddol sydd hefyd yn rhoi cyfleoedd am weithgareddau lluosog fel saethu, merlota a chwaraeon dŵr. Mae hygyrchedd yr ardal yn gryfder o safbwynt denu ymwelwyr o Ganolbarth Lloegr yn enwedig, sy'n awyddus i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored.

Un o'r gwendidau yn yr ardal yw'r diffyg seilwaith a chyfleusterau, gydag ychydig yn unig o leoedd parcio, toiledau neu gyfleusterau newid ar gael i ymwelwyr (ac eithrio ym Mwlch Nant yr Arian). Mae angen gwella hyn er mwyn annog ymwelwyr i ddod i'r ardal a dychwelyd yn y dyfodol. Mae Nant yr Arian yn gyfleuster da fel man cychwyn, ond ar hyn o bryd, nid oes unrhyw wasanaethau atgyweirio na rhentu beiciau yn yr ardal, gyda'r siop feiciau agosaf yn Abertystwyth. Byddai cyfleusterau o'r fath yn ychwanegiad rhagorol at y cynnig presennol o ran beicio ac yn gweithredu fel angorfa er mwyn cynyddu hyd arosiadau a gwariant. Yn ogystal, mae angen gwneud mwy o farchnata'r cynnig o feicio ffordd a beicio mynydd sydd ar gael yn yr ardal er mwyn denu mwy o ymwelwyr.

Ar draws yr ardal, cyfyng ar hyn o bryd hefyd yw'r llwybrau sydd wedi eu harwyddo neu eu marcio ac nid oes gan bob ardal lwybrau agored. Yn bwysicaf oll efallai nid oes unrhyw lwybr clir wedi ei arwyddo i gopa Pumlumon oddi ar briffordd yr A44 (mewn lleoedd fel maes parcio Dyffryn Castell). Mae nifer cyfyngedig o lwybrau cerdded wedi eu nodi'n dda i ymwelwyr felly mae hwn yn faes i'w wella yn yr Ucheldir gyda llwybrau fel Ffordd Cambria a Dyffryn Aeron yn rhai i'w hystyried. Yn ogystal, mae angen datblygu'r seilwaith (sef toiledau, caffis, parcio etc) mewn lleoliadau i annog mwy o bobl i gerdded yn yr ardal.

6.3 Gweledigaeth ar gyfer gweithgareddau awyr agored / chwaraeon yn ardal yr Ucheldir

Mae angen i'r ardal ddatblygu cynnig integredig o atyniadau gweithgareddau awyr agored a chwaraeon sy'n cysylltu cyfleusterau allweddol â seilwaith fel rhan o'r cynnig ehangach i ymwelwyr yng Ngheredigion.

Mae'r syniadau a amlinellir isod yn awgrymiadau am ffyrdd o wireddu'r weledigaeth hon yn ardal yr Ucheldir trwy ddatblygu ac integreiddio asedau sydd wedi eu sefydlu eisoes. Mae'r syniadau prosiect isod wedi cael eu creu ar y cyd ag aelodau o'r gymuned.

1. **Gweithgareddau awyr agored Cronfa Ddŵr Nant y Moch.** Gellid datblygu'r ardal o gwmpas Nant y Moch a Maes y Nant i gynnig amrywiaeth helaeth o chwaraeon

dŵr a gweithgareddau eraill. Gallai darparu chwaraeon dŵr yn y mewndir wella'n sylweddol y cynnig i ymwelwyr a denu ymwelwyr i mewn o'r arfordir, yn ogystal ag agor ardal ogleddol yr Ucheldir.

2. **Datblygu cysylltiadau rhwng yr Ucheldir ac Eryri / Bannau Brycheiniog.** Mae angen i'r hyrwyddo gael ei wneud mewn partneriaeth ag atyniadau allweddol yn ngogledd a de Cymru. Bydd hyn yn integreiddio'r cynnig o weithgareddau awyr agored sydd ar gyfer yng Nghymru fel cyfanrwydd. Mae cymdeithasau masnachol ar gyfer gweithredwyr gweithgareddau awyr agored yn Eryri a Bannau Brycheiniog ar hyn o bryd, ond dim mudiad i'r rheini sy'n gweithio yn y Canolbarth.
3. **Her Mynyddoedd Cambria.** Ail-ddatblygu'r ras a arferai gael ei galw yn Her Pumlumon (rhedeg mynydd) o dan brand Mynyddoedd Cambria, ond gan ddefnyddio ardal yr Ucheldir. Bydd hyn yn denu ymwelwyr i'r ardal sydd â diddordeb mewn gweithgareddau awyr agored ac yn arddangos yr amgylchedd naturiol sydd ar gael.
4. **Taith o Fynyddoedd Cambria.** Datblygu ras feiciau a bydd yn manteisio ar y tirwedd unigryw a'r atyniadau sydd ar gael ym Mynyddoedd Cambria, yn enwedig yn ardal yr Ucheldir. Bydd y ras yn anelu at ddenu ymwelwyr i'r ardal i aros dros benwythnos y digwyddiad, neu os caiff ei hyrwyddo'n iawn, gallai ymestyn eu harhosiad ymhellach. Yn allweddol, bydd yn tynnu ymwelwyr drwy'r flwyddyn i brofi beicio ar lonydd anghysbell yr Ucheldir.
5. **Bws gwennol i leoliadau.** I gynyddu'r graddau y mae trafnidiaeth ar gael rhwng gwahanol leoliadau, dylid treialu bws gwennol (gyda raciau beic) i wahanol leoliadau; er enghraifft i gysylltu Bwlch Nant yr Arian, Pontarfynach ac Aberystwyth.
6. **Ceufadu / canŵio ar y Rheidol.** Mae potensial i gynnig cyfleusterau ceufadu ar afon Rheidol i ymwelwyr ac aelodau o'r gymuned. Gallai'r cynnig ychwanegol hwn i ymwelwyr ddenu pobl o ardaloedd yr arfordir i brofi gweithgaredd dŵr cofiadwy. Er enghraifft, gallai canŵio ar y Rheidol i lawr yr afon o Bontrhydygroes fel yn atyniad gwirioneddol, ond mae angen datblygu mynediad i'r afon a chyfleusterau.
7. **Llwybrau marchogaeth pellter hir.** Nodi a datblygu llwybrau ceffylau sy'n bod eisoes yn ardal yr Ucheldir fel y bydd yn fwy hygyrch ar gyfer marchogaeth ceffylau.
8. **Darganfod ogofâu a mwyngloddiau.** Mae cyfleoedd i gynnig profiadau o ddarganfod ogofâu a mwyngloddiau i ymwelwyr.

Mae cyrchfannau sydd wedi eu datblygu mewn mannau eraill yn fygythiad allweddol i ardal yr Ucheldir. Mae cystadleuaeth gref gan ganolfannau gweithgareddau awyr agored sydd wedi'u sefydlu eu hunain ers mwy o amser, ac sydd eisoes yn adnabyddus ac â chyfleusterau da ar gael i ymwelwyr. Er enghraifft, mae Coed y Brenin, Antur Stiniog a Pharc Beiciau Cymru yn cynnig llwybr lawr rhiw heriol iawn i feiciau mynydd, tra bod canolfannau adrenalin ym Methesda a Blaenau Ffestiniog yn cynnig profiadau 'zip wire' a thrampolîn tanddaearol.

6.4 Gweithgareddau awyr agored / chwaraeon: prosiectau blaenoriaeth

Amlinellir isod ddetholiad o awgrymiadau am syniadau prosiectau gweithgareddau awyr agored a chwaraeon, gan gynnwys y rheini a ddatblygwyd fel rhan o'r gweithdai ymgynghori â'r gymuned.

OAS1 Parc Pumlumon

Argymhelliad	Helpu datblygu'r cynnig o weithgareddau awyr agored yn Nant y Moch i roi atyniad canolog o chwaraeon dŵr, chwaraeon tir a chwaraeon dan do yn yr Ucheldir.	Blaenoriaeth Canolig	Cost Canolig i uchel (fesul cam)	Amserlen Tymor byr i ganolig
Disgrifiad Mae potensial i adfywio'r ganolfan gweithgareddau awyr agored ym Maesnant i rai sy'n mwynhau chwaraeon egni'ol. Gallai hyn gynnig chwaraeon dŵr, tir a than-do nad ydynt ar gael yn yr Ucheldir ar hyn o bryd. Gallai'r gweithgareddau gynnwys: dŵrfyrddio, ceufadu, rhwyfo, hwylio, creigio, byrddio mynydd, dringo creigiau a pharc sglefrio. Gallai hyn ddefnyddio a gwella amgylchedd naturiol cronfa ddŵr Nant y Moch a'r ardaloedd o gwmpas. Gallai llety fod ar gael hefyd ar safle Maesnant ynghyd ag amrywiaeth o gyfleusterau atodol i ymwelwyr.		Cyflawni Pentir Pumlumon a Statkraft Sefydliadau ychwanegol		
Argymhelliad Cynnal astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer canolfan gweithgareddau awyr agored gyda'r bwriad o geisio am gyllid twristiaeth i helpu gyda'r costau gweithredu cychwynnol.		Ffynonellau Cyllid Posibl • RDCF (astudiaeth ddichonoldeb) • Gweithredu: RTEF, TPIF a TISS		
		Beth fydd Llwyddiant? Sefydlu cynnig o chwaraeon dŵr, tir a than-do i ymwelwyr yn yr Ucheldir yn Nant y Moch		

OAS2 Taith o Fynyddoedd Cambria

Argymhelliad	Datblygu ras feiciau gystadleuol o amgylch Mynyddoedd Cambria	Blaenoriaeth Isel	Cost Isel i ganolig	Amserlen Tymor canolig
--------------	---	----------------------	------------------------	---------------------------

Disgrifiad Y cyfle i ddatblygu ras feiciau gystadleuol o amgylch Mynyddoedd Cambria. Bydd hyn yn hyrwyddo'r gwahanol ardaloedd ym Mynyddoedd Cambria, gan gynnwys ardal yr Ucheldir. Gallai fynd trwy ardaloedd allweddol fel Pontarfynach a Thregaron. Gallai'r daith gwmpasu'r ffyrdd mynyddig i gynnig cystadleuaeth feicio olygfaol sy'n wirioneddol unigryw i'r ardal. Byddai'n denu ymwelwyr i'r ardal am y penwythnos neu efallai'n annog arosiadau hirach yn yr ardal o'i hyrwyddo'n iawn. Byddai'n cynnig digwyddiad i ddenu pobl sy'n hoff o'r awyr agored i'r ardal.	Cyflawni Pentir Pumlumon mewn partneriaeth â Nant yr Arian
Argymhellion Datblygu cais manwl am gyllid i helpu sefydlu'r ras feiciau ym Mynyddoedd Cambria.	Ffynonellau Cyllid Posibl Cefn Croes, RTEF neu nawdd gan brandiau/sefydliadau allweddol Beth fydd Llwyddiant? Denu beicwyr i'r ardal i gystadlu mewn taith o Fynyddoedd Cambria

OAS3 Her Mynyddoedd Cambria

Argymhelliad	Ail-sefydlu Her Pumlumon a datblygu'r cynnig o ras i gyfranogwyr	Blaenoriaeth Isel	Cost Isel	Amserlen Tymor byr i ganolig
Disgrifiad Ail-ddatblygu Her Pumlumon, i ddenu ymwelwyr i'r ardal a threulio mwy o amser yn yr ardal. Byddai'r ras redeg mynyddoedd wedi ei lleoli yn ardal Pumlumon ac yn mynd â chystadleuwyr heibio i darddiad Hafren a Gwy cyn croesi cymoedd Hengwm a Hirant valleys. Wedyn dilyn ymyl argae Nant y Moch ac wedyn y ddringfa olaf i'r diwedd. Roedd gan y ras flaenrol gyfanswm o 5,000 troedfedd o ddringo. Byddai'r ras yn denu ymwelwyr allweddol gyda digwyddiadau eraill cyfochrog ar yr un dyddiad i ddenu amrywiaeth helaeth o alluoedd i'r ardal.		Cyflawni		
		Pentir Pumlumon		
		Ffynonellau Cyllid Posibl		
Argymhellion Datblygu cynllun manwl ar gyfer sefydlu a chyllid i sefydlu Her Mynyddoedd Cambria.		Cefn Croes a thaliadau cystadlu		
		Beth fydd Llwyddiant?		
		Penwythnos blynyddol o ddigwyddiadau i ddenu rhedeg mynydd a cherdded ym Mynyddoedd Cambria.		

OAS4 Cyfleusterau rhentu ac atgyweirio beiciau

Argymhelliad	Datblygu cyfleusterau rhentu ac atgyweirio beiciau mynydd/ffordd yn ardal yr Ucheldir fel rhan o'r cynnig i ymwelwyr.	Blaenoriaeth Isel	Cost Isel i ganolig	Amserlen Tymor byr
Disgrifiad Gwella'r cynnig beicio presennol sydd ar gael yn ardal yr Ucheldir trwy rentu ac atgyweirio gwahanol fathau o feiciau. Byddai hyn yn rhoi cynnig a gwasanaeth mwy holistaidd i ymwelwyr a'r gymuned leol. Gallai Nant yr Arian ddarparu'r gwasanaethau ychwanegol hyn, ochr yn ochr â'r hyn a ddarparant eisoes. Gellid cyflawni hyn ar sail cytundeb rhyddfrait, gan alluogi busnesau lleol presennol i ehangu eu gweithgareddau. Gallai'r posibilrwydd o logi feiciau trydan a beiciau mynydd gynyddu apêl y llwybrau hiraf yn yr ardal.		Cyflawni Nant yr Arian		
Argymhellion Nant yr Arian i wella'u cynnig presennol trwy gynnig rhentu ac atgyweirio beiciau.		Ffynonellau Cyllid Posibl NRW		
		Beth fydd Llwyddiant? Cynnig mwy holistaidd o ran beicio i ymwelwyr ac aelodau o'r gymuned.		

OAS5 Brandiau awyr agored i hyrwyddo'r ardal

Argymhelliad	Adeiladu ymwybyddiaeth o'r Ucheldir trwy gysylltu â brandiau	Blaenoriaeth Canolig	Cost Isel	Amserlen Tymor byr/ canolig
Disgrifiad Gall cysylltu ardal â brand adnabyddus trwy nawdd neu ddefnyddio lleoliadau ar gyfer lluniau hyrwyddo godi ymwybyddiaeth a denu ymwelwyr sy'n arddel gwerthoedd tebyg.		Cyflawni Pentir Pumlumon		
Argymhellion Trefnu dyddiau arddangos i gynrychiolwyr brandiau awyr agored neu feiciau mynydd allweddol gyda'r nod o ddatblygu cydweithrediad.		Ffynonellau Cyllid Posibl RDP		
		Bydd fydd Llwyddiant? Yr Ucheldir yn dod yn gyrchfan eiconig trwy gysylltu â brand sy'n ffasiynol.		

OAS6 Llwybrau marchogaeth pellter hir

Argymhelliad	Nodi a chynnal llwybrau ceffylau yn ardal yr Ucheldir.	Blaenoriaeth Isel	Cost Canolig	Amserlen Tymor hir
Disgrifiad Nodi a chynnal llwybrau ceffylau yn ardal yr Uchelir ar gyfer teithiau marchogaeth pellter byr a phellter hir. Gallai hyn wella'r cynnig presennol o farchogaeth i bobl leol ac ymwelwyr â'r ardal.		Cyflawni		
		Tîm yr Arfordir a Chefn Gwlad yn y Cyngor		
		Ffynonellau Cyllid Posibl		
Argymhellion		Cyngor Ceredigion		
Datblygu cynllun i wella'r llwybrau ceffylau ledled ardal yr Ucheldir a'i weithredu ar gyfer datblygiad hirdymor llwybrau ceffylau sy'n agored i bobl leol ac i ymwelwyr â'r ardal.		Beth fydd Llwyddiant?		
		Cyfres o lwybrau ceffylau wedi eu mapio a'u cynnal ledled ardal yr Ucheldir.		

7 Cyfleoedd bywyd gwledig / yr amgylchedd naturiol i ymwelwyr



7.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn nodi'r cynllun gweithredu twristiaeth ar gyfer thema'r bywyd gwledig a'r amgylchedd naturiol yn ardal yr Ucheldir. Mae'n rhoi crynodeb o'r asedau yn yr ardal sydd ar gael ar hyn o bryd i ymwelwyr ac aelodau o'r gymuned. Yn ogystal, mae'n nodi gweledigaeth i fynd i'r afael â rhai o'r heriau presennol o ran datblygu cyfleoedd; denu mwy o ymwelwyr a chynyddu gwariant ymwelwyr. Mae syniadau prosiectau penodol hefyd wedi cael eu hamlinellu isod ar y thema hon. Ar ddiwedd yr adran mae rhai argymhellion clir am brosiectiau blaenoriaeth ar sail ymgynghori a'r dewisiadau cyllid sydd ar gael.

7.2 Asedau bywyd gwledig / yr amgylchedd naturiol

Y tirwedd yw un o asedau mwyaf ardal yr Ucheldir: mae'n ardal o harddwch garw nodedig ac mae'n un o'r ardaloedd lleiaf poblog Cymru a Lloegr. Mae ardal yr Ucheldir yn cynnig tirwedd amrywiol sy'n cynnwys bryniau, cymoedd, fforest/coetir, afonydd a chorsydd ucheldirol. Mae'r gwarchodfeydd natur fel Cors Caron yn denu ymwelwyr sydd â diddordeb mewn gweld gwahanol gynefinoedd naturiol. Mae'r ardal yn cynnig cyfle unigryw ar gyfer gwyllo adar; gyda rhywogaethau fel adar ysglyfaethus gan gynnwys barcutiaid coch, gweilch y pysgod a hebogiaid tramor. Mae'r agweddau hyn o'r amgylchedd naturiol yn gaffaeliad gwirioneddol i ymwelwyr sy'n darganfod yr ardal. Mae hefyd nifer o brosiectau dad-ddofi tir y rhanbarth, y gellid ei gysylltu â datblygu tirwedd mwy naturiol a denu grŵp gwahanol o ymwelwyr.

Pumlumon yw copa uchaf Mynyddoedd Cambria a chanolbarth Cymru a dyma hefyd darddiad tair afon. Mae'r afonydd lleol yn cynnig ffordd amgen o archwilio'r ardal ac yn cynnig pysgota brithyll gwyllt fel gweithgaredd. Yn ogystal, mae'r tirwedd naturiol yn cynnig cyfle rhagorol ar gyfer cerdded gan fod nifer o lwybrau wedi eu dogfennu yn yr ardal.

Gall achrediad Awyr Dywyll y Nos ddenu pobl i'r ardal: gwelwyr eisoes fod hyn yn atyniad allweddol i Stad Cwm Elan gerllaw, a achredwyd fel Parc Awyr Dywyll Rhyngwladol⁴⁶, y cyntaf yn y byd o'i fath - fel parc sy'n eiddo preifat ond yn agored i'r cyhoedd – i wneud hynny. Gallai Mynyddoedd Cambria ystyried creu estyniad i'r ardal hon o Awyr Dywyll gydnabyddedig i ychwanegu at ei gynnig i ymwelwyr.

Er gwaethaf y tirwedd naturiol nodedig, mae diffyg seilwaith i ymwelwyr, fel lleoedd wedi eu hamlinellu'n glir ar gyfer parcio, toiledau sydd ar gael i'r cyhoedd, a llwybrau wedi eu nodi i arwain cerddwyr. Ar hyn o bryd, mae Llwybr Arfordir Cymu yn atyniad allweddol i gerddwyr o bob gallu ac mae angen denu cerddwyr i mewn i'r tir oddi wrth yr arfordir, rhywbeth sy'n gofyn am y cyfleusterau a'r mynediad gorau bosibl. Ar hyn o bryd nid yw ardal yr Ucheldir yn hygyrch mewn gwirionedd ond i gerddwyr mwy profiadol ac mae angen addasu'r cynnig i wahanol lefelau o gerddwyr i ddenu mwy o ymwelwyr.

7.3 Gweledigaeth ar gyfer bywyd gwledig / yr amgylchedd naturiol yn ardal yr Ucheldir

Mae angen i'r amgylchedd naturiol fod yn rhan o gynnig integredig sy'n cysylltu'r atyniadau â chyfleusterau a seilwaith allweddol i ymwelwyr fel rhan o gynnig ehangach Ceredigion.

⁴⁶ <http://darksky.org/idsp/parks/>

Mae'r syniadau a amlinellir isod yn awgrymiadau o ffyrdd i wireddu'r weledigaeth gyffredin hon yn ardal yr Ucheldir trwy ddatblygu ac integreiddio asedau sefydledig yn yr ardal. Mae'r syniadau prosiect a amlinellir isod wedi cael eu creu ar y cyd ag aelodau o'r gymuned.

1. **Awyr dywyll y nos.** Gellid efelychu llwyddiant Awyr Dywyll Stad Cwm Elan mewn ardaloedd eraill yn yr Ucheldir i gynnig atyniad i'r ardal ehangach. Gellid cysylltu hyn â digwyddiadau lleol am yr Awyr Dywyll i ymwelwyr ac aelodau o'r gymuned leol. Cynigiwyd hyn yn Sir Fynwy gan ddenu diddordeb sylweddol a digwyddiadau'n gwerthu allan.



2. **Trilliw'r mynydd i hyrwyddo Mynyddoedd Cambria.** Y cyfle i ddefnyddio trilliw'r mynydd fel rhan o brand Mynyddoedd Cambria. Gellid defnyddio hwn ar wybodaeth, taflenni neu wefannau i'w ddatblygu fel symbol o'r ardal. Mae trilliw'r mynydd yn flodyn melyn prin.

3. **Llwybrau cerdded pellter hir.** Datblygu llwybrau i gerddwyr pellter hir sy'n arddangos yr amgylchedd naturiol. Mae angen diffinio a mapio llwybr sydd ar gael, adnabod costau, ennill cefnogaeth leol a chael gafael ar gyllid. Byddai hyn yn atyniad allweddol i gerddwyr ddod i'r ardal, yn enwedig os caiff ei hyrwyddo gyda'r diffeithdir a chynnig rhywfaint o ddarpariaeth i ymwelwyr (ee toiledau cyhoeddus, lleoedd parcio etc.).

4. **Cysylltiadau ag amaethyddiaeth.** Mae cyfle i integreiddio'r cynnig twristiaeth i ymwelwyr â'r gwaith amaethyddol presennol yn ardal yr Ucheldir. Gallai hyn gynnwys ymweliadau fferm, coginio a chysiau sgiliau gwledig yn yr ardal. Dull tebyg i'r hyn a fabwysiadwyd gan Humble by Nature yn nyffryn Gwy. Mae hefyd y syniad o ddatblygu rhwydwaith o ffermwyr i roi gwybodaeth a chymorth i helpu gyda'r arallgyfeirio sydd ei angen ar gyfer dyfodol ffermwyr Cymru gyda'r sector twristiaeth yn rhan o hynny.
5. **Taith adar ysglyfaethus.** Arddangos y cynnig unigryw o fywyd gwyllt sydd ar gael, gan ddatblygu taith adar o'r hyn y gellir ei weld yn ardal yr Ucheldir. Fel yr awgrymwyd yn y gweithdy, byddai tebygrwydd rhwng gweld y 'pum anifail mawr' yn Affrica a gweld yr adar allweddol yn ardal yr Ucheldir.
6. **Cysiau paentio a ffotograffiaeth.** I arddangos y tirwedd naturiol mae potensial i gynnig cysiau paentio a/neu ffotograffiaeth yn yr ardal. Byddai hyn yn golygu trefnu pwyntiau mynediad at yr amgylchedd naturiol gyda golygfannau i weld y tirwedd o fannau nad yw pobl yn gwybod amdanynt. Mae hyn yn llwyddiannus mewn ardaloedd eraill fel y Cairngorms yn yr Alban. Mae amrywiaeth helaeth o ffotograffwyr yn cynnig teithiau diwrnod, penwythnos neu hirach i dynnu lluniau o'r bywyd gwyllt neu'r tirwedd. Gellid cynnig hyn yn hawdd yn ardal yr Ucheldir i wella'r cynnig presennol i ymwelwyr.
7. **Cysiau e.e. cywain / tyfu / waliau cerrig sych / turnio coed.** Gellid defnyddio cysiau i wella'r cynnig i ymwelwyr o ran yr amgylchedd naturiol. Gallai hyn ddenu ymwelwyr i'r ardal, eu hannog i aros yn hirach ar gyfer y cwrs neu alluogi ymwelwyr i werthfawrogi'r amgylchedd naturiol yn ystod eu harhosiad. Gallai amrywiaeth helaetho gysiau fod yn cynnig sgil newydd i ymwelwyr fel adeiladu waliau cerrig sych neu durnio coed. Dewis arall fyddai cywain neu dyfu bwyd gan

ddefnyddio gwahanol dechnegau. Mae Stad yr Hafod eisoes yn cynnig cyrsiau waliau cerrig sych i bobl leol felly gellid hyrwyddo hyn ymhellach i ymwelwyr â'r ardal a chynnig amrywiaeth helaeth o gyrsiau o'r stad. Er enghraifft, gellid ail-ddatblygu'r ardd furiog i'w hen ogoniant gan greu gardd furiog wedi ei phlannu'n llawn gyda ffrwythau a llysiau'n tyfu. Byddai hyn yn gwella'r cynnig presennol i ymwelwyr a fyddai'n ymweld â gardd furiog wedi'i datblygu'n llawn a'r lle i gynnig cyrsiau.

Gellid gweld amaethyddiaeth fel bygythiad i ddatblygu cynnig mwy cydnabyddedig i ymwelwyr. Mae angen i dirfeddianwyr gynnig mynediad a darparu arwyddion ar eu tir i ddangos bod croeso i gerddwyr yn yr ardal. Mae hyn yn newid diwylliannol i sicrhau bod twristiaeth yn cael ei weld fel rhan o'r ateb integredig i bawb o fewn y cymunedau lleol, a fyddai'n sylweddol wahanol i'r arferion presennol yn yr ardal. Mae angen sicrhau bod llwybrau'n cael eu cynnal a'u bod yn agored i ymwelwyr, gan rwystro unrhyw ddifrod i ecosystemau.

Bydd gan y gwaith o ddad-ddofi'r tir ran i'w chwarae yn natblygiad parhaus stori'r Ucheldir yn y dyfodol ac mae amryw o fentrau / prosiectau sy'n weithgar yn y maes hwn yn yr ardal, gan gynnwys y canlynol:

- Mae Ymddiriedolaeth John Muir Trust wedi bod yn gweithio ar safle gerllaw pen Cwm Einion i'r gogledd o ardal yr astudiaeth;
- Mae Coed Gwylt Cambria wedi cael prydles ar dir ger Bwlch Corog gerllaw'r safle uchod.
- Mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Sir Drefaldwyn wedi cynnwys dad-ddofi'r tir yn ei Brosiect Pumlumon sy'n defnyddio dull holistaidd i wella ecoleg ehangder mawr o'r ardal i'r gogledd o'r A44 mewn ffordd radical.

Mae potensial i ddenu ymwelwyr i ryngweithio'n sensitif â phrosiectau o'r fath a'u bywyd gwylt cysylltiedig.

7.4 Bywyd gwledig / yr amgylchedd naturiol: prosiectau â blaenoriaeth

Amlinellir isod amrywiaeth o syniadau prosiectau twristiaeth bywyd gwledig a'r amgylchedd naturiol, gan gynnwys y rheini a ddatblygwyd fel rhan o'r gweithdai ymgynghori â'r gymuned.

NE1 Llwybrau cerdded pellter hir

Argymhelliad	Mapio a hyrwyddo taith gerdded pellter hir Cambria	Blaenoriaeth Isel	Cost Isel	Amserlen Tymor byr i ganolig
Disgrifiad		Cyflawni		
Datblygu llwybr cerdded pellter hir ar draws Mynyddoedd Cambria. Byddai hyn yn cynnwys atyniad allweddol i gerddwyr profiadol sy'n chwilio am ardal newydd o Gymru i'w darganfod. Mae angen diffinio a mapio'r llwybr cerdded a chael cefnogaeth leol gan dirfeddianwyr i arddangos manteision twristiaeth a datblygu amlinelliad manwl o'r costau sy'n gysylltiedig â datblygu a chynnal y		Pentir Pumlumon mewn partneriaeth â Croeso i Gerddwyr (Tregaron a Pontarfynach)		
		Ffynonellau Cyllid Posibl		

llwybrau ac archwilio dewisiadau posibl o ran cyllid.

Argymhellion

Datblygu grŵp o randdeiliaid allweddol sydd â diddordeb mewn arwain y gwaith o ddatblygu a rheoli'r llwybr. Datblygu llwybr, sydd wedi ei fapio'n iawn i roi gwybodaeth allweddol i ymwelwyr. Gall y grŵp hwn wneud cais am gyllid, os oes angen, i wella'r llwybrau, arwyddion, gwasanaethau cyhoeddus, etc.

Beth fyddai Llwyddiant?

Llwybr diffiniedig ac un a gaiff ei hyrwyddo i gerddwyr pellter hir, gyda mynediad at gyfleusterau cyhoeddus.

NE2 Cyrsiau Natur

Argymhelliad

Datblygu cynnig o gyrsiau i ymwelwyr sy'n seiliedig ar ddarganfod yr amgylchedd naturiol.

Blaenoriaeth

Isel

Cost

Isel

Amserlen

Tymor byr

Disgrifiad

Gwella'r cynnig i ymwelwyr trwy gynnig cyrsiau sy'n gysylltiedig â ffermio a'r amgylchedd naturiol. Gellid archwilio amrywiaeth helaeth o gyrsiau gan gynnwys: codi waliau cerrig sych, turnio coed, cywain, a thyfu a choginio bwyd. Gallai hyn hefyd creu cysylltiadau agosach â'r sector amaethyddol yn yr ardal trwy gyrsiau gwneud seidr, plygu cloddiau neu gyrsiau wyna. Ochr yn ochr â hyn, mae potensial i ddatblygu sgiliau i fanteisio i'r eithaf ar yr amgylchedd naturiol fel cyrsiau ffotograffiaeth a phaentio. Gellir datblygu'r rhain mewn partneriaeth ar draws gwahanol safleoedd yn ardal yr Ucheldir er mwyn defnyddio'r amrywiol asedau diwylliannol a thwristaidd yn yr ardal sydd eisoes ar gael.

Cyflawni

Partneriaeth rhwng yr Hafod a phartneriaid lleol

Ffynonellau Cyllid Posibl

RDP ar y cychwyn ac wedyn hunan-ariannu

Argymhellion

Datblygu canolfan a phartneriaethau i gyflwyno cyrsiau yn yr ardal leol yn ymwneud ag amrywiaeth helaeth o sgiliau gwledig, coginio a thyfu.

Beth fydd Llwyddiant?

Cyflwyno cyrsiau i ddenu ymwelwyr i'r ardal

NE3 Taith Adar Ysglyfaethus

Argymhelliad

Datblygu taith adar ysglyfaethus yn ardal yr Ucheldir.

Blaenoriaeth

Isel

Cost

Isel

Amserlen

Tymor byr i ganolig

Disgrifiad Fel yr awgrymwyd yn y gweithdai yngynghori â'r gymuned, datblygu taith adar ysglyfaethus o'r adar allweddol o ddiddordeb yn ardal yr Ucheldir. Trefnu teithiau tywys i wella siawns yr ymwelwyr o weld yr adar a hefyd hyrwyddo'r adar y gelleir eu gweld yn yr ardal. Er enghraifft, gallai'r rhain gynnwys: • Barcutiaid coch yn Nant yr Arian; • Hebogiaid Tramor ger Tregaron; • Eryrod Aur ger Cors Caron; • Gweilch y Pysgod yn Glandyfi, a; • Bwncathod yn yr Hafod neu Gwm Rheidol. Byddai hyn yn cynnig atyniad allweddol i ymwelwyr bywyd gwyllt i ardal yr Ucheldir. Pe byddai'n cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â'r cyrsiau natur, byddai'n ychwanegu gwerth at y ddau syniad prosiect i wella'r cynnig i ymwelwyr. Mae potensial i ddatblygu hyn ymhellach gyda thyllau gwyllo adar neu fannau gwyllo i ffotograffwyr.	Cyflawni Cambrian Safaris mewn partneriaeth â Pentir Pumlumon
Argymhellion Datblygu taith benodol i weld adar ysglyfaethus a gwybodaeth i ymwelwyr â'r ardal ynghylch beth sydd i'w weld a'i wneud yn yr Ucheldir.	Ffynonellau Cyllid Posibl Beth fydd Llwyddiant? Ardal yr Ucheldir yn cynnig taith a gwybodaeth am adar ysglyfaethus i ddenu mwy o ymwelwyr i'r ardal.

8 Cyllid

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn nodi'r ffrydiau cyllid sydd ar gael y gellid eu defnyddio yn ardal yr Ucheldir. Mae'r ffrydiau cyllid wedi cael eu hystyried o fewn cyd-destun y tair thema a archwiliwyd fel rhan o'r astudiaeth hon (diwylliant a threftadaeth, gweithgareddau chwaraeon awyr agored a chyfleoedd natur). Yn ogystal, mae'r adolygiad cyllid wedi ystyried yr anghenion yn yr ardal, sef marchnata/hyrwyddo, seilwaith a gweithgareddau ychwanegol i'w cynnig i ymwelwyr.

Mae'r ffrydiau cyllid sydd ar gael wedi eu rhestru yn Nhabl 5 isod. Mae'n edrych ar yr amrywiol ystyriaethau ar gyfer pob ffrwd cyllid. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyllidwr: y sefydliad neu'r ffrwd ariannu sy'n rheoli'r dyraniad cyllid.
- Swm: uchafswm y dyraniad cyllid sydd ar gael gan y sefydliad hwn.
- Diben: cylch gwaith cyffredinol y dyraniad cyllid.
- Math: os gellir defnyddio'r cyllid ar gyfer grantiau cyfalaf neu reffeniw.
- Dyddiad cau: unrhyw raddfeydd amser allweddol mae angen gwybod amdanynt er mwyn gwneud cais am y dyraniad cyllid.
- Gwybodaeth ychwanegol: lle gellir cael mwy o wybodaeth am y ffrwd cyllid.

I grynhoi, mae amrywiaeth helaeth o ffrydiau cyllid y gellid eu defnyddio ar gyfer datblygu syniadau prosiectau penodol yn ardal yr Ucheldir. Y ffrydiau cyllid o ddiddordeb penodol yw Fferm Wynt Cefn Croes a'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig (RCDF) (disgwyilir ffenest newydd ar gyfer ceisiadau).

Mae Fferm Wynt Cefn Croes yn anelu'n benodol at yr ardal leol o fewn yr Ucheldir i gefnogi unrhyw weithgaredd sy'n cynnwys pobl leol trwy fudiadau cymunedol bach. Bydd angen i syniad y prosiect gynnig budd economaidd, amgylcheddol, addysgiadol, cymdeithasol neu ddiwylliannol i bobl yn yr ardal. Gellir caniatáu hyd at £25,000 y flwyddyn i fudiad neu sefydliad cymunedol. Bydd ceisiadau am y cyllid yn cael eu hystyried yn y gwanwyn a'r hydref bob blwyddyn. Dylid anfon ceisiadau am y cylch nesaf o grant at yr ysgrifennydd cyn diwedd mis Ebrill neu fis Hydref bob blwyddyn. Mae'r ffrwd hon o gyllid yn gyfle i weithredu'r syniadau prosiectau a amlinellir uchod sy'n brosiectau o faint canolig a allai ddod â budd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol i ardal yr Ucheldir.

Bydd y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig (RCDF) yn caniatáu ar gyfer prosiectau reffeniw a chyfalaf gan fuddsoddi mewn hamdden, seilwaith twristiaid a gweithgareddau i wella iechyd ac ansawdd bywyd. Fodd bynnag, mae'r gronfa ar gau ar hyn o bryd a disgwyilir ffenest newydd ar gyfer ceisiadau.

I brosiectau sy'n ymwneud yn benodol â thwristiaeth, mae'r cronfeydd a'r cynlluniau twristiaeth y gellid eu harchwilio ymhellach yn cynnwys:

Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth (TAIS). Mae'r cynllun hwn yn cynnig cymorth cyfalaf trwy raglen alw flynyddol ar gyfer datblygu cyfleusterau twristiaeth cynaliadwy. Fe wnaeth y rownd bresennol agor ar 17^{eg} Mai 2017 a chau ar 16^{eg} Mehefin. Bydd rowndiau pellach yn agor yn flynyddol.

Mae'r Gronfa Fusnes Micro Bychan (MSBF) yn darparu cyllid cyfalaf i'r sector preifat o hyd at 40% o gost y prosiectau at uchafswm o £500,000 i greu cyflogaeth a chyflawni buddion economaidd. Mae'r gronfa hon yn agored ar sail galwad agored hyd at fis Rhagfyr 2020.

Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (TISS). Mae'r cynllun hwn wedi'i anelu at fusnesau canolig i fawr ac mae'n darparu cymorth o fewn yr ystod £25,000 i £500,000.

Nod y cynlluniau yw gweithio gyda'r partneriaid sector twristiaeth ledled Cymru i gyflawni'r targed twf o 10 y cant a nodir yn y strategaeth dwristiaeth.

Nod y Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth (TPIF) yw gwella cydweithio er budd twristiaeth a chymunedau lleol. Mae'r rownd gyfredol wedi cau, ond bydd ffenest bellach yn dod ar gael yn hwyrach yn 2017.

Mae'r Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Rhanbarthol (RTEF) yn helpu gweithredu cynlluniau rheoli cyrchfannau a chysoni ag ymgyrchoedd thematig blynyddol Croeso Cymru. Mae'r rownd gyfredol wedi cau, ond bydd ffenest bellach yn dod ar gael yn hwyrach yn 2017.

Tabl 5 Crynodeb o'r ffrydiau cyllid sydd ar gael

Cyllidwr	Swm	Diben	Math	Dyddiad cau	Mwy o wybodaeth
Cronfa Ranbarthol Cronfa Ymddiriedolaeth Stadiwm y Mileniwm	£7,500	Celfyddydau, Cymuned, yr Amgylchedd a Chwaraeon.	Refeniw / Cyfalaf	Agor 03/04/17 ac yn cau hanner dydd 21/07/17	http://www.millenniumstadiumtrust.org.uk/regional-grant-scheme/
Ymddiriedolaeth Cod Post y Bobl	Hyd at £10,000 ar gyfer amrywiaeth o brosiectau cymunedol	Cymuned	Refeniw / Cyfalaf	Awst 17 (cam mynegi diddordeb)	http://www.postcodetrust.org.uk/
Arian i Bawb Cymru	Hyd at £5,000	Amrywiaeth helaeth o brosiectau cymunedol, iechyd, addysgiadol ac amgylcheddol.	Refeniw / Cyfalaf	Dyddiau cau treigl	https://www.biglotteryfund.org.uk/global-content/programmes/wales/awards-for-all-wales
Cronfa Cefn Gwlad y Tywysog	Hyd at £50,000	Gwella rhagolygon hyfywedd busnesau fferm teuluol, cynnal cymunedau gwledig a gyrru ffyniant economaidd a chefnogi dosbarthu cymorth mewn argyfwng ac adeiladu gwydnwch.		Rowndiau'n agor bob blwyddyn – 4/9/17 tan 5/10/17	http://www.princescountrysidefund.org.uk/grant-giving-programme/grant-programme
Pawb a'i Le	Hyd at £1,000,000	Gwella cymunedau	Refeniw / Cyfalaf	Dyddiad cau treigl	https://www.biglotteryfund.org.uk/prog_people_places
Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig (RDCF)	Hyd at £3,000,000	Un o feysydd yr RDCF yw'r buddsoddiad mewn hamdden, seilwaith twristiaeth a gweithgareddau i wella iechyd ac ansawdd bywyd	Refeniw / Cyfalaf	Ffenest ar gau ar hyn o bryd	http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/ruraldevelopment/wales-rural-development-programme-2014-2020/?lang=en
Cynnal y Cardi	Hyd at £3,000,000	Gellir darparu cymorth ar gyfer y meysydd canlynol: Datblygu Prosiectau, Prosiectau Peilot, Astudiaethau Dichonoldeb, Hwyluso, Hyfforddi, Mentora ac Ymgynghori		Galwad agored	http://www.cynnalycardi.org.uk/english/?page_id=2519
Cronfa Dreftadaeth y Loteri (HLF) Adeiladau a Henobion Treftadaeth	£10,000 i £250,000	Grantiau Mannau Addoli – ariannu atgyweiriadau strwythurol brys i fannau addoli rhestredig Gradd I, II* a II yng Nghymru. Fel rhan o'r prosiect atgyweirio, ariannu gwelliannau hefyd i gyfleusterau a gwaith sy'n helpu mwy o bobl i ymwneud â'r adeiladau rhyfeddol hyn.	Refeniw / Cyfalaf	Dyddiadau cau treigl (ee 05/06/17 ar gyfer penderfyniad ym Medi 17)	https://www.hlf.org.uk/looking-funding/our-grant-programmes/grants-places-worship-wales

Gymunedol Diwylliant ac Atgofion Diwydiannol, morol a thraffidiaeth Tir a threftadaeth naturiol Amgueddfeydd, llyfgelloedd ac archifau	£100,000 i £3,000,000	Partneriaethau Tirwedd – cadwraeth treftadaeth fel rhan annatod o adfywio gwledig a lled-drefol		Cais rownd gyntaf 12pm 1 Mehefin (penderfyniad ym mis Hydref) – 2017 fe dybir	https://www.hlf.org.uk/looking-funding/our-grant-programmes/landscape-partnerships
	£100,000 i £5,000,000	Menter Treftadaeth – helpu cymunedau atgyweirio lleoedd hanesyddol adfeiledig	Cyfalaf	Sail dreigl ar gyfer prosiectau o hyd at £2 filiwn	https://www.hlf.org.uk/looking-funding/our-grant-programmes/heritage-enterprise
Fferm Wynt Cefn Croes	Uchafswm o £25,000 y flwyddyn	Cefnogi unrhyw fath o weithgaredd sy'n cynnwys pobl leol, trwy fudiadau cymunedol bach, sydd o fudd i'w cymuned. Rhaid i'r gweithgareddau gynnig rhyw fesur o fudd economaidd, amgylcheddol, addysgiadol, cymdeithasol neu ddiwylliannol i'r bobl sy'n byw yn yr ardal.		Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried yn y gwanwyn a'r hydref bob blwyddyn. Dylid anfon ceisiadau am y rownd nesaf o grant at yr ysgrifennydd cyn diwedd mis Ebrill neu fis Hydref	http://ponterwydcommunity.org.uk/cms/community-groups/cefn-croes-community-trust/
Rhaglen Wledig Fawr y Loteri: Grantiau Cymunedol	£10,000 - £350,000	Creu atebion i fynd i'r afael â thlodi gwledig yng Nghymru, gan gynnwys Ceredigion.		Rownd 2 yn agor yn gynnar yn 2018	https://www.biglotteryfund.org.uk/global-content/programmes/wales/rural-programme-community-grants
Cronfa Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth (TAIS)	£25,000 - £128,000	Cronfa fuddsoddi sy'n targedu prosiectau amwynderau yn y sector twristiaeth yng Nghymru.	Cyfalaf / Refeniw	17.5.17 – 16.6.127	https://businesswales.gov.wales/zones/tourism/finance#tabs-4
Cronfa Ymgysylltu Twristiaeth Rhanbarthol (RTEF)	Hyd at £150,000 dros 2 years gydag isafswm grant o £20,000 y prosiect.	Helpu cyrchfannau ledled Cymru i hyrwyddo a datblygu cyrchfannau nodedig o ansawdd uchel i ymwelwyr trwy weithredu eu cynlluniau rheoli cyrchfan. Galluogi cyrchfannau i fanteisio i'r eithaf wrth gysylltu eu hunain â dull Croeso Cymru o farchnata ar sail themâu blynyddol.	Refeniw	Bydd rownd newydd yn cael ei lansio yn niwedd 2017.	https://businesswales.gov.wales/dmwales/support/regional-tourism-engagement-fund-rtef
Cronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth (TPIF)	Hyd at £150,000 dros 2 years gydag isafswm grant o £20,000 y prosiect.	Diben cronfa TPIF yw gweithio gyda phartneriaeth sector twristiaeth ledled Cymru i gyflawni'r target twf o 10% o nodir yn y strategaeth twristiaeth. Nod y gronfa yw annog gweithio agosach ar y cyd rhwng consortia twristiaeth, partneriaethau a grwpiau	Refeniw	Bydd rownd newydd yn cael ei lansio yn niwedd 2017.	https://businesswales.gov.wales/dmwales/support/tourism-product-innovation-fund-tpif

		masnach i ddatblygu a gwella'r cynnig o gynhyrchion i ymwelwyr a fydd o fudd i'r sector twristiaeth, cymunedau lleol ac yn allweddol, helpu tyfu'r economi twristiaeth mewn ffordd gynaliadwy.			
Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (TISS)	Hyd at £500,000	Cronfa fuddsoddi yw TISS sy'n cynnwys cymysgedd o fenthyciadau a grantiau, yn targedu prosiectau buddsoddi cyfalaf cymwys yn y sector twristiaeth yng Nghymru. Gellir ei defnyddio naill ai i uwchraddio cynnyrch sy'n bod eisoes neu greu cynnyrch newydd o ansawdd uchel. Mae'r rhaglen Iwerddon Cymru yn cyflwynio buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy i bobl, busnesau a chymunedau ledled Iwerddon a Chymru.	Cyfalaf	Parhaus	http://gov.wales/topics/culture-tourism-sport/tourism/tourism-investment-support-scheme/?lang=en http://irelandwales.eu/apply-for-funding
Interreg					

Ffynhonnell: Miller Research.

9 Monitro a Gwerthuso

Mae'n bwysig nodi bod y Strategaeth Twristiaeth ac Economi Ymwelwyr⁴⁷ yn pwysleisio pwysigrwydd mesur cynnydd a llwyddiant wrth fynd ymlaen trwy osod dangosyddion perfformiad allweddol. Bydd yn bwysig ystyried hyn fel rhan o ddatblygiad unrhyw gynigion manwl neu unrhyw brosiectau a weithredir yn y dyfodol. Ym mhob un o'r syniadau am brosiectau, rydym wedi archwilio beth fyddai llwyddiant ar gyfer pob syniad. Mae'n bwysig archwilio Dangosyddion Perfformiad Allweddol posibl y gellid eu mesur.

Yn gyffredinol ar gyfer ardal yr Ucheldir / Mynyddoedd Cambria, mae'n bwysig mesur y nifer o ymwelwyr presennol, cyfartaledd gwariant fesul ymwelydd, hyd arhosiad ar gyfartaledd a boddhad ymwelwyr wrth ymweld â'r ardal. Mae'r rhain i gyd yn feysydd pwysig i'w monitro dors amser i asesu a fu unrhyw dwf yn nifer yr ymwelwyr neu wariant ymwelwyr yn yr ardal.

Amlinellir isod yr awgrymiadau am ffyrdd i fonitro cynnydd y syniadau penodol a ddrafftiiwyd uchod. Mae'r awgrymiadau'n seiliedig ar syniad y prosiect ac argymhellir ystyriaeth fanwl ar gyfer monitro a gwerthuso'r prosiectau hyn.

Tabl 6 Monitro a Gwerthuso Mesurau

Thema	Syniadau am Brosiectau	Monitro (Dangosyddion Perfformiad Allweddol posibl)
Trawsbynciol	Datblygu Seilwaith Pontarfynach	- Boddhad ymwelwyr gyda Phontarfynach - Y graddau y mae arwyddion/gwybodaeth ar gael
	Treialu Trafnidiaeth Ystwyth ar gyfer twristiaeth a chynllun rhentu beiciau trydan / cerbydau Twizy	- Nifer o ddefnyddwyr cynllun treialu - Defnydd ohono mewn milltiroedd
	Y cynnig bwyd a diod	- Bwyd lleol sydd ar gael - Sefydliadau bwyd a diod newydd - Ymwybyddiaeth o fwyd lleol
	Hyfforddi a chefnogi darparwyr llety lleol	- Digwyddiadau hyfforddi a gynhaliwyd - Ymweliadau â llety/ardaloedd eraill - Rhwydwaith o ddarparwyr a sefydlwyd
	Datblygu strategaeth digwyddiadau gydol y flwyddyn ar gyfer Mynyddoedd Cambria	- Datblygu strategaeth ddigwyddiadau - Nifer mwy o ddigwyddiadau (o waelodlin 2017) - Digwyddiadau newydd a gyflwynir yn

⁴⁷ <http://www.ceredigion.gov.uk/public-it/tourism/stats/certwg/CEREDIGION%20TOURISM%20STRATEGY%202011-2020.pdf>

		yr Ucheldir / Mynyddoedd Cambria
Diwylliant / treftadaeth	Digwyddiadau Cerddorol mewn safleoedd diwylliannol a threftadaeth	- Nifer o ddigwyddadau a sefydlwyd - Nifer a ddaeth iddynt
	Taith Twristiaeth Grefyddol	Teithiau a sefydlwyd
	Gŵyl Ffilmiau	- Nifer o ffilmiau - Nifer a ddaeth iddynt - Ymwybyddiaeth o'r ŵyl
Gweithgareddau awyr agored / chwaraeon	Parc Pumlumon	- Gweithgareddau newydd ar gael - Ymwneud â'r gweithgareddau
	Taith o Fynyddoedd Cambria	- Nifer o gyfranogwyr - Nifer o rasys
	Her Mynyddoedd Cambria	- Nifer o gyfranogwyr - Ymwybyddiaeth o'r digwyddiad
	Cyfleusterau rhentu ac atgyweirio beiciau	- Nifer o leoedd rhentu/atgyweirio - Bodddhad gyda'r beiciau ar rent
	Brandiau awyr agored i hyrwyddo'r ardal	Brandiau a hyrwyddodd yr ardal
	Llwybrau marchogaeth pellter hir	- Datblygu llwybrau ceffylau - Cynnal a chadw llwybrau ceffylau
Bywyd cefn gwlad / yr amgylchedd naturiol	Llwybrau cerdded pellter hir	- Datblygu llwybrau newydd - Nifer o ddefnyddwyr ar y llwybrau
	Cyrsiau natur	- Nifer o gyrsiau a gynigir - Nifer a ddilynodd y cyrsiau - Sgiliau newydd a ddysgwyd
	Taith adar ysglyfaethus	- Datblygu taith newydd - Gwybodaeth newydd ar fywyd gwyllt yn yr ardal



Dylai'r holl brosiectau a ddatblygir gael cynllun cynhwysfawr i werthuso'r llwyddiant a'r gwersi a ddysgwyd. Dylid gwreiddio hyn fel rhan o ddatblygu'r syniad ar gyfer y prosiectau. Bydd hyn yn unigryw i syniadau'r prosiectau penodol, ond gyda'r dangosyddion perfformiad allweddol a amlinellir uchod i'w hystyried ar gyfer mesur.



Atodiad 1: Gweithdy 2 Gweledigaethau ar gyfer yr ardal





Atodiad 2: Gweithdy 3 beth sydd gan yr Ucheldir i'w gynnig?





Atodiad 3 Holiadur ar-lein

English	Cymraeg
Upland Ceredigion Tourism Research	Ymchwil Twristiaeth Ucheldir Ceredigion
Introduction Please complete this short survey to be entered into our prize draw for the chance to win a £100 voucher to be spent on outdoor activities or goods. Miller Research has been commissioned by Pentir Pumlumon to undertake research into tourism in the Ceredigion Uplands - that is the area inland from Aberystwyth, from Tregaron in the South, through Devil's Bridge to Ponterwyd and Nant y Moch in the north. We'd like to ask you about your views and experiences of the area. We conduct all our research according to the Market Research Society guidelines. We will not pass the data on to any third parties and will destroy your details once the evaluation is complete. If you would like to view and complete the survey in Welsh then please use the following link:	Cyflwyniad Cwblhewch yr arolwg byr hwn i gael cyfle i ennill taleb gwerth £100 i'w wario ar weithgareddau neu nwyddau awyr agored. Comisiynwyd Miller Research gan Pentir Pumlumon i wneud ymchwil i dwristiaeth yn Ucheldir Ceredigion - dyna'r ardal fewndirol o Aberystwyth, o Dregaron yn y De, drwy Pontarfynach i Bonterwyd a Nant y Moch yn y gogledd. Dymunwn ofyn i chi am eich barn a'ch profiadau o'r ardal. Rydym yn cynnal ein holl ymchwil yn unol â chanllawiau'r Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad. Ni fyddwn yn rhoi data i unrhyw drydydd parti a byddwn yn dinistrio eich manylion unwaith y bydd y gwerthusiad yn gyflawn. Os dymunwch weld a chwblhau'r arolwg yn Gymraeg, yna defnyddiwch y ddolen ganlynol:
1. Please select the statement(s) which best applies to you. ☐ I have recently visited the area as a tourist ☐ I live / work in the area ☐ Other (please specify)	1. Dewiswch y datganiad (au) sy'n fwyaf cymwys i chi. Rwyf wedi ymweld â'r ardal fel ymwelwr yn ddiweddar Rwy'n byw / gweithio yn yr ardal Arall (rhowch fanylion)
2. To what extent did the following attract you to visit the local area? 5. (Most) 1. (Least) Not at all	2. I ba raddau y llwyddodd y canlynol eich denu i ymweld â'r ardal leol? 5. (Y rhan fwyaf) 1. (Y lleiaf) Dim o gwbl

• The rural landscape / nature and wildlife • The coast: Seaside and watersports • Outdoor activity sports (mountain biking, fell running, bouldering etc) • The culture and heritage of the area • The range of attractions in the area • Friends and family • Other (please specify)	• Y dirwedd wledig / natur a bywyd gwyllt • Yr arfordir: Glan y môr a chwaraeon dŵr • Gweithgareddau awyr agored (beicio mynydd, rhedeg mynydd-dir, clogfeinio etc) • Diwylliant a threftadaeth yr ardal • Yr amrywiaeth o atyniadau yn yr ardal • Cyfeillion a theulu • Arall (nodwch)
3. Did you visit any of the following attractions during your visit? ☐ Bwlch Nant yr Arian Visitor Centre ☐ Devil's Bridge Falls ☐ Hafod Church ☐ Hafod Estate ☐ Magic of Life Butterfly House ☐ Owain Glyndwr's Monument ☐ Rheidol Power Station ☐ Rhiannon Jewellery ☐ Sarah Bunton Chocolates ☐ Strata Florida Abbey ☐ The Silver Mountain Experience ☐ Vale of Rheidol Railway ☐ None of the Above	3. Wnaethoch chi ymweld ag unrhyw un o'r atyniadau canlynol yn ystod eich ymweliad? Canolfan Bwlch Nant yr Arian Rhaeadrau Pontarfynach Eglwys yr Hafod Ystad yr Hafod Tŷ Glöynnod Byw Magic of Life Cofeb Owain Glyndwr Gorsaf Bŵer y Rheidol Gemwaith Rhiannon Siocled Sarah Bunton Abaty Ystrad Fflur Profiad y Mynydd Arian Rheilffordd Cwm Rheidol Dim un o'r uchod
4. What other attractions or activities would you like to see in the area?	4. Pa atyniadau neu weithgareddau eraill yr hoffech eu gweld yn yr ardal?
5. What type of accommodation did you stay in within the area? ☐ Bunkhouse ☐ Bed and Breakfast ☐ With Family and Friends ☐ Hotel / Guest House ☐ Campsite / Caravan Site ☐ Self-Catering Cottage ☐ Glamping Site: Yurt / Camping Pod / Gypsy	5. Ym mha fath o lety oeddech chi'n aros ynddo yn yr ardal? Byncws Gwely a Brecwast Gyda Theulu a Chyfeillion Gwesty / Tŷ Llety Safle Gwersylla / Carafán Bwthyn Hunanarlwyo Safle Glampio: Iwrt / Pod Gwersylla / Carafán Sipsiwn Ymweld am y diwrnod yn unig wnes i Arall (rhowch fanylion)

Caravan ☐ I just came for the day Other (please specify)	
6. Approximately how much did you spend per person, per day, on accommodation and other things during your visit? (i.e. activities, food & drink, travel within the area) ☐ Nothing ☐ £1-10 ☐ £11-20 ☐ £21-50 ☐ £51-100 ☐ £101-£250 ☐ £251-£500 ☐ £501+ ☐ Other (please specify)	6. Tua faint wnaethoch chi ei wario y pen, fesul diwrnod, ar lety a phethau eraill yn ystod eich ymweliad? (h.y. gweithgareddau, bwyd a diod, teithio yn yr ardal) Dim Arall (rhowch fanylion)
7. How long was your stay on your most recent visit? ☐ Day trip ☐ Short break - up to three nights ☐ Up to a week ☐ One to two weeks ☐ More than two weeks ☐ Other (please specify)	7. Pa mor hir oedd eich arhosiad ar eich ymweliad mwyaf diweddar? Trip am ddiwrnod Gwyliau byr - hyd at dair noson Hyd at wythnos Un i ddwy wythnos Mwy na phythefnos Arall (rhowch fanylion)
8. How frequently do you visit the area? ☐ This is the first time I/we have visited ☐ Once every few years ☐ Once or twice a year ☐ Three or four times a year ☐ Five or six times a year ☐ More than six times a year Other (please specify)	8. Pa mor aml ydych chi'n ymweld â'r ardal? Dyma'r tro cyntaf i mi / i ni ymweld Unwaith bob ychydig flynyddoedd Unwaith neu ddwywaith y flwyddyn Tair neu bedair gwaith y flwyddyn Pump neu chwe gwaith y flwyddyn Mwy na chwe gwaith y flwyddyn Arall (rhowch fanylion)
9. Would you recommend this area to a friend or	9. Fyddech chi'n argymhell yr ardal hon i

relative looking for somewhere to visit? Yes Maybe No Don't know Other (please specify)	gyfaill neu berthynas sy'n chwilio am rywle i ymweld? Byddwn Efallai Na Ddim yn gwybod Arall (rhowch fanylion)
10. What one thing could be done to improve the visitor experience in this area?	10. Pa un peth y gellid ei wneud i wella profiad ymwelwyr yn yr ardal hon?
About you Would you mind telling us a little about yourself? This information will not be passed onto any other organisation and will be used by Pentir Pumlumon solely for the purpose of understanding its market.	Amdanoch chi A fyddai wahaniaeth gennych ddweud ychydig wrthym amdanoch eich hun? Ni fydd y wybodaeth yn cael ei throsglwyddo i unrhyw sefydliad arall a bydd yn cael ei ddefnyddio gan Pentir Pumlumon yn unig ar gyfer y diben o ddeall ei farchnad.
11. Which age group do you fall into? ☐ 16 and under ☐ 17-25 ☐ 26-44 ☐ 45-64 ☐ 65 and over	11. I ba grŵp oedran ydych chi'n perthyn? 16 ac iau 17-25 26-44 45-64 65 a throsodd
12. What is the first half of your postcode? (If outside UK please state country)	12. Beth yw hanner cyntaf eich cod post? (Os y tu allan i'r Deyrnas Unedig, nodwch y wlad)
Thank you Thank you for completing the survey. Your views are greatly appreciated and will help to inform the research into improving services for tourism in the Ceredigion Uplands. If you would like to know more about the project, please contact astrid@miller-research.co.uk . If you wish to be entered the prize draw, please leave your name and e-mail address in the boxes below, if not, please press done to complete the survey.	Diolch Diolch am gwblhau'r arolwg. Mae eich barn yn cael ei werthfawrogi'n fawr a bydd yn helpu i lywio'r ymchwil i wella gwasanaethau ar gyfer twristiaeth yn Ucheldir Ceredigion. Os hoffech wybod mwy am y prosiect, cysylltwch ag astrid@miller-research.co.uk . Os dymunwch gael eich cynnwys yn y raffl, gadewch eich enw a'ch cyfeiriad e-bost yn y blychau isod. Os nad ydych, pwyswch wedi gorffen (done) i gwblhau'r

13. If you would like to be entered into a prize draw to win a £100 outdoor activity voucher, please enter your name and e-mail address in the boxes provided below.	arolwg. 13. Os hoffech gael eich cynnwys yn y raffl i ennill taleb gweithgareddau awyr agored gwerth £100, rhowch eich enw a'ch cyfeiriad e-bost yn y blychau a ddarperir isod.
--	---

Atodiad 4 Rhestr o'r rhai a gyfwelwyd

Enw	Sefydliad
David Austin	Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur
Helen Jones	Croeso Cymru
Angie Polkey	Preswlydd lleol / Y warchodfa natur yng Nghors Caron
Ieuan Joyce	Cymdeithas Mynyddoedd Cambria
Ellen ap Gwynn	Cyngor Sir Ceredigion
Gwenfair Owen	Cyngor Sir Ceredigion
Helen Harrison	Preswlydd lleol – ymateb i bapur newydd
Llyr ap Iolo	Rheilffordd Cwm Rheidol
Dafydd Wyn Morgan	Twm Treks
Val Hawkins	Croeso Canolbarth Cymru
Nicol Gwynn	Gwesty'r Hafod
Nia Taylor	Y Talbot
Gareth Owens	Nant yr Arian